# CRONFA BENSIWN DYFED

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021-2022

Gweinyddwyd gan:

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

**Rhagair Gan Y Cadeirydd** 3
**Cyflwyniad** 5
**Adran 1 – Adroddiad Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol** 7
**Rheoli'r Gronfa ac Ymgynghorwyr** 7
**Rheoli Risg** 8
**Perfformiad Ariannol** 9
**Adran 2 – Y Polisi Buddsoddi ac Adroddiadau Perfformiad** 10
**Buddsoddiadau'r Gronfa** 10
**BlackRock** 14
**Schroders** 18
**Partners Group** 23
**Partneriaeth Pensiwn Cymru** 25
**PIRC** 30
**Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol** 34
**Adran 3 – Gweinyddu'r Gronfa** 37
**Adran 4 – Adroddiad Actiwaraidd** 48
**Adran 5 - Llywodraethu** 50
**Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Dyfed** 50
**Polisi Llywodraethu** 53
**Datganiad Cydymffurfiaeth y Llywodraethu** 57
**Adran 6 – Datganiad Cyfrifon** 62
**Adran 7 – Datganiad Strategaeth Gyllido (FSS)** 104
**Adran 8 – Datganiad Strategaeth Buddsoddi (ISS)** 118
**Adran 9 – Polisi Buddsoddi Cyfrifol** 129
**Adran 10 – Datganiad Polisi Cyfathrebu** 133
**Adran 11 - Geirfa** 138
**Cysylltu a'r Gronfa** 140

# Rhagair Gan Y Cadeirydd

**Croeso i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed eleni.**

Dechreuodd 2021-2022 mor dda wrth i'r economi adfer yn gyflym yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19 ac wrth i'r ysgogiad cyllidol ac ariannol a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig gael effaith. Fodd bynnag, tua diwedd y flwyddyn, cafodd economi'r byd "ergyd driphlyg", os mynnwch chi, yn sgil cynnydd mewn chwyddiant (a ragwelais y llynedd), cyfraddau llog cynyddol a'r rhyfel ofnadwy yn Wcráin. Mae'r materion hyn wedi cael effaith ddofn ar ein gwaith a'n bywydau personol ac yn parhau i wneud hynny.

Yn ystod y flwyddyn cymeradwyodd y pwyllgor pensiwn waith ailstrwythuro ecwiti pellach, Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa a Chynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru 2022-2025 a chafodd ddiweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd prosiectau gweinyddu pensiynau.

Arweiniodd y gwaith ailstrwythuro ecwiti at symud £30m ychwanegol i Gronfa Incwm Amgen Strategol (SAIF) BlackRock UK sy'n dod â chyfanswm y dyraniad i'r gronfa hon i £150m (5% o'r Gronfa) a £60m ychwanegol i Schroders, ein rheolwyr eiddo, sy'n golygu mai £400m (13% o'r Gronfa) yw cyfanswm y dyraniad gyda nhw. Mae hyn yn sicrhau bod y buddsoddiadau yn unol â dyraniad asedau strategol y Gronfa unwaith eto. Yn y dyfodol mae disgwyl i SAIF ddarparu arenillion o tua 3.5% a chyfanswm enillion o 4-4.5% ac amgyfrifir y bydd Schroders yn darparu llif arian ychwanegol o £2.8m y flwyddyn. Mae'r rhesymoli hwn hefyd yn arwain at ostyngiad pellach yn nwyster carbon y Gronfa ac, yr un mor bwysig, at rywfaint o amddiffyniad rhag chwyddiant sydd hyd yn oed yn fwy hanfodol erbyn hyn o ystyried bod chwyddiant yn codi'n gyflym.

Mae'r Gronfa yn fuddsoddwr hirdymor sy'n anelu at ddarparu cronfa bensiwn gynaliadwy ar gyfer yr holl randdeiliaid ac mae ganddi ddyletswydd ymddiriedol i weithredu er budd pennaf, hirdymor cyflogwyr y Gronfa ac aelodau'r cynllun. Mae Buddsoddi Cyfrifol yn rhan sylfaenol o strategaeth fuddsoddi gyffredinol y Gronfa fel y'i cyflwynwyd yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi. Hynny yw, sicrhau'r enillion mwyaf posib yn amodol ar lefel dderbyniol o risg yn ogystal â chynnig mwy o sicrwydd cost i gyflogwyr, a lleihau cost hirdymor y cynllun. Cred y pwyllgor pensiwn fod ystyried ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu Corfforaethol (ESG) yn sylfaenol yn hyn o beth, yn enwedig felly pan maent yn debygol o effeithio ar yr amcan buddsoddi cyffredinol. Mae'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn nodi credoau buddsoddi'r Gronfa a gellir ei weld yn Adran 9.

Mae cronfa fuddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud cynnydd da ac yn dangos ymrwymiad clir i gyfuno a'r gwerth y gall ei gyflawni. Roedd 38% o Gronfa Bensiwn Dyfed wedi'i buddsoddi ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, a 39% arall yn y cronfeydd cyfun a gaffaelwyd gan BlackRock ar y cyd. Mae cynllun gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru yn nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion allweddol yn ystod y tair blynedd nesaf ar gyfer llywodraethu, datblygu is-gronfeydd yn barhaus, gwasanaethau gweithredwyr, buddsoddiadau ac adrodd, cyfathrebu a hyfforddiant ac adnoddau, cyllideb a ffioedd. Fel aelod o'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu rwy'n falch o'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma ac yn llawn cyffro ynghylch y posibilrwydd y bydd y Gronfa yn buddsoddi yn yr is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy a fydd yn cael ei lansio yn 2022-2023. Mae'r hyfforddiant a ddarperir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, a'i phartneriaid, i aelodau'r pwyllgor pensiwn a'r bwrdd pensiwn yn cael ei gyflwyno'n dda, yn rhoi llawer o wybodaeth ac mae o'r safon uchaf. Mae gwefan helaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru yn werth ei gweld!

Mae'n bwysig cofio bod y tîm Gweinyddu Pensiynau nid yn unig yn gweinyddu'r Cynllun Llywodraeth Leol a'i ddarpariaethau, ond ei fod hefyd, trwy gytundeb, yn darparu gwasanaethau tebyg i'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddogion Tân sy'n gyfrifol am weinyddu Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu a'r Frigâd Dân ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r prosiectau sy'n cael eu cyflawni gan y tîm ar hyn o bryd yn cynnwys gwaith rheoleiddio megis McCloud/Sargeant a dangosfyrddau pensiynau, gwaith datblygu pellach i gynefino cyflogwyr ag I-connect er mwyn gallu trosglwyddo data yn electronig a gwaith cysoni o ran yr Isafswm Pensiwn Gwarantedig lle mae dros 99% o'r cofnodion a gedwir wedi'u cysoni. Rwy'n falch hefyd o roi gwybod i chi fod y tîm wedi perfformio'n well na'r meincnod ym mhob categori a bod ganddo, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, gost gweinyddu is fesul pob aelod o'r cynllun, sef £27.62. Gellir gweld rhagor o fanylion am y meysydd hyn yn Adran 3.

Er bod aelodaeth y Gronfa wedi cynyddu 2.4% (1,235) yn ystod y flwyddyn, bod cyfanswm y llif gwaith (ymddeoliadau, dechreuwyr, trosglwyddiadau ac ymadawyr) yn parhau ar lefel uchel a bod y pandemig yn golygu bod gweithio hybrid yn angenrheidiol o hyd, mae'r tîm wedi parhau i dalu ein pensiynwyr yn brydlon ac i ymgysylltu'n effeithiol â chyflogwyr drwy gydol y flwyddyn.

Ac yn olaf, mae'r ymarfer prisio teirblwydd yn agosáu unwaith eto! Mae uwch-swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'n hactiwari, Mercer, ar gyfrifiadau cychwynnol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2022. Mae disgwyl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi yn yr hydref a chaf ar ddeall gan ffynhonnell ddibynadwy y bydd gennym lefel gyllido uchel unwaith eto sy'n newyddion da i'n holl randdeiliaid.

Hoffwn ddiolch i fy nghyd-aelodau o'r pwyllgor pensiwn am eu cymorth a'u hymroddiad parhaus i'r rôl ac i'r uwch-reolwyr a swyddogion yn y timau Gweinyddu a Buddsoddi am gynnal gwasanaeth o safon uchel i'n holl randdeiliaid a sicrhau bod Cronfa Bensiwn Dyfed yn mynd o nerth i nerth.

**Cynghorydd Elwyn Williams**

**Cadeirydd y Pwyllgor Pensiwn**



# Cyflwyniad

Fel y soniodd y Cadeirydd yn ei Ragair bu'n flwyddyn arall llawn digwyddiad i'r Gronfa.

Sut mae hyn wedi effeithio ar adenillion ar fuddsoddiadau?


Cynhyrchodd y Gronfa adenillion cyffredinol o 6.2% yn ystod y flwyddyn, gan danberfformio o gymharu â chyfartaledd adenillion Cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o 8.6%. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i lefel gymharol uchel y Gronfa o ecwitïau a buddsoddiad isel mewn asedau amgen megis ecwiti preifat, cronfeydd rhagfantoli a dyled breifat. Gellir gweld adenillion fesul dosbarth asedau yn y tabl isod:

**Perfformiad un flwyddyn hyd at 31/03/22**

| Dosbarth o Asedau | Adenillion (%) | ALl Cyffredinol (%) | Gor/Tanberfformio (%) | Safle |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau | 5.50 | 7.60 | (2.10) | 76 |
| Bond/Credyd | (2.70) | (0.30) | (2.40) | 73 |
| Asedau amgen | 8.70 | 19.00 | (10.30) | 84 |
| Eiddo | 17.20 | 17.90 | (0.70) | 58 |
| **Cyfanswm** | **6.20** | **8.60** | **(2.40)** | **69** |

Yn y tymor hir mae'r Gronfa wedi elwa ar ddosbarthu asedau, gan roi adenillion o 8.2% y flwyddyn dros y 3 blynedd diwethaf ers prisiad actiwaraidd Mawrth 2019, 7.1% y flwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf a 9.4% dros y 10 mlynedd diwethaf, gan ei rhoi ymhell o flaen y Gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ganolrifol, ac, yn wir, ei gosod yn y chwartel uchaf. Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 2.

Amrywiodd gwerth y Gronfa ar y farchnad yn ystod y flwyddyn gan adfer ym mis Mawrth 2022 yn dilyn y cwymp yn Ionawr a Chwefror 2022. Rwy'n disgwyl i'r gwerth barhau i amrywio yn 2022-23 oherwydd y rhesymau rydym eisoes wedi'u rhoi yn yr adroddiad hwn.



Gan gyfeirio at y prisiad actiwaraidd a grybwyllir uchod, roedd yr ymarferiad teirblynyddol wedi dechrau ar 31 Mawrth 2022. Diben y prisiad actiwaraidd yw pennu:

- Y gost ddisgwyliedig o ddarparu'r buddion a gronnwyd gan aelodau ar y dyddiad prisio (y "rhwymedigaethau") a chymharu hyn yn erbyn yr arian a gaiff ei ddal gan y Gronfa (yr "asedau").
- Y cyfraniadau sydd eu hangen i dalu am gost y buddion y bydd aelodau gweithredol yn eu cronni yn y dyfodol a chostau eraill a ysgwyddir wrth redeg y Gronfa (y 'Gyfradd Gyfrannu Sylfaenol').
- Cynllun priodol ar gyfer gwneud iawn am y diffyg os oes gan y Gronfa lai o asedau na rhwymedigaethau. Bydd y cynllun hwn yn cwmpasu'r symiau y bydd angen eu talu (y 'Gyfradd Gyfrannu Eilaidd') a'r amserlen ar gyfer eu talu ('y Cyfnod Adfer').

Yr arwyddion cynnar gan Mercer, ein actiwari, yw bod y Gronfa wedi'i hariannu'n dda unwaith eto. Bydd chwyddiant cynyddol a'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael eu hystyried yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo lefel y cyllid a chyfraddau cyfraniad cyflogwr. Bydd canlyniadau llawn y cyflogwr ar gael yng Nghyfarfod Ymgynghorol Blynyddol y Gronfa yn Hydref 2022.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da o ran buddsoddi cyfrifol. Mae'r Cadeirydd eisoes wedi sôn am ein Polisi Buddsoddi Cyfrifol a hefyd cyflwynwyd diweddariad i'r pwyllgor pensiwn am Fuddsoddi Cyfrifol yn ystod y flwyddyn. Y prif bwyntiau oedd:

- Parhau i ymgysylltu ynghylch amrywiaeth o faterion, drwy Robeco, ein partner stiwardiaeth ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Wedi cwrdd â grwpiau Divest Dyfed a Chyfeillion y Ddaear ac wedi parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â nhw
- Wedi gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru i sefydlu is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy. Bydd hyn yn cael ei lansio yn ystod 2022
- Wedi cychwyn trafodaethau gyda BlackRock ar amrywiolyn carbon is / sero tanwydd ffosil o'u Cronfa Carbon Isel ACS y mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddi'n barod
- Wedi cychwyn ar drafodaethau gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru ar fuddsoddiadau lleol yng Nghymru

Fel y gwelwch chi mae hyn i gyd yn addawol iawn ac yn parhau ein taith garbon is.

Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig eto eleni. Mae digwyddiadau byd-eang fel y pandemig neu'r rhyfel yn Wcráin, yn effeithio ar ein bywydau gwaith a phersonol ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod llesiant ein timau'n flaenllaw yn ein meddyliau.

Diolch i chi i gyd am eich ymroddiad parhaus i'ch rolau mewn Gweinyddu a Buddsoddi ac am eich cefnogaeth i holl randdeiliaid Cronfa Bensiwn Dyfed.



**Chris Moore**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol**
**Cyngor Sir Gar**

# Adran 1 – Adroddiad Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol

## Rheoli’r Gronfa ac Ymgynghorwyr

Gweinyddir Cronfa Bensiwn Dyfed gan Gyngor Sir Caerfyrddin (yr awdurdod gweinyddu) ac yn unol â chyfansoddiad y Cyngor Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed sydd â'r cyfrifoldeb strategol cyffredinol am reoli'r Gronfa.

Pennir rheolau a chyfrifoldebau’r Pwyllgor gan Bolisi Llywodraethu y Gronfa. Yn ystod 2020-21 aelodau’r Pwyllgor oedd:

- Cynghorydd Elwyn Williams - Cadeirydd y Pwyllgor
- Cynghorydd Derek Cundy - Aelod o’r Pwyllgor
- Cynghorydd Jim Jones - Aelod o’r Pwyllgor
- Cynghorydd Dai Thomas - Dirprwy Aelod o’r Pwyllgor

Bu swyddogion canlynol Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhai o gyfarfodydd y Pwyllgor hefyd a/neu weithredu fel ymgynghorwyr:

- Mr Chris Moore, FCCA - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
- Mr Randal Hemingway, CPFA - Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
- Mr Anthony Parnell, FCCA - Rheolwr Pensiwn a Buddsoddiadau Gyllidol
- Mr Kevin Gerard, MIPPM - Rheolwr Pensiynau

Mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed wedi mabwysiadu y Cod Ymarfer ar Sgiliau a Gwybodaeth Pensiynau y Sector Gyhoeddus. Mae’r Cod yn gosod y gwybodaeth a’r sgiliau sydd angen ar bob un sy’n ymwneud a llywodraethu cynlluniau pensiwn fel yr argymellwyd gan yr Arglwydd Hutton yn ei adroddiad ar bensiynau y sector gyhoeddus.

Bu’r Pwyllgor a’r swyddogion mewn amrywiol gyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau yn ymwneud â materion gweinyddu a buddsoddi. Darparwyd y rhain gan reolwyr y gronfa, ymgynghorwyr, y swyddogion a chymdeithasau llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol.

Mae presenoldeb cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer pob aelod o'r Pwyllgor yn cael ei ddangos dros y dudalen.

| Presenoldeb cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi 2020-21 | Cyng. Elwyn Williams | Cyng. Deryk Cundy | Cyng. Jim Jones | Cyng. Dai Thomas |
|---|---|---|---|---|
| **Hawliau pleidleisio** | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | | | | |
| **Presenoldeb cyfarfodydd 2021-22:** | | | | |
| Cyfarfodydd y Pwyllgor 16 Mehefin 2021 | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol 7 Hydref 2021 | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Cyfarfodydd y Pwyllgor 8 Hydref 2021 | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Cyfarfodydd y Pwyllgor 3 Rhagfyr 2021 | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cyfarfodydd y Pwyllgor 29 Mawrth 2022 | ✓ | ✓ | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau hyfforddi 2021-22:** | | | | |
| Sesiwn Briffio (Schroders) Mai 2021 | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Sesiwn Briffio (BlackRock) Mehefin 2021 | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cyfarfod Busnes (LAPFF) Gorffennaf 2021 | ✓ | | | |
| Uwchgynhadledd Fuddsoddi (LGC) Medi 2021 | ✓ | | | ✓ |
| CCB & Cyfarfod Busnes (LAPFF) Hydref 2021 | ✓ | | | |
| Hyfforddiant Sylfaenol (LGPC) | | | | ✓ |
| Cynhadledd Flynyddol (LAPFF) Rhagfyr 2021 | | ✓ | | |

Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod, cynhaliodd Partneriaeth Pensiwn Cymru nifer o sesiynau hyfforddiant yn ystod 2021-22 oedd ar gael i holl aelodau'r Pwyllgor.

**Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol:** Mr Adrian Brown (MJ Hudson Investment Advisers) - mae'n cynghori'r Pwyllgor ar bob agwedd ar reoli buddsoddiadau mewn cyfarfodydd chwarterol a chyfarfodydd ad hoc yn ôl yr angen.

| | |
|---|---|
| **Rheolwyr Buddsoddiadau:** | BlackRock, Schroders, Partners Group, Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| **Ymgynghorwyr Cyfreithiol:** | Eversheds |
| **Cwmni Mesur Perfformiad:** | Local Authority Pension Performance Analytics (PIRC) |
| **Actiwari:** | Mercer |
| **Gwarchodwr:** | Northern Trust |
| **Bancwyr:** | Barclays Bank Plc |
| **Darparwyr AVC:** | Prudential, Standard Life and UTMOST |
| **Archwilydd Allanol:** | Archwilydd Cyffredinol Cymru |

## Rheoli Risg

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed, yn cydnabod pwysigrwydd rheoli risg effeithiol. Rheoli risg yw'r broses y mae'r Cyngor yn ei dilyn i nodi a rhoi sylw'n systematig i risgiau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau.

Mae rheoli risg yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin ac mae gan y Cyngor strategaeth rheoli risg ffurfiol sy'n cael ei hadolygu a'i datblygu'n rheolaidd mewn ymateb i newidiadau yn y Cyngor a'r tu allan iddo.

Fel sy'n ofynnol gan y strategaeth rheoli risg, mae'r Gronfa'n defnyddio'r offeryn cofrestru risg i nodi, blaenoriaethu, rheoli a monitro risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Dyfed. Gellir gweld y gofrestr hon ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed.

Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido (FSS) (Adran 7) a'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (ISS) (Adran 8) yn egluro risgiau allweddol y Gronfa a sut y maent yn cael eu nodi, eu lleihau, eu rheoli a'u hadolygu. Mae cyngor ynghylch buddsoddi'n cael ei roi gan Mr Adrian Brown, yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, ac mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed yn cwrdd i adolygu perfformiad a gweithgarwch rheolwr y gronfa o leiaf bob chwarter.

## Perfformiad Ariannol

Incwm a Gwariant

Mae'r tabl isod yn dangos incwm a gwariant gwirioneddol 2021–22 o'u cymharu â'r gyllideb.

| | Gwirioneddol 2020-21 £'000 | Cyllideb 2021-22 £'000 | Gwirioneddol 2021-22 £'000 | Amrywiant 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| Cyfraniadau Aelodau | 21,599 | 22,121 | 22,847 | 726 |
| Cyfraniadau Cyflogwyr | 62,455 | 66,893 | 66,168 | (725) |
| Trosglwyddiadau i fewn | 3,196 | 3,000 | 4,196 | 1,196 |
| Incwm o'r Buddsoddiadau | 32,187 | 15,798 | 32,138 | 16,340 |
| **Cyfanswm Incwm** | **119,437** | **107,812** | **125,349** | **17,537** |
| | | | | |
| **Gwariant** | | | | |
| Budd-daliadau sy'n daladwy | (89,783) | (92,363) | (92,402) | (39) |
| Trosglwyddiadau allan | (3,595) | (3,120) | (3,534) | (414) |
| Treuliau rheoli | (1,883) | (1,938) | (1,976) | (38) |
| Treuliau rheoli buddsoddiadau | (13,303) | (10,391) | (12,435) | (2,044) |
| **Cyfanswm Gwariant** | **(108,564)** | **(107,812)** | **(110,347)** | **(2,535)** |
| Newid yng Ngwerth y Buddsoddiadau ar y farchnad | 654,254 | - | 178,055 | - |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Gronfa** | **665,127** | **-** | **193,057** | **-** |

# Adran 2 – Y Polisi Buddsoddi ac Adroddiadau Perfformiad

## Buddsoddiadau'r Gronfa

### Polisi Buddsoddi

Mae'r Gronfa yn gosod datganiad eang o'r egwyddorion y mae wedi mabwysiadu er mwyn sefydlu ei strategaeth buddsoddi a chyllido yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (ISS) (Adran 8). Mae'r ISS hefyd yn gosod polisiau'r Gronfa ynglyn a buddsoddi cyfrifol a materion cymdeithasol ac amgylcheddol eraill.

Mae'r Polisi Buddsoddi a'r ymagwedd at rheoli risg i'r Gronfa ar y cyfan ac ynglyn a rheolwyr buddsoddi wedi eu amlinelli yn y ISS. Mae crynodeb o sut mae'r gweinyddiaeth o'r buddsoddiadau yn cael ei reoli, pwy sy'n delio gyda phob elfen o'r portffolio, sut mae hawliau pleidleisio wedi eu harfer hefyd i'w dod o hyd yn y ISS.

Datblygwyd yr ISS ochr yn ochr â strategaeth gyllido'r Gronfa ar sail integredig gan gymryd i ystyriaeth y risgiau sy'n gynhenid yn y gronfa. Mae dogfen ISS ar gael ar ein wefan.

### Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Gronfa yn fuddsoddwr hirdymor sy'n anelu at ddarparu cronfa bensiwn gynaliadwy ar gyfer yr holl randdeiliaid ac mae ganddi ddyletswydd ymddiriedol i weithredu er budd pennaf, hirdymor cyflogwyr y Gronfa ac aelodau'r cynllun.

Mae Buddsoddi Cyfrifol yn rhan sylfaenol o strategaeth fuddsoddi gyffredinol y Gronfa fel y'i cyflwynwyd yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi hwn. Hynny yw, sicrhau'r enillion mwyaf posib yn amodol ar lefel dderbyniol o risg yn ogystal â chynnig mwy o sicrwydd cost i gyflogwyr, a lleihau cost hirdymor y cynllun. Cred y Gronfa fod ystyried ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu Corfforaethol (ESG) yn sylfaenol yn hyn o beth, yn enwedig felly pan maent yn debygol o effeithio ar yr amcan buddsoddi cyffredinol.

Gellir gweld y Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn Adran 9 o'r adroddiad hwn neu ar y wefan.

### Aelodaeth o Sefydliadau Cronfeydd Pensiwm

Mae'r Gronfa yn cefnogi ac yn aelod o'r Gymdeithas Pensiynau a Chynilion Oes (PLSA), Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF), Rhwydwaith Pensiwn CIPFA, Bwrdd Ymgynghorol (SAB) Cynllun y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Phwyllgor Pensiynau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGPC).

### Pleidleisio

Mae'r rheolwyr wedi'u cyfarwyddo i bleidleisio cyfranddaliadau'r Gronfa yn unol a chanllawiau pleidleisio'r PLSA. Mae'r canllawiau yma yn gosod egwyddorion y dylid dilyn pan yn pleidleisio.

### Newidiadau Rheoli

Nid oedd unrhyw newidiadau rheoli yn ystod y flwyddyn, ond bu trosglwyddiad:

Dadfuddsoddodd y Gronfa elfen o'i phortffolios ecwiti rhanbarthol BlackRock ILG a BlackRock i gynyddu ei dyraniad i bortffolio SAIF UK Blackrock a phortffolio eiddo Schroders £30m a £60m, yn y drefn honno.

## Dyrannu Asedau

| Mandad | Dull | Rheolwr | Meincnod (%) | Gwirioneddol (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Ecwitis** | | **Dyraniad** | **65.00** | **72.56** |
| Byd-eang | Weithredol | Partneriaeth Pensiwn Cymru | | 30.51 |
| Siapan | Weithredol | BlackRock | | 3.39 |
| Rhanbarthol Eraill | Oddefol | BlackRock | | 28.64 |
| ACS Carbon Isel | Oddefol | BlackRock | | 10.02 |
| **Llog Sefydlog** | | **Dyraniad** | **10.00** | **8.62** |
| Stociau Gilt Wrth Indecs | Oddefol | BlackRock | | 0.97 |
| Bondiau Llog Sefydlog | Weithredol | Partneriaeth Pensiwn Cymru | | 7.65 |
| **Eiddo** | | **Dyraniad** | **15.00** | **14.26** |
| Eiddo | Weithredol | Schroders | | 12.83 |
| Eiddo | Weithredol | Partners Group | | 1.43 |
| **Seilwaith** | | **Dyraniad** | **5.00** | **0.00** |
| Seilwaith | | | | 0.00 |
| **Asedau Amgen** | | **Dyraniad** | **5.00** | **3.73** |
| SAIF | Weithredol | BlackRock | | 3.73 |
| **Arian** | | **Dyraniad** | **0.00** | **0.83** |
| Arian | Weithredol | Rhyfelwyr | | 0.83 |
| **Cyfanswm** | | | **100.00** | **100.00** |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod dyraniad gwirioneddol y Gronfa i ecwitïau yn fwy na'r meincnod. Mae'r Pwyllgor Pensiwn yn adolygu'r dyraniadau gyda golwg ar ailgydbwyso'r buddsoddiadau yn unol â'r meincnodau pan fydd buddsoddiadau seilwaith ar gael.

Mae’r tabl isod yn dangos y newid yng ngwerth y Gronfa o ddechrau’r flwyddyn hyd at ddiwedd y flwyddyn ac mae wedi ei dorri i lawr i ddosbarth yr asedau. Cynyddwyd gwerth y Gronfa 6.4% o 2020-21 i 2021-22.

| | **Gwerth ar 31/03/21** | **Gwerth ar 31/03/22** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Ecwitis y DU | 518,105 | 570,137 |
| Ecwitïau Byd-eang a Thramor | 1,769,008 | 1,778,321 |
| Stociau Gilt Wrth Indecs | 61,172 | 31,515 |
| Bondiau Llog Sefydlog | 258,679 | 247,621 |
| Eiddo | 338,043 | 461,700 |
| Asedau Amgen (SAIF) | 84,314 | 120,559 |
| Arian | 11,376 | 24,969 |
| Incwm i’w Derbyn | 547 | 1,855 |
| Cyfanswm | **3,041,244** | **3,236,677** |

## Perfformiad Buddsoddi

Roedd cyfanswm perfformiad y Gronfa yn is na Chyfartaledd Cyffredinol Awdurdod Lleol dros y cyfnodau o un a thair blynedd, ac yn gyfartal â'r cyfartaledd ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd ac yn uwch na'r cyfartaledd dros y cyfnod o ddeng mlynedd.

| Cyfnodau hyd at 31/03/22 | Elw (%) | LA Universe (%) | Perfformio'n well / tan berfformio (%) | Safle |
|---|---|---|---|---|
| 1 flwyddyn | 6.20 | 8.60 | (2.40) | 69 |
| 3 mlynedd * | 8.20 | 8.30 | (0.10) | 64 |
| 5 mlynedd * | 7.10 | 7.10 | 0.00 | 44 |
| 10 mlynedd * | 9.40 | 8.90 | 0.50 | 20 |

* Elw blynyddol

## Perfformiad unigol rheolwyr y Gronfa

Mae'r tablau canlynol yn dangos perfformiad bob rheolwr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

<u>Partners Group</u>

Mesurir perfformiad y buddsoddiadau mewn eiddo preifat yn ôl y Gyfradd Elw Fewnol, sef ffigwr a fydd yn anwadal hyd nes y bydd y Gronfa'n cyrraedd aeddfedrwydd. 7% yw cyfradd elw fewnol bresennol y portffolio. Mae hwn yn elw dros amser ar sail llif arian ac felly nid yw'n fodd ystyrlon o fesur perfformiad hyd nes y bydd yr holl gyfalaf a gyfrannwyd a'r enillion wedi cael eu dychwelyd i'r buddsoddwr. Tan hynny bydd gyfradd elw fewnol yn codi ac yn gostwng fel y bydd yr arian yn llifo i mewn ac allan. Mae'r portffolio buddsoddiadau'n parhau i gydymffurfio â disgwyliadau'r Grŵp o ran ei berfformiad.

Mae'r tabl isod yn dangos y llifoedd arian hyd at 31 Mawrth 2022. Roedd prisiad y portffolio eiddo yn uwch na cost gwreiddiol y buddsoddiad:

| Portffolio Buddsoddiadau | |
|---|---|
| Ymrwymiad | £99.53 miliwn |
| Lefel ymrwymiad - uniongyrchol | 23.78% |
| Lefel ymrwymiad - eilradd | 31.87% |
| Lefel ymrwymiad - cynradd | 46.96% |
| Wedi'u fuddsoddi | £80.82 miliwn |
| Lefel buddsoddi | 81.20% |

| Partners Group Red Dragon, L.P. | |
|---|---|
| Ymrwymiadau | £97.00 miliwn |
| Cyfraniadau cyfalaf | £66.26 miliwn |
| Cyfraniadau cyfalaf (mewn % o ymrwymiadau) | 68.31% |
| Ymrwymiadau heb gyllid | £30.74 miliwn |
| Dosbarthiadau | £42.00 miliwn |
| Gwerth Ased Net | £46.33 miliwn |

Schroders

Tanberfformiodd y Gronfa yn erbyn y meincnod dros y cyfnodau o un, tair a phum mlynedd sef -2.00%, -1.00% a -0.30% yn y drefn honno.

| Perfformiad i 31/03/22 | Elw (%) | Meincnod (%) | Perfformio'n well / tan berfformio |
|---|---|---|---|
| 1 flwyddyn | 21.10 | 23.10 | (2.00) |
| 3 mlynedd* | 7.00 | 8.00 | (1.00) |
| 5 mlynedd* | 7.50 | 7.80 | (0.30) |

* Elw blynyddol

BlackRock

Roedd y rheolwr wedi perfformio'n well na'r meincnod dros y cyfnodau o un, tair a phum mlynedd o 1.30%, 1.57% ac 1.38% yn y drefn honno.

| Perfformiad i 31/03/22 | Elw (%) | Meincnod (%) | Perfformio'n well / tan berfformio |
|---|---|---|---|
| 1 flwyddyn | 7.61 | 6.31 | 1.30 |
| 3 mlynedd* | 8.84 | 7.27 | 1.57 |
| 5 mlynedd* | 7.09 | 5.71 | 1.38 |

* Elw blynyddol

Partneriaeth Pensiwn Cymru

**Cronfa Byd-eang**

Tanberfformiodd y Gronfa yn erbyn y meincnod dros y cyfnod o flwyddyn sef -9.81%. Mae'r gronfa hefyd wedi tanberfformio yn erbyn y meincnod ers ei dyddiad cychwyn ym mis Chwefror 2019 sef -1.31%.

| Perfformiad i 31/03/22 | Elw Net (%) | Meincnod (%) | Perfformio'n well / tan berfformio |
|---|---|---|---|
| 1 flwyddyn | 2.61 | 12.42 | (9.81) |
| O'r dechrau tan nawr | 12.31 | 13.62 | (1.31) |

**Cronfa Credyd Byd-eang**

Perfformiodd y Gronfa 0.81% yn well na'r meincnod dros y cyfnod o flwyddyn. Mae'r gronfa hefyd wedi perfformio 1.19% yn well na'r meincnod ers ei dyddiad cychwyn ym mis Awst 2020.

| Perfformiad i 31/03/22 | Elw Net (%) | Meincnod (%) | Perfformio'n well / tan berfformio |
|---|---|---|---|
| 1 flwyddyn | (4.29) | (5.10) | 0.81 |
| O'r dechrau tan nawr | (2.74) | (3.93) | 1.19 |

# BlackRock

## Y Gronfa Incwm Amgen Strategol (Strategic Alternative Income Fund / SAIF)

Roedd 2021 yn flwyddyn heriol yn gyffredinol gyda mwy o ansicrwydd oherwydd effeithiau parhaus y pandemig. Mae'r Gronfa Incwm Amgen Strategol ("SAIF", "y Gronfa") wedi parhau i ddarparu gwydnwch, gan ddod drwy'r pandemig, a rhoi diogelwch incwm i'n buddsoddwyr drwy gyfnod anodd. Mae dull aml-asedau, hyblyg y Gronfa, a gefnogir gan fynediad eang a gwahaniaethol BlackRock ar draws marchnadoedd incwm diogel, wedi galluogi ei buddsoddwyr i fanteisio ar gyfleoedd deniadol drwy drefniadau marchnad amrywiol ers dechrau'r Gronfa yn 2017.

Mae dull hynod amrywiol SAIF o fuddsoddi yn rhychwantu mathau o lif arian a hyd, yn ogystal â strategaethau a sectorau. Rydym yn dal i gredu bod dull hyblyg a chytbwys yn caniatáu i ni sicrhau gwerth cymharol yn well drwy'r cylch buddsoddi, gan fod yn fwy addas i amsugno effaith cyfraddau uwch a chwyddiant yn rhannol.

O chwarter i chwarter, o Chwarter 4 2021, cynyddodd gwerth ased net (NAV) y Gronfa fesul cyfran 1.3%. O flwyddyn i flwyddyn, o Chwarter 4 2021, cynyddodd y gwerth ased net fesul cyfran 2.3%. Arenillion net SAIF a ddosbarthwyd dros 12 mis ac a gafwyd gan fuddsoddwyr yr ail gylch (gan gynnwys Dyfed), ar gyfer blwyddyn galendr 2021, oedd 4.1%.

Mae llifau arian y Gronfa yn parhau i fod ag oes gyfartalog amcangyfrifedig wedi'i phwysoli o fwy na 10 mlynedd a chwrs o tua 10-15 mlynedd. Mae tua 84% o'r buddsoddiadau yn y DU ac mae gan tua 41% ohonynt gysylltiad pendant â chwyddiant yn y DU. Buddsoddir SAIF mewn pum dosbarth asedau, sy'n rhychwantu mwy nag 20 sector, ac mae wedi gwneud defnydd detholus o'i hyblygrwydd i fuddsoddi mewn cyfleoedd nad ydynt yn rhai Sterling, sy'n ychwanegol, yn wahaniaethol ac yn cynnig enillion deniadol wedi'u haddasu yn ôl risg. Ar 31 Rhagfyr 2021, roedd SAIF wedi gwneud 175 o fuddsoddiadau ar sail golwg fanwl ar draws 52 o fuddsoddiadau uniongyrchol a dau fuddsoddiad mewn cronfa.

### Defnyddio

Yn ystod 2021, gwnaeth SAIF tua 15 o fuddsoddiadau, gan gynnwys cyllido ymrwymiadau presennol i sawl buddsoddiad. Mae enghreifftiau'n cynnwys Project Left 2.0, sef buddsoddiad eilaidd gwerth £108m o unedau yng Nghronfa Incwm Adnewyddadwy y DU (RIUK). Gan fod y farchnad ar gyfer prosiectau gweithredol gwynt a solar wedi dod yn gystadleuol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rhoddodd SAIF Project Left 2.0 ar waith yn Chwarter 3 2021, gan arddangos ei dull hyblyg o fuddsoddi mewn asedau pŵer adnewyddadwy sy'n gysylltiedig â chwyddiant ac sy'n cael eu cefnogi gan gymhorthdal yn y DU, drwy'r farchnad eilaidd, gan sicrhau enillion gwell wedi'u haddasu yn ôl risg na buddsoddiad uniongyrchol mewn asedau gweithredol. Enghraifft arall o hyblygrwydd SAIF a'i ffocws ar werth cymharol yw Project Aura, a oedd yn cyllido dyled darparwr tai cymdeithasol cofrestredig wrth iddo gaffael portffolio gweithredol o tua 2.8k o eiddo yn y DU. Mae'r cyfle hwn yn cynhyrchu enillion deniadol wedi'u haddasu yn ôl risg drwy fuddsoddi mewn tai drwy ddyled seilwaith (yn hytrach na drwy fod yn berchen ar yr eiddo tirol), gan ddarparu ar gyfer anghenion hanfodol cymunedau hefyd.

Ym mis Mai 2022, mae 100% o ymrwymiad Dyfed i'r ail gylch (£120m) wedi'i ddefnyddio ac mae 19% o'r ymrwymiad mwy diweddar i'r pumed cylch (£30m) wedi'i ddefnyddio, ymhell cyn y disgwyl o ran disgwyliadau defnyddio llinol. Mae'r biblinell fuddsoddi yn parhau'n gryf gyda chyfres iach o gyfleoedd sy'n rhychwantu nifer o ddosbarthiadau asedau, sectorau a rhannau o'r strwythur cyfalaf.

**Rhagolygon**

Daeth 2021 i ben gyda rhagolygon mwy cadarnhaol ynghylch Covid-19, fodd bynnag, cafodd optimistiaeth o ran ailgychwyn economaidd yn 2022 ei lleihau gan bryderon ynghylch chwyddiant ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin. I eglurhau, nid oes gan y Gronfa unrhyw gysylltiadau uniongyrchol â Rwsia, Wcráin na Belarws. Rydym yn monitro'n agos chwyddiant, y cynnydd mewn cyfraddau ac effaith y rhain ar y rhagolygon ynghylch twf. Credwn y bydd y Gronfa yn elwa o'r cysylltiad â chwyddiant, o ystyried bod tua 70% o SAIF, yn bendant (drwy delerau cytundebol) neu'n amhendant (drwy nodiadau cyfradd gyfnewidiol), yn gysylltiedig â chwyddiant. Pe bai'r economi'n arafu, credwn fod gan y Gronfa bortffolio amrywiol iawn o asedau amddiffynnol sydd wedi dod drwy'r pandemig ac sydd mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu gwydnwch, diogelwch incwm a chadernid.

**Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu**

Yn BlackRock, rydym bob amser wedi canolbwyntio ar helpu ein cleientiaid i geisio cyrraedd eu nodau buddsoddi hirdymor drwy bortffolios gwydn sydd wedi'u llunio'n dda. Ein hargyhoeddiad o ran buddsoddi yw y gall portffolios integredig amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) ddarparu enillion gwell wedi'u haddasu yn ôl risg i fuddsoddwyr yn y tymor hir, a bod data sy'n gysylltiedig ag ESG yn darparu cyfres gynyddol bwysig o offer i nodi risgiau a chyfleoedd heb eu prisio o fewn portffolios. Mae materion ESG wedi'u hintegreiddio ar draws ein portffolios gweithredol mewn marchnadoedd cyhoeddus a phreifat. Mewn portffolios mynegai, lle mai'r amcan yw efelychu meincnod marchnad wedi'i bennu ymlaen llaw, rydym yn ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi ynghylch materion ESG i wella'r gwerth hirdymor i'n cleientiaid.

**Buddsoddi Cyfrifol**

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn BlackRock wedi'i ganoli yn y tîm Stiwardiaeth Buddsoddi sy'n cynnwys dros 65 o arbenigwyr. Fel ymddiriedolwr i'n cleientiaid, mae ein cwmni wedi'i adeiladu i gefnogi gwerth hirdymor asedau y mae ein cleientiaid wedi buddsoddi ynddynt. O safbwynt BlackRock, gall rheoli materion cynaliadwyedd sy'n berthnasol i fusnesau mewn modd cadarn gyfrannu at berfformiad ariannol hirdymor cynaliadwy cwmnïau. Gall cynnwys yr ystyriaethau hyn yn y broses ymchwil buddsoddi, llunio portffolio a stiwardiaeth wella'r enillion hirdymor wedi'u haddasu yn ôl risg ar gyfer ein cleientiaid.

Pleidleisio yw'r math mwyaf eang o ymgysylltu â chwmnïau, gan ddarparu sianel i roi adborth i'r bwrdd a'r rheolwyr ynghylch canfyddiadau buddsoddwyr o'u harferion o ran perfformiad a llywodraethu.

Mae BlackRock yn pleidleisio'n flynyddol mewn mwy na 17,000 o gyfarfodydd cyfranddalwyr, gan ddefnyddio dull achos wrth achos o ran yr eitemau y mae cyfranddalwyr yn pleidleisio arnynt. Mae ein dadansoddiad yn cael ei lywio gan ein canllawiau ar bleidleisio drwy ddirprwy a ddatblygwyd yn fewnol, ein hymgysylltu cyn pleidleisio, ymchwil a'r ffactorau sefyllfaol mewn

cwmni penodol. Ein nod yw pleidleisio ym mhob cyfarfod cyfranddalwyr yn y cwmnïau y mae ein cleientiaid wedi buddsoddi ynddynt. Mewn achosion lle mae rhwystrau sylweddol i bleidleisio, fel blocio cyfranddaliadau neu ofynion o ran pŵer atwrnai, byddwn yn adolygu'r penderfyniadau i asesu maint y cyfyngiadau ar bleidleisio yn erbyn y buddion posibl.

**Enghraifft o Stiwardiaeth Buddsoddiad Carbon Isel**

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn fuddsoddwr yng Nghronfa Olrhain Ecwiti Carbon Isel y Byd ACS BlackRock sy'n olrhain Mynegai Dethol Targed Lleihau Tanwydd Ffosil Carbon Isel y Byd MSCI. Nod y mynegai yw mynd i'r afael â dau ddimensiwn y cysylltiad â charbon – allyriadau carbon a chronfeydd tanwydd ffosil. Bwriad y mynegai yw cyflawni lefel darged o gamgymeriadau olrhain a ragwelir, gan leihau'r cysylltiad â charbon ac eithrio cwmnïau sydd â chysylltiad â thanwydd ffosil.

Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, roedd gan Gronfa Carbon Isel BlackRock 914 o gwmnïau yn y portffolio. Dros y cyfnod, roedd 1,011 o ymgysylltiadau â chwmnïau ac, o'r rheiny, roedd 554 o gwmnïau unigol wedi ymgysylltu. Yn rhanbarthol, mae hyn yn cyfateb i 44% o ymgysylltiadau yng ngwledydd America, 39% yn Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica a 18% yn Asia a'r Môr Tawel. O ran ystadegau pleidleisio, pleidleisiodd BlackRock ar 95.9% o'r 1,103 o gyfarfodydd pleidleisio ac ar 92.6% o'r 14,957 o gynigion (rheolwyr a chyfranddalwyr).

**Enillion Cronfa 1 Ebrill 2021 to 31 Mawrth 2022**

| | 12 mis hyd at 31-Mawrth-22 | |
|---|---|---|
| **Enillion %** | **Cyfrif (%)** | **Mynegai (%)** |
| Cronfa Mynegai Ecwiti y DU Aquila* | 13.08 | 13.03 |
| Cronfa Mynegai Ecwiti Ewropeaidd Aquila Life heb gynnwys y DU | 6.84 | 6.28 |
| Cronfa Ecwiti Japan Ascent Life | 0.29 | -2.42 |
| Is-gronfa Mynegai Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg iShares | -11.52 | -11.37 |
| Cronfa Olrhain Ecwiti Carbon Isel y Byd ACS | 14.36 | 15.74 |
| **Cyfanswm y Gronfa** | **7.61** | **6.31** |
| Portffolio Stociau Gilt sy'n gysylltiedig â Mynegai | 4.85 | 4.85 |
| **Cyfanswm y Gronfa gan gynnwys Stociau Gilt sy'n gysylltiedig â Mynegai y DU** | 7.55 | - |

**<u>Perfformiad BlackRock</u>**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, adenillodd Prif Bortffolio Cronfa Bensiwn Dyfed 7.61% ar gyfer y cyfnod o gymharu ag adenillion mynegai cyfun o 6.31%, ac felly rhagorodd ar y mynegai 1.3%. Olrheiniodd y cronfeydd a reolir yn oddefol y mynegeion y cânt eu rheoli yn unol â hwy.

O ran yr ochr weithredol, perfformiodd Ecwitïau Japan 2.71% yn uwch na'r meincnod.

**Gavin Lewis, Rheolwr Gyfarwyddwr**

# Schroders


## Cefndir

Penodwyd Schroders i reoli portffolio Ewrop gyfan o fuddsoddiadau anuniongyrchol ym mis Mawrth 2010.  Ar 31 Mawrth 2022 tua £428 miliwn oedd gwerth y portffolio eiddo.  Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, buddsoddwyd 98.9% yn ôl gwerth yn y DU ac roedd 1.1% yn ôl gwerth yn cael ei ddal mewn arian parod (y cyfan ohono wedi'i ymrwymo).  Mae yna ddaliannau gweddilliol enwol ar Gyfandir Ewrop, yn dilyn dirwyn y rhan fwyaf o'r cronfeydd sylfaenol i ben.

Mae'r strategaeth portffolio wedi datblygu dros yr 11 mlynedd diwethaf, o fuddsoddi'n bennaf mewn cronfeydd eiddo tirol cytbwys (h.y. cronfeydd sy'n buddsoddi mewn eiddo manwerthu, swyddfa a diwydiannol) i fuddsoddi fwyfwy mewn cyfryngau arbenigol sector. Mae hyn yn rhoi mynediad i Gronfa Bensiwn Dyfed i'r gorau mewn rheolwyr arbenigol dosbarth ac wedi dod â Chronfa Bensiwn Dyfed i gysylltiad â strategaethau arbenigol sy'n dod i'r amlwg megis byw ar ôl ymddeol a thai â chymorth cymdeithasol.  Mae'r strategaeth hefyd wedi datblygu i ymgorffori elfennau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ym mhob agwedd ar y broses fuddsoddi, gan gynnwys dewis a monitro cronfeydd ac adrodd i gleientiaid.

Mae strwythur sector 'edrych trwodd' portffolio'r Deyrnas Unedig yn dilyn Barn Cwmni Schroders yn fras, h.y. cyfran lai o eiddo manwerthu o gymharu â'r meincnod, a chyfran fwy o'r sector diwydiannol, swyddfeydd rhanbarthol a sectorau 'amgen' nad ydynt yn brif ffrwd.  Y prif wahaniaeth o'i gymharu â Barn y Cwmni yw sefyllfa Cronfa Bensiwn Dyfed o ran cyfran lai o swyddfeydd canol Llundain a warysau manwerthu.  Rydym am leihau'r gyfran lai o'r olaf trwy fasnachu mewn unedau mewn cronfa warysau manwerthu arbenigol a gallwn gael mynediad i swyddfeydd canol Llundain drwy ein buddsoddiad yn y Gronfa Unedau Eiddo Gweithleoedd yn y Dyfodol.

Yn ôl math o gronfa, mae oddeutu 42.3% o'r portffolio yn ôl gwerth wedi'i buddsoddi mewn strategaethau cytbwys craidd yn y DU, ac mae'r portffolio wedi cynyddu'n sylweddol gysylltiad â strategaethau arbenigol craidd (37.7% erbyn hyn) dros y pum mlynedd diwethaf.  Mae 12.4% o'r portffolio bellach wedi'i buddsoddi mewn strategaethau amddiffynnol sy'n darparu amddiffyniad rhag dirywiad ac mae 6.5% o'r portffolio wedi'i buddsoddi mewn strategaethau ychwanegu gwerth, y rhagwelir y byddant yn cynyddu adenillion portffolio cyffredinol yn fawr dros y tair blynedd nesaf.




**Noder: Mae'r siart yn cynnwys arian parod a ddelir gyda'r cleient**

**Ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu**

Mae Polisi Cynaliadwyedd Schroders Capital Real Estate Solutions (SCRES) yn rhoi sylw i'r gweithgareddau yr ydym yn eu cynnal fel rhan o'n proses diwydrwydd dyladwy i ddeall elfennau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) yr holl gronfeydd ar ein Llwyfan Buddsoddi. Rydym yn ymrwymo i ymgysylltu'n rhagweithiol â rheolwyr a'u hannog i fod yn dryloyw ac yn agored gyda buddsoddwyr wrth ddangos sut maent yn ymgorffori ystyriaethau cynaliadwyedd a risgiau yn eu prosesau buddsoddi. Mae'r polisi yn cyflwyno ein gofynion ESG ar gyfer rheolwyr yn ogystal â'n hymrwymiadau i gleientiaid. Trwy gydol y flwyddyn hon byddwn yn casglu data drwy arolygon, astudiaethau achos a chyfweliadau i sicrhau bod y cronfeydd yr ydym yn buddsoddi ynddynt yn cyflawni'r mentrau cynaliadwyedd a nodwyd gennym yn ein polisi. Mae copi o'r polisi llawn ar gael ar gais.

**Y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd**

Nod y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd yw prif ffrydio adrodd ar risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn dogfennau ariannol blynyddol sefydliadau. Mae fframwaith y Tasglu yn berthnasol i bob sector, gan gynnwys eiddo tirol. Mae'r argymhellion wedi'u strwythuro o gwmpas pedair adran: Llywodraethu, Strategaeth, Rheoli Risg, a Metrigau a Thargedau. Cefnogodd Schroders argymhellion y Tasglu yn gyhoeddus yn 2017 ynghyd â mwy na 100 o gorfforaethau eraill. Erbyn hyn mae dros 1,000 o gefnogwyr.

Mae Schroders wedi cyflwyno Cynllun Gweithredu Pontio o ran yr Hinsawdd y gellir ei weld trwy glicio yma. Mae gennym gyfrifoldeb i reoli'r cyfalaf y mae ein cleientiaid yn ei roi yn ein gofal ac i'w ddiogelu rhag risgiau y mae newid yn yr hinsawdd yn eu peri i gefnogi perfformiad buddsoddi ar gyfer y tymor hwy. Mae ein dealltwriaeth o'r effeithiau a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol yn datblygu'n gyson. Felly rydym yn ceisio gwreiddio ymhellach y gwaith o nodi ac asesu materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y dyfodol yn ein proses ymchwil. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o fonitro risgiau sy'n dod i'r amlwg a nodi gwelliannau posibl i elfennau craidd ein proses fuddsoddi, megis ein fframwaith asesu risg a rheoli.

**Ymrwymiad Schroders i fod yn Garbon Sero Net erbyn 2050**

Mae Schroders Real Estate Capital wedi ymrwymo i fod yn Garbon Sero Net erbyn 2050. Gellir gweld ein Llwybr at fod yn Garbon Sero Net trwy glicio yma. Mae ein Llwybr Sero Net yn adeiladu ar ein rhaglen bresennol i wella elfennau cynaliadwyedd ein hasedau ac yn cefnogi'r pwyslais cynyddol ar leihau allyriadau i gyfyngu ar gynhesu byd-eang i 1.5Oc, fel y nodir yng Nghytundeb Paris 2015. Bydd y Llwybr yn datblygu dros amser wrth i Schroders Real Estate a'r diwydiant ehangach ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i fynd i'r afael ag effaith gweithgareddau eiddo tirol ar garbon ac wrth i fentrau rheoleiddio ddatblygu. Mae agwedd SCRES at Sero Net yn gofyn am fynd ati i ymgysylltu â rheolwyr trydydd parti i annog a dylanwadu ar eu dull gweithredu. Rydym wrthi'n sicrhau bod y rheolwyr hyn yn sefydlu Llwybrau Carbon Sero Net sy'n cynnwys gosod targedau interim. Byddwn yn monitro eu cynnydd i asesu a ydynt ar y trywydd iawn i gyflawni allyriadau Sero Net erbyn 2050. Yn ein Polisi Cynaliadwyedd, rydym wedi gwneud addewid mai dim ond mewn cronfeydd sydd wedi cyhoeddi Llwybrau Sero Net y byddwn yn gwneud buddsoddiadau newydd. Rydym yn mynnu

bod pob buddsoddiad presennol mewn cronfeydd wedi sefydlu Llwybrau Sero Net erbyn diwedd 2022.

**Ôl Troed Carbon**

Mae'r tabl isod yn cyflwyno ôl troed carbon wedi'i ddiweddaru yn seiliedig ar gyfansoddiad portffolio Cronfa Bensiwn Dyfed fel ar ddiwedd mis Mawrth 2022. Rydym yn cyfrifo ôl troed carbon y portffolio trwy luosi canran perchnogaeth pob cronfa ag allbwn allyriadau carbon y gronfa briodol mewn tunelli fel yr adroddwyd gan y rheolwr. Caiff allbwn pob cronfa ei grynhoi i greu cyfanswm allyriadau ar gyfer portffolio Cronfa Bensiwn Dyfed. Yna cyflwynir yr ôl troed carbon o ran faint o dunelli o garbon deuocsid sy'n cael ei ollwng ar lefel portffolio ochr yn ochr â dadansoddiad o allyriadau cwmpas I, II a III. Rydym yn parhau i herio Rheolwyr y daliannau sylfaenol i ddarparu mwy o dryloywder wrth adrodd am garbon a fydd yn ein helpu i ddatblygu'r dadansoddiad perchnogol hwn.

| **Gwerth Portffolio Dyfed Ch1 2022** | **£428,389,947** | **Allyriadau a amcangyfrifir** | |
|---|---|---|---|
| % o'r portffolio lle adroddwyd allyriadau | 48.20% | % o'r portffolio sy'n cael ei gynnwys drwy allosodiad | 90.30% |
| £ o'r portffolio lle adroddwyd allyriadau | £206,399,482 | £ o'r portffolio lle adroddwyd allyriadau | £387,044,049 |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1 (tunelli) | 223.16 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1 (tunelli) | 375.6 |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 2 (tunelli) | 431.39 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1 (tunelli) | 731.17 |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 3 (tunelli) | 753.53 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1 (tunelli) | 1322.26 |
| Cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr (tunelli) | 1408.1 | Cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr (tunelli) | 2429.02 |
| Cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul £m | 6.8 | Cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul £m | 6.3 |
| **Allyriadau heb eu hadrodd** | | | |
| % o bortffolio Dyfed sydd heb ei gynnwys | 9.70% | | |
| £ o'r portffolio lle nad adroddwyd allyriadau | £41,345,898 | | |

## Perfformiad

Roedd perfformiad cryf eiddo tirol masnachol y DU yn 2021 wedi parhau i chwarter cyntaf 2022, er gwaethaf yr ansicrwydd macro-economaidd ehangach. Mae adenillion absoliwt eiddo tirol wedi bod yn gryf iawn, ac mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi cael cyfanswm adenillion o 21.1% (ffioedd net) yn y deuddeg mis i ddiwedd Ch1 2022. Roedd adenillion yn is na'r meincnod dros y chwarter (-0.5%). Mae adenillion cymharol wedi bod yn wan dros ddeuddeg mis (-2.0%), gan adlewyrchu gwanhad y dyraniad amddiffynnol yn y portffolio a'r ymrwymiadau i strategaethau ychwanegu gwerth. Bydd y ddau'n gwella adenillion mewn cyfnod lle mae adenillion eiddo tirol yn wannach. Mae'r adenillion yn is na'r meincnod dros dair blynedd (-1.0% y flwyddyn) a phum mlynedd (-0.3% y flwyddyn) ond maent yn parhau i fod yn unol â'r meincnod dros ddeng mlynedd. Er ein bod yn gweld anwadalrwydd mewn adenillion rhwng chwarteri, hoffem atgoffa buddsoddwyr bod eiddo tirol yn fuddsoddiad tymor hir.

## Rhagolygon eiddo yn y Deyrnas Unedig

Dechreuodd marchnad eiddo tirol y DU yn gryf yn 2022, gan gynnal y patrwm a welwyd yn 2021. Cyfanswm yr adenillion ym mhedwar mis cyntaf eleni oedd 7.4% a'r sector diwydiannol oedd y sector a berfformiodd orau o hyd, yn sgil twf uwch mewn gwerth rhent o'i gymharu â manwerthu a swyddfa. Er ei bod yn bosibl y bydd y perfformiad cryf hwn yn parhau drwy ail hanner 2022, rydym yn credu ei bod yn fwy tebygol y bydd cyfanswm yr adenillion yn gwanhau wrth i dwf economaidd arafu. Er y dylai chwyddiant uwch effeithio ar renti, a phopeth arall yn gyfartal, gallai'r arafu mewn twf economaidd leihau'r galw am le. Ar ben hynny, mae arenillion eiddo tirol yn sensitif i arenillion bondiau a chostau cyllid ac mae'r naid mewn arenillion bond 10 mlynedd i 2.5% yn golygu bod y bwlch rhwng arenillion bondiau ac eiddo tirol bellach yn gulach nag y mae wedi bod ers 2009.

Mewn egwyddor yr asedau sydd fwyaf agored i gyfraddau llog cynyddol yw'r rhai sydd â ffrydiau incwm cymharol sefydlog, neu ansicr. Mae hyn yn cynnwys siopau, canolfannau siopa, gwestai busnes, swyddfeydd mewn lleoliadau eilaidd ac yn gyffredinol, unrhyw adeilad nad yw'n defnyddio ynni'n effeithlon. Mae'r cynnydd sydyn mewn costau adeiladu (>15%) a thynhau telerau benthyciadau banc hefyd yn debygol o arwain at ostyngiad mewn prisiau prosiectau ailddatblygu a thir. I'r gwrthwyneb, yr asedau a'r sectorau a fydd, mae'n debyg, yn fwyaf amddiffynnol dros y 12 mis nesaf yw'r rhai sydd â rhagolygon da ar gyfer twf incwm dros y tymor hir. Mae'r rhain yn cynnwys ystadau diwydiannol aml-osod, swyddfeydd sydd ag elfennau cryf o ran defnyddio ynni'n effeithlon a llesiant, warysau manwerthu a rhai sectorau arbenigol megis gwyddorau bywyd a hunan-storio.

## Strategaeth y Portffolio

Y strategaeth yn 2021 oedd gwneud gwerthiannau mewn llai o gronfeydd cytbwys gwahaniaethol â rhagolygon perfformiad gwannach a buddsoddi mewn cronfa ychwanegu gwerth heb gyfyngiadau i fanteisio ar unrhyw gambrisio yn y farchnad. Roedd cost ail-leoli'r portffolio wedi gwanhau adenillion cymharol yn 2021 o ystyried adenllion cryf iawn eiddo tirol, ond rhagwelir y bydd y strategaeth hon yn sicrhau cynnydd mawr i'r portffolio dros y tair blynedd nesaf.

Mae perfformiad sylweddol wedi'i wreiddio yn y portffolio, a rhagwelir y bydd Cronfa Byw ar ôl Ymddeol y DU, y Gronfa Tai â Chymorth Cymdeithasol a Chronfa Sefyllfaoedd Arbennig Schroders yn sicrhau perfformiad sylweddol yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'r tair strategaeth wedi bod yn wanhaol yn ystod eu cyfnod caffael, ond byddant yn dechrau rhoi adenillion cryf wrth i ddatblygiadau gael eu cwblhau, wrth i gynlluniau busnes gael eu rhoi ar waith ac wrth i asedau gael eu gwerthu. Mae'r portffolio'n cynnwys nifer o ddaliannau sy'n cynnig amddiffyniad rhag dirywiad, megis dyledion eiddo tirol a manwerthu cyfleustra, sy'n gwella adenillion y portffolio a addaswyd yn ôl risg yn y dyfodol a bydd yn darparu gwydnwch mewn cyfnod lle disgwylir adenillion is o ran y farchnad eiddo tirol ehangach. Rydym wedi nodi rhai strategaethau, gan gynnwys hunan-storio, gwestai a strategaethau preswyl dethol, a fydd yn helpu i wella adenillion y portffolio a addaswyd yn ôl risg a'n nod yw gwneud dyraniadau dethol i'r strategaethau hyn yn 2022.

**Patrick Bone, Rheolwr Cronfa**

# Partners Group

## Trosolwg

Mae Partners Group Mae Red Dragon LP yn buddsoddi mewn ystod eang o gyfleoedd eiddo tirol Ewropeaidd y gellir eu cyrchu trwy brif fuddsoddiadau, cynradd ac eilaidd. Ar 31 Mawrth 2022, roedd y portffolio yn cynnwys 8 buddsoddiad uniongyrchol, 15 o drafodiadau eilaidd ac 13 o brif ymrwymiadau. Mae'r portffolio yn creu a gwireddu gwerth ac mae wrthi'n gwneud dosraniadau.

## Gweithgarwch ymadael

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r portffolio wedi cael 6.3 miliwn GBP mewn dosraniadau. Yn chwarter cyntaf 2022, derbyniwyd 1.8 miliwn GBP o ddosraniadau o 2 gronfa sylfaenol yn y portffolio. Yn gyntaf, gwireddodd Cronfa Strategaethau Nordig NREP II ei bortffolio logisteg yn llawn, ac yn ail, gadawodd Portffolio Defnydd Cymysg Sbaen (Forte) 2 ased sylfaenol a leolir yn Barcelona.

## Buddsoddiadau newydd

Ym mis Mai 2021, buddsoddodd y portffolio gyfalaf mewn darparwr blaenllaw o adeiladau addysg modiwlaidd o ansawdd premiwm yn y Nordig. Ym mis Gorffennaf 2021, ymrwymodd y rhaglen gyfalaf i bortffolio preswyl defnydd cymysg Sbaenaidd.

## Datblygu portffolio

Dros y 12 mis diwethaf, cyfrannwyd 2 filiwn GBP ychwanegol at fuddsoddiadau. Ar 31 Mawrth 2022 y portffolio NAV yw 46.3 miliwn GBP, cynnydd o 7.8 miliwn GBP. O fewn y cyfnod, cynyddodd lluosrif buddsoddiad net Partners Group Red Dragon o 1.26x i 1.33x.

Mae tanysgrifennu darbodus a rheolaeth weithredol Partners Group yn parhau i gefnogi gwerth ei fuddsoddiadau portffolio, wrth werthuso cyfleoedd dadfuddsoddi yn barhaus.

## Marchnad Eiddo Tirol

Yn ystod chwarter cyntaf 2022, tyfodd trafodiadau eiddo tirol byd-eang 33% flwyddyn ar ôl blwyddyn. Effeithiwyd ar y dechrau cryf i'r flwyddyn gan y gwrthdaro rhwng Rwsia a'r Wcráin. Rydym mewn cyfnod o ansefydlogrwydd economaidd gyda phwysau sylweddol o ran chwyddiant.

Yn Ewrop, roedd prisiau swyddfa gwell yn cael eu hysgogi'n bennaf gan weithgarwch buddsoddi cynyddol yn deillio'n bennaf o drafodion asedau sengl mawr. Yn ogystal, mae prisio mwy deniadol ar gyfer adeiladau swyddfa mwy newydd yn dynodi symudiad tuag at asedau sydd ag amwynderau deniadol i ystod eang o denantiaid. Yn y cyfamser, parhaodd marchnad ddiwydiannol y DU i weld prisiau ffafriol wedi'u hybu gan alw cadarn a thwf rhent cadarnhaol.

## ESG mewn Eiddo Tirol yn Partners Group

### Cyflawni uchelgeisiau sero net

Mae Partners Group wedi ymrwymo i weithio tuag at allyriadau carbon sero net ar draws y sefydliad cyfan a rheoli portffolio Red Dragon tuag at nod Cytundeb Paris o gyrraedd sero net erbyn 2050. Mae Partners Group wedi ymrwymo ymhellach i leihau dwysedd allyriadau carbon y portffolio 50% erbyn 2035. Mae Strategaeth Newid Hinsawdd y Partners Group yn amlinellu dull y cwmni o gyflawni'r amcanion hyn. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â datgeliadau a argymhellir gan y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD).

Mae Partners Group yn asesu ESG o fewn eiddo tirol ar sail ased wrth ased, gan gydnabod y bydd gennym ran i'w chwarae wrth wella'r ased trwy gydol ein proses berchnogaeth p'un a yw hyn yn uniongyrchol neu drwy reolwr eiddo tirol trydydd parti.

### Ystyriaethau risg ESG

Mae pob buddsoddiad yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy ESG, sy'n cynnwys diwydrwydd dyladwy penodol sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Caiff y gofynion hyn eu gosod yn unol â sensitifrwydd hinsawdd y math o eiddo, yn unol â'r ffactorau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a nodwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Cynaliadwyedd (SASB).

Risg ychwanegol y mae Partners Group yn ei hystyried yw bod ased yn mynd yn "sownd". Mae hyn yn digwydd pan fydd ased hŷn yn methu â chadw at reoliadau newidiol neu'n dod yn agored i niwed yn wyneb ffactorau amgylcheddol. Mae asedau fel swyddfeydd ac adeiladau preswyl yn fwyfwy agored i newidiadau mewn rheoliadau megis gofynion effeithlonrwydd ynni gofynnol, o ystyried cyflymder y newid a welwyd yn y farchnad bresennol.

### ESG: buddsoddi trawsnewidiol mewn eiddo tirol

Mae Partners Group yn canolbwyntio ar fuddsoddi trawsnewidiol. O ran eiddo tirol, mae ein gweledigaeth ar gyfer trawsnewid yn mynd yn bellach nag uwchraddio caledwedd ac yn cwmpasu moderneiddio adeiladau sy'n ymwybodol o'r amgylchedd ac sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae hwn yn gyfle i wneud cyfraniadau ystyrlon i ymdrechion ESG byd-eang; mae ein cynnyrch terfynol nid yn unig yn gynaliadwy ond hefyd yn hyrwyddo llesiant a chysylltedd defnyddwyr terfynol.

**Robert Evans, Client Solutions**

## Partneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017 gyda'r nod o sicrhau:

- arbedion maint
- llywodraethu cryf a gwneud penderfyniadau
- llai o gostau a gwerth ardderchog am arian, a
- gwell gallu a gallu i fuddsoddi mewn seilwaith

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn un o'r wyth Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol yn genedlaethol ac mae'n gyfuniad o'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, gan gynnwys Caerdydd a Bro Morgannwg, Clwyd, Dyfed, Gwent Fwyaf (Torfaen), Gwynedd, Powys, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.

**Cynnydd cyfuno hyd yn hyn**

Nod Partneriaeth Pensiwn Cymru yw darparu atebion buddsoddi sy'n galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain o ran arbedion cost sylweddol, gan barhau i gyflawni perfformiad buddsoddi ar gyfer eu rhanddeiliaid. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r amcan hwn Mae lansio tair is-gronfa ecwiti gweithredol gyntaf Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2019-20, pum is-gronfa incwm sefydlog yn 2020-21 a'r is-gronfa ecwiti Marchnadoedd Datblygol yn 2021-22, ynghyd â buddsoddiadau goddefol presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol, wedi golygu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru bellach wedi cyfuno 72% o asedau.

Ar 31 Mawrth 2022, roedd cyfanswm asedau'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn £23.1bn, ac mae £16.6bn o hyn yn cael ei reoli gan y gronfa; gweler y manylion isod:

| Dosbarth o Asedau | Rheolir gan | Dyddiad lansio | 31 Mawrth 2022 £000 | % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang | Link Fund Solutions | Chwefror 2019 | 3,303,494 | 14.3 |
| Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang | Russell Investments | Chwefror 2019 | 3,387,940 | 14.7 |
| Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU | Russell Investments | Medi 2019 | 730,278 | 3.2 |
| Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol | Russell Investments | Hydref 2021 | 464,615 | 2.0 |
| Cronfa Credyd Byd-eang | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 757,659 | 3.3 |
| Cronfa Bond Llywodraeth Fyd-eang | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 507,273 | 2.2 |
| Cronfa Credyd y DU | Link Fund Solutions | Gorffennaf 2020 | 574,224 | 2.5 |
| Cronfa Credyd Aml-asedau | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 723,184 | 3.1 |
| Cronfa Bond Elw Absoliwt | Russell Investments | Medi 2020 | 509,605 | 2.2 |
| Buddsoddiadau Goddefol | BlackRock | Mawrth 2016 | 5,599,927 | 24.2 |
| Buddsoddiadau heb eu cyfuno eto | | | 6,534,711 | 28.3 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau ar draws pob un o'r 8 Cronfa Bensiwn** | | | **23,092,910** | **100** |

Ceir manylion isod am elfen Cronfa Bensiwn Dyfed o'r tabl uchod:

| | **31 Mawrth 2022 £000** | **%** |
|---|---|---|
| Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang | 987,519 | 30.51 |
| Cronfa Credyd Byd-eang | 247,621 | 7.65 |
| Buddsoddiadau Goddefol (BlackRock) | 1,251,344 | 38.66 |
| Buddsoddiadau heb eu cyfuno eto | 750,193 | 23.18 |
| **Cyfanswm Asedau Buddsoddi** | **3,236,677** | **100** |

**Costau Cyfuno**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, fel yr Awdurdod Cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol a chydgysylltu o ddydd i ddydd â'r Gweithredwr ar ran holl gronfeydd y CPLlL yng Nghymru. Mae cyllideb Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i chynnwys yng Nghynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru a chaiff ei chymeradwyo'n flynyddol gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae costau'r Awdurdod Cynnal a'r Ymgynghorwyr Allanol, a'r costau rhedeg yn cael eu hariannu'n gyfartal (oni bai bod prosiectau penodol wedi'u cytuno ar gyfer Cronfeydd unigol) gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ac yn cael eu hailgodi arnynt yn flynyddol. Y swm a ailgodwyd ar Gronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 oedd £135k. Yn ogystal â'r costau rhedeg, mae costau trosglwyddo hefyd sy'n gysylltiedig â throsglwyddo asedau i'r gronfa.

| **2020-21 £000** | **Costau cyfuno Partneriaeth Pensiwn Cymru** | **2020-21 £000** |
|---|---|---|
| 19 | Costau'r Awdurdod Cynnal | 20 |
| 69 | Costau Ymgynghorwyr Allanol | 115 |
| 1,312 | Costau Trosglwyddo | 0 |
| **1,400** | **Cyfanswm** | **135** |

## Costau Rheoli Buddsoddi Parhaus

| | Cronfa Asedau | | | | Cronfa Di-asedau | | | | Cyfanswm y Gronfa | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Uniongyrchol £000au** | **Anuniongyrchol £000au** | **Cyfanswm £000au** | **bps** | **Uniongyrchol £000au** | **Anuniongyrchol £000au** | **Cyfanswm £000au** | **bps** | **£000au** | **bps** |
| Ffioedd Rheoli | 149 | 3,888 | 4,037 | 16 | 1,823 | 1,164 | 2,987 | 40 | 7,024 | 56 |
| Costau cronfa asedau a rannwyd | 135 | 0 | 135 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 135 | 1 |
| Costau trafodion | 0 | 1,866 | 1,866 | 7 | 0 | 3,283 | 3,283 | 44 | 5,149 | 51 |
| Ceidwad | 0 | 184 | 184 | 1 | 39 | 0 | 39 | 1 | 223 | 2 |
| Arall | 0 | 39 | 39 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 39 | 1 |
| **Cyfanswm** | **284** | **5,977** | **6,261** | **26** | **1,862** | **4,447** | **6,309** | **85** | **12,570** | **111** |

## Dyraniad a Pherfformiad Asedau

| Categori Ased | Gwerth Agoriadol | | Gwerth Terfynol | | Perfformiad (1 flwyddyn) | Mynegai |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000au** | **%** | **£000au** | **%** | **%** | **%** |
| **Asedau Cyfun** | | | | | | |
| Goddefol y DU | 518,289 | 17.0 | 570,137 | 17.6 | 13.03 | 13.03 |
| Goddefol Canada | 15,352 | 0.5 | 0 | 0.0 | - | - |
| Goddefol Ewropeaidd | 79,420 | 2.6 | 85,436 | 2.6 | 6.84 | 6.46 |
| Goddefol Gwledydd y Môr Tawel | 32,241 | 1.1 | 0 | 0.0 | - | - |
| Goddefol Marchnadoedd Datblygol | 267,934 | 8.8 | 271,323 | 8.4 | (7.25) | (6.58) |
| Carbon Isel y Byd ACS* | 305,992 | 10.0 | 324,448 | 10.0 | 16.05 | 15.39 |
| Ecwitïau Gweithredol | 962,408 | 31.6 | 987,519 | 30.5 | 2.61 | 12.42 |
| Gweithredol Incwm Sefydlog | 258,679 | 8.5 | 247,621 | 7.7 | (4.27) | (5.10) |
| **Asedau Cyfun** | **2,440,315** | **80.1** | **2,486,484** | **76.8** | | |

| Asedau heb eu cyfuno eto | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo | 338,043 | 11.0 | 461,700 | 14.3 | 18.35 | 23.14 |
| Asedau amgen | 84,314 | 3.0 | 120,559 | 3.7 | 8.73 | (4.58) |
| Ecwitïau Gweithredol | 105,477 | 3.5 | 109,595 | 3.4 | 0.29 | (2.32) |
| Arian parod | 11,923 | 0.4 | 26,824 | 0.8 | Amh. | Amh. |
| Cysylltiedig â Mynegai | 61,172 | 2.0 | 31,515 | 1.0 | 4.85 | 4.85 |
| **Asedau heb eu cyfuno** | **600,929** | **19.9** | **750,193** | **23.2** | | |
| **Cyfanswm Asedau** | **3,041,244** | **100** | **3,236,677** | **100** | | |

**Ffioedd Rheolwr Sylfaenol**

Nodir o dan adran 11.6 o'r Datganiad Cyfrifon nad yw ffioedd rheolwr sylfaenol ar gyfer y Gronfa Credyd Byd-eang wedi'u cynnwys yn ffioedd rheolwr buddsoddi'r Gronfa. Yn ystod 2021-22 roedd y ffioedd rheolwr sylfaenol hyn yn £179,467.72 (2020-21: £107,906.05).

**Amcanion 2022-23**

Yn dilyn lansio nifer o is-gronfeydd hyd yma, bydd cynnydd yn parhau i gael ei wneud gan resymoli'r ystod bresennol o fandadau yn sylweddol. Bydd y gweithredwr / dyranwyr yn datblygu ac yn lansio cyfres arall o is-gronfeydd a fydd ar y cyd yn adlewyrchu anghenion dyrannu asedau strategol yr wyth cronfa cyfansoddol ac yn hwyluso symudiad sylweddol o'r asedau i'w cyfuno.

Wrth sefydlu cronfa Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae'r prif ffocws wedi bod ar gyfuno'r asedau mwyaf hylifol, sef ecwitïau ac incwm sefydlog. Ym mis Gorffennaf 2021, penododd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu bfinance fel Ymgynghorwyr Dyrannu Partneriaeth Pensiwn Cymru a byddant yn helpu Partneriaeth Pensiwn Cymru i nodi Dyranwyr Marchnadoedd Preifat ar gyfer y Dosbarthiadau Asedau Marchnad Breifat.

Mae amserlen drosglwyddo wedi'i darparu isod:

| Portffolio Buddsoddi | Llinell amser ar gyfer Lansio / Gweithredu |
|---|---|
| Ecwitïau Cynaliadwy | Lansio erbyn diwedd 2022 |
| Seilwaith / Dyledion Preifat | Lansio cyn diwedd 2022/23 |
| Ecwiti Preifat | Lansiad wedi'i drefnu ar gyfer dechrau 2023/24 |

Yn ystod 2021/22, cyhoeddodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ei Hadroddiad Stiwardiaeth blynyddol cyntaf ac mae wedi'i derbyn fel llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU 2020. Yn ystod 2022/23 mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gobeithio gwella ei dull gweithredu fel buddsoddwr cyfrifol ymhellach drwy sefydlu fframwaith ymgysylltu, gwella adroddiadau yn unol â gofynion Cod Stiwardiaeth y DU a'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd a pharhau i adolygu mandadau is-gronfa presennol i sicrhau eu bod yn gydnaws â Chredoau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Bydd ffocws hefyd ar adolygu a datblygu polisïau ychwanegol Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn ogystal â darparu hyfforddiant amserol a pherthnasol a hwylusir gan y gronfa er budd ei grwpiau rhanddeiliaid ehangach.

**Benthyca Gwarannau**

Dechreuodd benthyca gwarannau ym mis Mawrth 2020. Rhennir refeniw ar sail 85:15 rhwng Partneriaeth Pensiwn Cymru a Northern Trust ac mae'r holl gostau ar gyfer rhedeg y rhaglen benthyca gwarannau yn cael eu tynnu o gyfran Northern Trust o raniad y ffi. Mae lleiafswm o 5% o swm enwol pob daliant ecwiti unigol yn cael ei ddal yn ôl ac mae uchafswm o 25% o gyfanswm Asedau Dan Reolaeth ar fenthyg ar unrhyw un adeg. Cyfanswm refeniw Cymru LF yn ystod 2021/22 oedd £1,296,016 (gros) / £1,101,659 (net) gyda £430,743,792 ar fenthyg ar 31 Mawrth 2022.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael yn Ffurflen Flynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru a gyhoeddir ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru -
https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

# PIRC

## 2021-22 Perfformiad

- Y llynedd, 8.6% oedd adenillion Cronfa ar gyfartaledd, a sicrhaodd 50% o'r Cronfeydd adenillion rhwng 6% a 10%.
- Perfformiodd ecwitïau datblygedig yn dda tan Chwarter cyntaf 2022 pan oedd y rhyfel yn Wcráin ac ofn chwyddiant dilynol yn pwyso'n drwm a marchnadoedd yn cwympo. Fodd bynnag, dros y deuddeg mis, roedd marchnadoedd datblygedig ar i fyny. Y marchnadoedd datblygol, a gafodd eu taro gan Ddoler gryf yr UD ac effaith barhaus COVID, a berfformiodd waethaf ymhlith yr holl ddosbarthiadau asedau.
- Cafwyd canlyniadau negyddol yn y marchnadoedd bondiau am y flwyddyn. Dim ond bondiau cysylltiedig â chwyddiant a dyled breifat oedd yn rhoi canlyniadau cadarnhaol.
- Cafwyd canlyniadau da o ran asedau amgen. Roedd ecwiti preifat unwaith yn rhagor yn sicrhau adenillion gwych. Roedd eiddo hefyd yn parhau i wneud yn dda gan greu adenillion o bron i 18%.

## Dyrannu Asedau

- Dros y flwyddyn bu dadfuddsoddiad pellach o Ecwitïau i 'arallgyfeirio' asedau.
- O fewn Ecwitïau, roedd y symudiad a ddechreuwyd y flwyddyn flaenorol i fuddsoddiadau 'ymwybodol o'r hinsawdd' yn parhau.
- Roedd y rhan fwyaf o newidiadau i bortffolios yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu'r symudiad parhaus i is-gronfeydd y Gronfa.

## Dyraniad Asedau yn y Flwyddyn Ddiweddaraf

| % Dyraniad Cyfartalog | 2021 | 2022 | Newid |
|---|---|---|---|
| Ecwiti | 56 | 52 | -4 |
| Bondiau | 17 | 18 | 1 |
| Arian | 3 | 2 | -1 |
| Asedau Amgen | 14 | 17 | 3 |
| Twf Arallgyfeirio | 2 | 2 | 0 |
| Eiddo | 8 | 9 | 1 |

## Canlyniadau Tymor Hir Cyffredinol

- Mae perfformiad tymor hir y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn parhau'n gryf. Cafodd y cronfeydd ar gyfartaledd adenillion cadarnhaol ym mhob un o'r 30 mlynedd diwethaf heblaw 6 a llwyddwyd i gyflawni perfformiad blynyddol o fwy nag 8% y flwyddyn.
- Mae ecwitïau wedi arwain y perfformiad cryf yn y tymor hir.
- Mae asedau amgen wedi perfformio'n gryf yn bennaf oherwydd adenillion rhagorol ecwiti preifat.


**Adenillion  Asedau yn y Tymor Hir (% y flwyddyn)**

| | 3 Mlynedd (%) | 5 Mlynedd (%) | 10 Mlynedd (%) | 20 Mlynedd (%) | 30 Mlynedd (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Total** | **6.4** | **5.8** | **7.7** | **6.7** | **8.1** |
| Ecwiti | 10.3 | 8.4 | 10.6 | 8.1 | 9.2 |
| Bondiau | 2.6 | 2.5 | 4.7 | 5.7 | 6.9 |
| Arian | 0.5 | 0.4 | 0.9 | 2.3 | 2.8 |
| Twf Arallgyfeirio | 5.1 | 3.5 | | | |
| Asedau Amgen | 11.0 | 9.8 | 10.1 | 7.5 | |
| Eiddo | 6.3 | 6.8 | 8.6 | 7.1 | 8.2 |

**Dyraniad Asedau**

- Ecwitïau sy'n parhau â'r dyraniad mwyaf o fewn y mwyafrif o asedau'r gronfa.  Mae 80% o'r dyraniad hwn bellach wedi'i fuddsoddi dramor.
- Mae asedau amgen wedi cynyddu dros y degawd. Mae ecwiti preifat yn cyfrif am hanner y dyraniad hwn ac yn cynrychioli tuag 8% o gronfa ar gyfartaledd. Yn unol â meini prawf cyfuno 2016 y llywodraeth mae cysylltiad â seilwaith yn parhau i gynyddu ac mae bellach yn cyfrif am 6% o asedau Cronfa ar  gyfartaledd.

**% Dyraniad Asedau - 10 Mlynedd Diwethaf**




## Perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed

### Perfformiad y Flwyddyn Ddiweddaraf

- Yn y flwyddyn ddiweddaraf roedd adenillion Cronfa Bensiwn Dyfed o 6.2% yn is na'r cyfartaledd o 8.6%.

### Perfformiad y Gronfa o fewn Ystod Cyffredinol o Ganlyniadau





Mae'r ffigur yn dangos adenillion y Gronfa o fewn yr ystod o ganlyniadau a gyflawnwyd gan y Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yn gyffredinol yn y flwyddyn ddiweddaraf. Rhennir yr adenillion yn chwarteri (chwartelau) a dangosir y gronfa fel diemwnt coch.

### Dyraniad Asedau'r Gronfa

- Mae'r Gronfa wedi'i strwythuro'n eithaf gwahanol i'r cyffredin.
- Y gwahaniaeth allweddol yw'r lefel gymharol uchel o ecwitïau a buddsoddiad isel mewn asedau amgen.
- Y llynedd lleihaodd y gwahaniaethau hyn y perfformiad cymharol yn agos i 3%.

### Dyraniad Asedau Cymharol i Gyfartaledd Cyffredinol




Mae'r siart yn dangos pwysoliadau % cymharol y Gronfa ar lefel dosbarthiadau asedau ar 31 Mawrth 2021 a 2022.

### Canlyniadau Tymor Hir y Gronfa

- Mae canlyniad y flwyddyn ddiweddaraf wedi dod â'r perfformiad tair blynedd islaw'r cyfartaledd.
- Mae'r canlyniadau tymor hir yn dal i fod yn gryf i raddau helaeth oherwydd yr adenillion cryf a gyflwynir gan y rheolwyr ecwiti gweithredol.

### Adenillion a Safleoedd Tymor Hir




| | 3 Blynedd | 5 Mlynedd | 10 Mlynedd | 20 Mlynedd |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa | 8.2 | 7.1 | 9.4 | 7.9 |
| Cyfartaledd Cyffredinol | 8.3 | 7.1 | 8.9 | 7.3 |
| Safle | (64) | (44) | (20) | (6) |
| *Chwyddiant CPI* | 3.0 | 2.7 | 2.1 | 2.1 |

### Risg a Gwobrwyo y Gronfa

- O fewn buddsoddiadau, mae cyfaddawd bob amser rhwng risg a gwobrwyo. Fel arfer po uchaf yw'r adenillion sy'n cael eu ceisio mwyaf yr anwadalrwydd y mae'n rhaid i'r Gronfa ei ddisgwyl.
- Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r Gronfa wedi cael ei gwobrwyo am yr anwadalrwydd ychwanegol a brofodd.
- Dros y tymor hir mae'r Gronfa wedi cynhyrchu adenillion gwell na'r cyfartaledd ond profodd anwadalrwydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd.

**Karen Thrumble, Local Authority Pension Performance Analytics (PIRC)**

## Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol

Er ein bod wedi parhau i "fyw mewn cyfnod diddorol", rwy'n falch o nodi bod y flwyddyn ddiwethaf wedi rhoi adenillion da unwaith eto i Gronfa Bensiwn Dyfed. Parhaodd prisiau asedau i adfer drwy 2021, er bod llawer wedi gostwng yn 2022 hyd yn hyn, gan roi adenillion ar gyfer ein blwyddyn ariannol 2021/2, sydd gryn dipyn yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol gan y prisiad actiwaraidd. Felly, rwy'n hapus i roi gwybod bod y Gronfa'n parhau i fod mewn sefyllfa iach, a'i bod hefyd wedi gwneud cynnydd pellach yn ei thaith tuag at fuddsoddi ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy.

Felly, gadewch i ni edrych yn ôl ar flwyddyn 2021-22.

Gellir rhannu'r flwyddyn yn ddau hanner i raddau helaeth iawn; roedd yr hanner cyntaf, sef hyd at ddiwedd 2021 yn fras, yn cael ei nodweddu gan adferiad economaidd cyflym yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19 ac wrth i'r ysgogiad cyllidol ac ariannol a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig gael effaith. Mae'r ail hanner, sydd wedi parhau trwy 2022 hyd heddiw, wedi'i nodweddu gan bryder cynyddol NAD yw chwyddiant yn fyrhoedlog, Banciau Canolog yn tynhau polisi ariannol (gan gynnwys cyfraddau llog cynyddol gan gynyddu'r risg o ddirwasgiad) ac, wrth gwrs, y rhyfel ofnadwy yn Wcráin, sydd wedi cynyddu risg geowleidyddol i farchnadoedd a'r gwir economi fel ei gilydd.

Yn 2021 gwelwyd adferiad economaidd parhaus yn sgil effeithiau'r pandemig, a thyfodd cynnyrch domestig gros yn gryf, sef tua 5.5% yn yr Unol Daleithiau, a 6.6% yn y DU. Dechreuodd defnyddwyr, yn enwedig yn yr Unol Daleithiau, wario'r cynilion sylweddol a gronnwyd yn ystod y pandemig trwy gyfyngiadau ar wariant a chymorth y Llywodraeth, a pharhaodd y marchnadoedd llafur i fod yn dynn (h.y. diweithdra isel). Roedd y Marchnadoedd Datblygol ychydig yn llai bywiog wrth i ddoler yr Unol Daleithiau gynyddu (gan ei gwneud yn ddrutach ad-dalu dyledion USD) ac yn sgil tensiynau masnach parhaus (o'r Unol Daleithiau-Tsieina i Brexit). Ond fel y nodais y llynedd, y newid mwyaf yn ystod y flwyddyn oedd y disgwyliadau o ran chwyddiant cynyddol, wrth i'r cyfyngiadau cyflenwi hyn gwrdd â'r galw cynyddol: yn ôl y consensws disgwyliwyd i chwyddiant gyrraedd uchafbwynt o dan 5% ar ddechrau'r flwyddyn, ond rydym wedi gweld ffigurau chwyddiant misol y DU a'r Unol Daleithiau yn cyrraedd 9% ac 8% yn y drefn honno (er bod chwyddiant "craidd" sylfaenol yn is, sef tua 6%). Hefyd mae marchnadoedd bellach yn disgwyl i chwyddiant fod yn fwy cyndyn.

Dechreuodd banciau canolog ar draws y byd datblygedig dynhau polisi ariannol yn Chwarter 4 2021 (drwy atal "esmwytho meintiol" a/neu gynyddu cyfraddau llog), ac yn sgil hynny cododd cyfraddau bondiau 10 mlynedd i'w lefelau uchaf ers nifer o flynyddoedd (bron i 2% yn y DU a bron i 3% yn yr Unol Daleithiau). Ynghyd ag ymosodiad Rwsia ar Wcráin a chyfnodau clo COVID newydd yn Tsieina (y ddau yn ychwanegu at y cyfyngiadau cyflenwi chwyddiannol, ac yn arafu twf), mae hyn wedi cael effaith negyddol ar economïau a marchnadoedd. Yn Chwarter 1 2022, arafodd twf gwirioneddol i ddim ond +0.3% yn yr Unol Daleithiau ac arhosodd yn ei unfan yn y DU, tra bod rhagolygon ar gyfer twf byd-eang yn 2022 wedi'u lleihau i tua 3%. Er i'r mantolenni cadarn presennol o ran defnyddwyr a diweithdra isel gefnogi twf economaidd parhaus, mae'n amlwg bod y risg o ddirwasgiad yn cynyddu, gan y bydd yn rhaid i fanciau canolog godi cyfraddau llog ymhellach o bosib, er mwyn mynd i'r afael â chwyddiant.

Felly sut mae hyn wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2022?

Er hynny, cafodd marchnadoedd stoc byd-eang flwyddyn weddol, gan roi adenillion o 12.4%, a gwnaeth y DU ychydig yn well eleni, sef 13.0%; mae ei chymysgedd rhatach, mwy cylchol o gwmnïau sy'n rhoi arenillion uwch wedi perfformio'n well yn 2022 na'r rhai twf uchel llwyddiannus a fuddsoddodd yn nhechnoleg yr Unol Daleithiau yn bennaf dros y blynyddoedd diwethaf. Cafodd Marchnadoedd Datblygol, ar y llaw arall, flwyddyn anodd, gan roi adenillion o -6.6%, yn bennaf oherwydd bod Rwsia wedi cael ei datgysylltu o farchnadoedd ariannol y byd yn dilyn ei hymosodiad ar Wcráin (mae eich Cronfa wedi dileu gwerth ei daliannau Rwsiaidd, ond roedd y rhain yn cynrychioli llai na 0.5% o asedau cyn yr ymosodiad). Cyfrannodd chwyddiant bwyd, doler gryfach yr Unol Daleithiau a thon newydd o COVID yn Tsieina yn Chwarter 1 hefyd at drafferthion Marchnadoedd Datblygol, ond er hynny maent yn cysylltu'r Gronfa ag economïau gwahanol iawn. Dioddefodd marchnadoedd bondiau hefyd, wrth i gyfraddau llog ledled y byd ddechrau codi yn ail hanner y flwyddyn; gostyngodd mynegai bondiau corfforaethol y DU -5.2%, er bod eich bondiau sy'n gysylltiedig â mynegai, sy'n elwa ar chwyddiant cynyddol, wedi gwrthbwyso rhywfaint o hyn, gan roi adenillion o 4.9% dros y flwyddyn. Cafodd marchnadoedd eiddo'r DU flwyddyn gref iawn hefyd, gan roi adenillion o 23.1%, wrth iddynt adfer ar ôl y cyfyngiadau COVID. Mae'r amrywiad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd cael dyraniad asedau, fel sydd gan eich Cronfa chi, sy'n amrywiol iawn yn ddaearyddol ac ar draws dosbarthiadau asedau, yn enwedig pan fo'r rhagolygon economaidd yn ansicr.

Yn erbyn y cefndir hwn, rwy'n falch o ddweud bod disgwyl i Gronfa Bensiwn Dyfed fod wedi cadw ei sefyllfa gyllido gref yn ystod blwyddyn 2021/22. Rhoddodd adenillion cyffredinol o 6.2% yn ystod y flwyddyn ac mae wedi rhoi adenillion o 8.2% y flwyddyn dros y 3 blynedd ers ein prisiad actiwaraidd ym mis Mawrth 2019. Mae hyn yn unol â'i mynegai meincnod cymysg, ac yn ddigon uwch na'r 4.1% y flwyddyn sy'n ofynnol gan y prisiad actiwaraidd. Mae hyn yn golygu bod disgwyl i'r Gronfa fod wedi'i chyllido'n llawn a mwy (h.y. digon o asedau i dalu pensiynau yn y dyfodol, o ystyried cyfraddau cyfrannu cyfredol) ym mis Mawrth 2022, sef, fel y gwyddoch o bosib, y dyddiad ar gyfer y prisiad actiwaraidd newydd, sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r perfformiad hwn wedi'i ailadrodd dros y tymor hir, wrth i'ch Cronfa roi adenillion o 7.1% y flwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf a 9.4% dros y 10 mlynedd diwethaf, gan ei rhoi ymhell o flaen y Gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ganolrifol (8.8% y flwyddyn), ac, yn wir, ei gosod yn y chwartel uchaf. Dyraniad sylweddol y Gronfa i ecwitïau, yn ogystal â'i dyraniad materol i eiddo, oedd yn bennaf gyfrifol am y perfformiad cryf hwn.

Mae eich pwyllgor wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau y gall y Gronfa roi adenillion cynaliadwy, hirdymor, a hoffwn dynnu sylw at ddau faes lle mae wedi gwneud newidiadau perthnasol o safbwynt buddsoddi.

**Rheoli cysylltiad buddsoddi cyffredinol â risg.** Mae cysylltiad sylweddol y Gronfa ag ecwitïau wedi helpu ei pherfformiad. Penderfynodd y Pwyllgor gymryd rhywfaint o elw yn ei ddaliannau ecwiti, gan ailddyrannu rhai o'r asedau i bortffolio eiddo'r DU a chynyddu'r dyraniad i SAIF BlackRock. Mae'r ddau fuddsoddiad hyn yn helpu i amrywio (lleihau) risg y farchnad mewn ecwitïau, ac mae'r ddau hefyd yn cynnig arenillion cryf, gan gyfrannu at yr incwm sydd ar gael i fodloni gofynion arian parod cynyddol y Gronfa, wrth iddi aeddfedu.

**Cynnydd pellach o ran rheoli risg hinsawdd**. Mae rheoli cysylltiad â risg hinsawdd yn eich portffolio nid yn unig yn cyd-fynd â'n hamcanion fel cymdeithas, ond hefyd yn gwneud synnwyr da o ran buddsoddi. Mae eich Pwyllgor wedi gweithio ar sawl agwedd yn ystod y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod y Gronfa yn cyd-fynd â'r amcanion:

**Llywodraethu:** Yn ogystal â pharhau i baratoi ar gyfer gofynion adrodd y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd, cyhoeddodd y Gronfa ei pholisi buddsoddi cyfrifol ei hun (yn wahanol i bolisi Partneriaeth Pensiwn Cymru). Mae hefyd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid eraill o ran yr hinsawdd ac yn cyhoeddi diweddariad newyddion chwarterol ar ei gwefan. Yn olaf, mae wedi parhau i sicrhau bod ei rheolwyr yn ymgysylltu'n weithredol â chwmnïau buddsoddi sylfaenol, gan ddefnyddio ei phwerau pleidleisio lle bo angen, ac mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llofnodi Côd Stiwardiaeth newydd y DU.

**Buddsoddiadau:** Yn ogystal â'r broses bontio a ddisgrifir uchod, a oedd yn lleihau cysylltiad â rhai o'r daliannau ecwiti rhanbarthol mwy dwys o ran carbon, trosglwyddodd cronfa twf byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru i Gronfa *Baillie Gifford Global Alpha Paris-Aligned* ym mis Rhagfyr 2021. Roedd hyn nid yn unig yn lleihau dwyster carbon y rhan hon o'r gronfa yn sylweddol, ond hefyd yn ymrwymo'r rheolwr i ddarparu gostyngiadau parhaus mewn dwyster carbon, o leiaf mor uchel â'r 7% y flwyddyn sy'n ofynnol yn ôl Cytundeb Paris.

**Mesur:** Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i leihau ei dwyster carbon yn unol â'r 7% y flwyddyn sy'n ofynnol yn ôl Cytundeb Paris. Gyda'i gilydd, arweiniodd y ddau newid uchod o ran dyrannu asedau at ostwng dwyster carbon cyffredinol daliannau ecwiti'r Gronfa 7%, er bod perfformiad cryf rhai o'r buddsoddiadau mwy dwys o ran carbon yn ail hanner y flwyddyn yn golygu na newidiodd dwyster carbon cyfartalog pwysedig ecwitïau'r Gronfa fawr ddim dros y flwyddyn. Yn ogystal, mae eich Pwyllgor yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer gwasanaeth mesur mwy cadarn ac annibynnol, gyda'r nod o gynnwys holl asedau'r Gronfa.

I gloi, mae Cronfa Bensiwn Dyfed mewn sefyllfa gref o hyd, gyda lefel gyllido gadarn a strategaeth fuddsoddi sydd nid yn unig yn manteisio ar gyfamodau da ein cyflogwyr, gan gadw’r cyfraniadau cyflogwr ar y lefelau rhesymol presennol, ond sydd hefyd yn cymryd gofal i sicrhau bod y Gronfa yn buddsoddi mewn modd cynaliadwy, er budd yr holl randdeiliaid.

**Adrian Brown, Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol**

# Adran 3 – Gweinyddu'r Gronfa

**Cyflwyniad**

Mae'r Gronfa Bensiwn yn cael ei rheoli gan Reoliadau a wneir gan yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau. O dan ddarpariaethau Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru) 1995, trosglwyddwyd swyddogaeth yr awdurdod gweinyddu i Gyngor Sir Caerfyrddin. Er bod cyfraniadau'r gweithwyr a'r buddion sy'n daladwy yn cael eu pennu gan Reoliadau, mae cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu hasesu yn actiwaraidd bob tro y prisir gwerth y Gronfa ac mae'r meysydd lle gellir arfer disgresiwn yn amodol ar bolisïau lleol sy'n cael eu pennu gan bob Cyflogwr sy'n rhan o'r Gronfa.

Newidiodd y cynllun o fod yn gynllun cyflog terfynol i fod yn gynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE) ar 1 Ebrill 2014. Os oeddech yn aelod gweithredol o Gynllun 2008 ar 31 Mawrth 2014, byddwch wedi cael eich trosglwyddo'n awtomatig i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 ar 1 Ebrill 2014.

Mae prif ddarpariaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 fel a ganlyn:

- Cronni Buddion - O 1 Ebrill 2014 ymlaen, bydd gennych gyfrif pensiwn fesul cyflogaeth, a gredydir yn flynyddol â'r swm pensiwn yr ydych wedi'i gronni o 1 Ebrill tan 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy gwirioneddol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth ac ar gyfradd gronni o 1/49fed. Yna bydd eich cyfrif pensiwn yn cael ei adbrisio'n flynyddol bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Bydd eich aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael ei hamddiffyn ac yn parhau i gael ei chyfrifo ar sail cyflog terfynol adeg eich ymddeoliad, gan gyfeirio at eich cyflog pensiynadwy ar adeg eich ymddeoliad a than ddiffiniad 2008 o gyflog pensiynadwy.
- Cyfandaliad Di-dreth - gall unigolion drawsnewid rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad di-dreth ychwanegol, ar sail £12 am bob £1 o'r pensiwn. Defnyddir y buddion a grynhowyd hyd at (a chan gynnwys) 31 Mawrth 2008 yn awtomatig i dalu Cyfandaliad Di-dreth pan fyddwch yn ymddeol.
- Opsiwn 50/50 - mae gennych yr opsiwn o dalu hanner eich cyfraniad arferol, ac yn gyfnewid am hyn byddwch yn derbyn hanner y pensiwn yn ystod y cyfnod hwn. Ond byddwch yn cadw'r ddarpariaeth lawn o ran salwch a marwolaeth yn ystod y cyfnod hwn.
- Oedran Pensiwn Arferol - bydd eich Oedran Pensiwn Arferol yn gysylltiedig â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, felly bydd unrhyw newidiadau yn eich Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn effeithio ar eich Oedran Pensiwn Arferol.
- Pensiwn ychwanegol os byddwch yn ymddeol ar sail afiechyd.
- Marwolaeth mewn Swydd – Cyfandaliad Di-dreth sy'n werth teirgwaith y cyflog blynyddol yn daladwy i'r ystad. Hefyd mae buddion Priod, Partneriaid Sifil, a Dibynyddion yn daladwy.
- Gall pensiwn partner sy'n cyd-fyw hefyd fod yn daladwy os bodlonir amodau penodol.
- Marwolaeth ar ôl ymddeol – Pensiwn Priod, Pensiwn Dibynyddion ac mewn rhai amgylchiadau Cyfandaliad ar Farwolaeth.
- Trosglwyddo Hawliau Pensiwn naill ai i gynllun cymeradwy cyflogwr newydd neu i gynllun pensiwn personol cymeradwy.
- Mae gan weithwyr sy'n gadael gyda mwy na 2 flynedd o wasanaeth (neu lai na 2 flynedd o wasanaeth pan fo taliad trosglwyddo wedi'i dderbyn) hawl i Bensiwn Cadwedig wedi'i Warchod rhag Chwyddiant sy'n daladwy ar gyrraedd Oedran Ymddeol Arferol.
- Gellir talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol i gynyddu'r buddion pensiwn.

**Codiadau Pensiwn**

Mae pensiynau'n cael eu hadolygu'n flynyddol bob mis Ebrill o dan y Ddeddf Cynyddu Pensiynau fel y pennwyd yn y ddeddfwriaeth Nawdd Cymdeithasol yn unol â'r cynnydd yng nghanran y gwahanol fudd-daliadau gwladol. Maent yn cael eu pennu yn ôl y cynnydd canrannol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr hyd at y mis Medi blaenorol.

Eleni, cafwyd cynnydd o 3.1% mewn pensiynau o 11 Ebrill 2022 ymlaen, sy'n cynrychioli'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros y cyfnod o 12 mis hyd at 30 Medi 2021. Fel rheol mae'r cynnydd mewn pensiynau'n berthnasol i bensiynwyr sy'n 55 oed neu'n hŷn, neu sydd wedi ymddeol ar unrhyw oed ar sail afiechyd neu sy'n derbyn pensiwn eu priod neu bensiwn plentyn. Bydd pensiynwr a ymddeolodd yn ystod y flwyddyn ariannol yn derbyn y gyfran briodol o'r cynnydd.

**Mae'r dyddiadau talu Pensiynau Llywodraeth Leol ar gyfer 2022-23 fel a ganlyn:**

| | | |
|---|---|---|
| 29 Ebrill 2022 | 31 Mai 2022 | 30 Mehefin 2022 |
| 29 Gorffennaf 2022 | 31 Awst 2022 | 30 Medi 2022 |
| 31 Hydref 2022 | 30 Tachwedd 2022 | 23 Rhagfyr 2022 |
| 31 Ionawr 2023 | 28 Chwefror 2023 | 31 Mawrth 2023 |

**Y Fenter Twyll Genedlaethol**

Mae'r Gronfa Bensiwn yn parhau i fod yn rhan o'r fenter atal twyll a drefnir gan Swyddfa Archwilio Cymru, lle mae'r data a ddarperir yn cynnwys manylion Pensiwn Galwedigaethol a manylion y Gyflogres, yn Weithwyr Cyflogedig a Phensiynwyr. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chymharu â data cyrff cyhoeddus eraill, sy'n helpu i sicrhau:

- bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arian cyhoeddus
- na thelir pensiwn i berson sydd wedi marw, a
- bod Pensiwn Galwedigaethol ac incwm trwy gyflogaeth yn cael eu datgan gan y sawl sy'n hawlio Budd-dal Tai, Credyd Cynhwysol a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**Y diweddaraf am ddeddfwriaeth**

**Buddion Partneriaid sy'n Cyd-fyw** - Mae rheoliadau'r Cynllun yn nodi y bydd pensiwn goroeswr yn daladwy'n awtomatig i bartner sy'n cyd-fyw heb fod angen i'r aelod o'r cynllun fod wedi cwblhau ffurflen yn ei enwebu i gael pensiwn goroeswr. Er mwyn bod yn gymwys i gael y buddion hyn mae'n rhaid bod yr amodau rheoleiddio canlynol yn berthnasol ichi a'ch partner:

- Gall unigolyn A briodi neu ffurfio partneriaeth sifil gyda B,
- Mae unigolion A a B yn byw gyda'i gilydd fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil,
- Nid yw A na B yn byw gyda thrydydd person fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil, a
- Naill ai mae B yn ddibynnol yn ariannol ar A neu mae A a B yn dibynnu ar ei gilydd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a meini prawf cymhwyso drwy un ai gysylltu â'r adain bensiynau neu drwy'r wefan. Deellir bod y Llywodraeth yn bwriadu gwneud newidiadau pellach i fuddion goroeswyr er mwyn sicrhau bod gofynion cydraddoldeb yn cael eu bodloni.

**Cyfraddau Cyfrannu y Gweithiwr**

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 wedi diwygio'r dull o asesu eich cyfradd gyfrannu o dâl pensiynadwy 'cyfwerth ag amser llawn' i'ch 'tâl pensiynadwy **gwirioneddol**'. Bydd cyfraniadau pensiwn bellach hefyd yn daladwy ar oramser. Cyfrifoldeb y Cyflogwr yw pennu cyfradd enillion a chyfraniadau'r aelodau, ynghyd â rhoi gwybod i'r Gronfa am hyn. Lle bo gan aelod fwy nag un swydd gyda Chyflogwr, bydd angen asesiad ar wahân ar gyfer pob swydd.

Y canlynol yw'r bandiau enillion a'r cyfraddau cyfrannu a fydd yn berthnasol o fis Ebrill 2022 ymlaen:

| **Tabl Cyfraniadau ar gyfer 2022/23** | | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **Cyflog Pensiynadwy Gwirioneddol ar gyfer swydd** | **Y Gyfradd Gyfrannu ar gyfer y Swydd honno** | |
| | | **Prif Adran** | **Adran 50/50** |
| 1 | Hyd at £15,000 | 5.50% | 2.75% |
| 2 | £15,001 i £23,600 | 5.80% | 2.90% |
| 3 | £23,601 i £38,300 | 6.50% | 3.25% |
| 4 | £38,301 i £48,500 | 6.80% | 3.40% |
| 5 | £48,501 i £67,900 | 8.50% | 4.25% |
| 6 | £67,901 i £96,200 | 9.90% | 4.95% |
| 7 | £96,201 i £113,400 | 10.50% | 5.25% |
| 8 | £113,401 i £170,100 | 11.40% | 5.70% |
| 9 | £170,101 neu fwy | 12.50% | 6.25% |

**Diogeliadau Tanategu Statudol**

Mae diogeliadau ar gael os ydych yn nesáu at oedran ymddeol, er mwyn sicrhau y byddwch yn cael pensiwn sy'n gyfwerth o leiaf â'r hyn y byddech wedi'i gael pe na bai'r cynllun wedi newid ar 1 Ebrill 2014. Gelwir y math hwn o ddiogeliad yn 'tanategu'.

Mae hyn yn berthnasol i chi os oeddech:

- yn talu i mewn i'r Cynllun ar 31 Mawrth 2012, ac
- o fewn 10 mlynedd i'ch Oedran Pensiwn Arferol ar 1 Ebrill 2012,
- os nad ydych wedi cael bwlch anghymwysol o fwy na 5 mlynedd yn eich gwasanaeth,
- os nad ydych wedi tynnu allan unrhyw fuddion o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn eich Oedran Pensiwn Arferol ac
- eich bod yn gadael â hawl i gael buddion yn syth.

Bydd yr Adain Bensiynau yn cynnal y cyfrifiad tanategu'n awtomatig pan fyddwch yn gadael y Cynllun. Bydd buddion pensiwn o ganlyniad i Ddyfarniad 'McCloud' yn cael eu hailgyfrifo ar ôl i'r rheoliadau gael eu diwygio.

**Rheol 85**

Mae Rheol 85 yn diogelu rhywfaint neu'r cyfan o'ch buddiannau rhag y gostyngiad arferol mewn taliadau cynnar. I fod â diogelwch Rheol 85, mae'n rhaid eich bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 30 Medi 2006. Mae Rheol 85 yn fodlon os yw eich oedran ar y dyddiad pan fyddwch yn tynnu eich pensiwn ynghyd â'ch aelodaeth o'r Cynllun (mewn blynyddoedd cyfan) yn dod i gyfanswm o 85 mlynedd neu fwy.

Os oes gennych ddiogelwch Rheol 85, bydd hyn yn dal yn berthnasol o Ebrill 2014 ymlaen. Yr unig achlysur lle nad yw'r diogelwch hwn yn berthnasol yn awtomatig yw os ydych yn dewis tynnu eich pensiwn yn wirfoddol ar neu ar ôl **55 oed a chyn 60 oed <u>heb</u>** ganiatâd eich cyflogwr.

I gael dealltwriaeth fanylach o'ch sefyllfa bersonol, dylech fewngofnodi i 'Fy Mhensiwn Ar-lein' neu gysylltu â'r adain bensiynau yn uniongyrchol.

**Newidiadau Treth**

O fis Ebrill 2021, arhosodd y Lwfans Oes ar gyfer cynilo pensiwn treth-freintiedig ar £1,073,100 a bydd yn parhau ar y lefel hon tan 2025/2026. Dyma gyfanswm gwerth yr holl fuddion pensiwn y gallwch eu crynhoi heb fod treth yn cael ei chodi arnoch am grynhoi gormod o fuddion. Adeg eich ymddeoliad mae'n ofynnol ichi ddatgan yr holl fuddion pensiwn nad ydynt yn rhai'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sydd yn cael eu talu ichi neu sydd ar fin cael eu talu, fel y gellir asesu eich Lwfans Oes. Mae rhagor o wybodaeth am sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio arnoch ar gael ar wefan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Cofiwch na all staff yr adain bensiynau roi cyngor ariannol na chyngor personol ynghylch treth.

Byddwch yn cofio o fis Ebrill 2014 fod y terfyn Lwfans Blynyddol wedi gostwng i £40,000 ac mae'r terfyn hwn yn parhau. I gyfrif gwerth unrhyw gynnydd blynyddol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae angen ichi ganfod y gwahaniaeth yng nghyfanswm gwerth unrhyw fuddion a grynhowyd rhwng dau 'gyfnod mewnbwn pensiwn', sef rhwng mis Ebrill a mis Mawrth fel arfer. Gwneir hyn drwy luosi gwerth y cynnydd yn y pensiwn ag 16 ac ychwanegu'r cynnydd yng ngwerth unrhyw gyfandaliad a'r gronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. Bydd y Datganiad Blynyddol o'ch Buddion ar gyfer 2022 yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch effaith y lwfans blynyddol ar y pensiwn y byddwch yn ei gronni yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Wedyn mae'n rhaid ychwanegu canlyniad y cyfrifiad hwn at unrhyw gynnydd mewn hawliau pensiwn a allai ddeillio o unrhyw drefniant pensiwn arall sydd gan unigolyn, er mwyn gweld a yw'r terfyn blynyddol wedi'i groesi.

**Pensiynau Cynghorwyr**

Nid yw Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 wedi effeithio ar y darpariaethau ar gyfer pensiynau aelodau etholedig gan fod eu trefniant yn parhau:

- ar sail cyflog ailbrisiedig cyfartalog gyrfa
- gyda'r cyfraddau cyfrannu ar 6%
- buddion yn cronni ar sail 1/80fed ar gyfer pensiynau a 3/80fed ar gyfer cyfandaliad di-dreth.

## Cyhoeddiadau

### Datganiad Polisi Cyfathrebu

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid, a hynny yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posib, yn enwedig mewn amgylchedd pensiynau sy'n newid yn barhaus. Mae 5 o grwpiau penodol y mae angen i'r gronfa gyfathrebu â hwy:

- Aelodau'r Cynllun
- Darpar Aelodau'r Cynllun
- Cyflogwyr sy'n Rhan o'r Cynllun
- Cyrff Eraill
- Staff y Gronfa

Mae'r ddogfen bolisi yn cyflwyno'r mecanweithiau a ddefnyddir i fodloni'r anghenion cyfathrebu hynny, a chaiff ei hadolygu'n achlysurol. Nod Cronfa Bensiwn Dyfed yw defnyddio'r dull cyfathrebu mwyaf priodol ar gyfer y cynulleidfaoedd sy'n derbyn y wybodaeth. Gellir defnyddio mwy nag un dull o gyfathrebu os bernir bod hynny'n addas a bod hynny'n bodloni holl ofynion y rheoliadau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am y Cynllun a gwybodaeth gysylltiedig. Ychwanegwyd ymhellach at hyn trwy gyflwyno 'Fy Mhensiwn Ar-lein' ar gyfer aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr y cynllun. Pecyn ar y rhyngrwyd yw hwn, sy'n galluogi aelodau i gyrchu gwybodaeth am eu pensiwn yn ddiogel ar-lein a'i diweddaru trwy wefan y Gronfa.  Trwy ddatblygu e-gyfathrebu, nod y Gronfa yw gwella'i dull o gyflwyno gwasanaeth, yn ogystal â lleihau costau argraffu a phostio, a'i hôl troed carbon.

### Y Strategaeth Weinyddu

Yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mae'r Gronfa Bensiwn wedi llunio Strategaeth Weinyddu. Amcan y strategaeth yw rhoi diffiniad clir o rolau a chyfrifoldebau Cronfa Bensiwn Dyfed a'r cyflogwyr sy'n rhan ohoni o dan y Rheoliadau.

### Ystadegau Gweinyddu'r Cynllun

Nifer y Cyflogwyr

Ynghlwm wrth y Datganiad o Gyfrifon yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn ceir rhestr lawn o'r cyflogwyr (ar 31 Mawrth 2022) sydd naill ai'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Dyfed neu'n gysylltiedig â hi. Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer y cyflogwyr sy'n cael eu Rhestru a'u Derbyn.

| | Gweithredol | Wedi darfod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Rhestrwyd | 23 | 17 | 40 |
| Derbyniwyd | 31 | 25 | 56 |
| Cyfanswm | 54 | 42 | 96 |

Aelodaeth o'r Cynllun

Dengys y tabl isod y cynnydd yn aelodau'r cynllun yn ystod y tair blynedd diwethaf.

**Nifer aelodau'r gronfa am y 3 blynedd diwethaf**

| | **31/03/2020** | **31/03/2021** | **31/3/2022** |
|---|---|---|---|
| Gweithredol | 18,564 | 18,700 | 18,643 |
| Gohiriedig | 15,900 | 15,881 | 16,214 |
| Pensiynwr | 14,059 | 14,626 | 15,342 |
| Ymadawr heb benderfynu | 2,259 | 2,293 | 2,536 |
| | **50,782** | **51,500** | **52,735** |

Mae'r tabl isod yn dangos bod y Gronfa wedi perfformio yn erbyn ei meincnod.

| **Proses CIPFA** | **Meincnod** | **% a gwblhawyd yn unol â'r targed cyfreithiol** |
|---|---|---|
| Marwolaethau - Llythyr cychwynnol yn cydnabod marwolaeth | 95% | 100.00% |
| Marwolaethau – Llythyr yn nodi swm buddion dibynnydd | 95% | 96.40% |
| Gohirio – cyfrifo a rhoi gwybod am fuddion gohiriedig | 95% | 96.30% |
| Dyfynbris o ran ysgariad – Llythyr yn nodi gwerth sy'n cyfateb i arian parod a buddion eraill | 95% | 100.00% |
| Setliad ysgariad – Llythyr yn manylu ar weithredu gwerth sy'n cyfateb i arian parod a rhoi gorchymyn rhannu pensiwn | 95% | 100.00% |
| Ymunwyr – Anfon hysbysiad ynghylch ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol at aelod o'r cynllun | 95% | 98.90% |
| Ad-daliad – Prosesu a thalu ad-daliad | 95% | 99.00% |
| Ymddeoliadau – Llythyr yn nodi buddion ymddeoliad gwirioneddol | 95% | 97.10% |
| Ymddeoliadau – Llythyr yn nodi amcangyfrif o fuddion ymddeoliad | 95% | 99.80% |
| Ymddeoliadau – prosesu a thalu grant ymddeol (cyfandaliad) | 95% | 99.40% |
| Trosglwyddiadau i mewn – Llythyr yn nodi dyfynbris ar gyfer trosglwyddiad i mewn | 95% | 97.00% |
| Trosglwyddiadau allan – Llythyr yn nodi dyfynbris ar gyfer trosglwyddiad allan | 95% | 96.20% |

**Dadansoddiad o ymadawyr yn ystod 2021-22**

| Categori | 2021-2022 |
|---|---|
| Ad-dalu cyfraniadau | 388 |
| Trosglwyddiadau i gynlluniau eraill | 44 |
| Marwolaeth mewn Swydd | 15 |
| Ymddeoliadau ar sail afiechyd | 56 |
| Ymddeoliad Cynnar / Arferol | 243 |
| Ymddeol yn sgil Dileu Swydd / yn sgil Mesurau Effeithlonrwydd | 35 |
| Ymddeoliad Hyblyg | 14 |
| Ymddeoliad Hwyr | 111 |
| Peidio â bod yn aelod o'r cynllun | 157 |
| Buddion a gedwir | 884 |
| Ymadawyr eraill* | 1,569 |
| Nifer yr aelodau gohiriedig sy'n ailymuno â'r cynllun | 169 |
| **Cyfanswm** | **3,685** |

*****Mae'r rhan fwyaf o'r achosion hyn mewn perthynas ag aelodau y bernir eu bod yn 'Drosglwyddiadau Diwrnod Nesaf'.

| Achosion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd wedi/heb eu cwblhau | 2021-22 |
|---|---|
| Nifer yr achosion sydd wedi'u cwblhau | 23,662 |
| Nifer yr achosion sydd heb eu cwblhau | 2,431 |

**Sgorau Ansawdd Data a Chynllun Gwella Data**

Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o ansawdd data y Gronfa ym mis Rhagfyr 2017 ac o ganlyniad cafodd Cynllun Gwella Data ei greu. Nod y cynllun gwella hwn yn bennaf yw mynd i'r afael â'r prif faterion a nodwyd yn yr adolygiad o Ansawdd Data y Gronfa ac mae'n dangos y camau priodol y mae'r Gronfa yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad a sut y bydd yn gwella'r data a gedwir.

Caiff adolygiad o Ansawdd Data ei gynnal bob blwyddyn. Mae'r cynllun gwella wedi cael ei ddiwygio ac mae'n mynd i'r afael â'r prif faterion a nodwyd yn yr adolygiad o Ansawdd Data y Gronfa a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2021.

Roedd yr adolygiad o ansawdd data a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2021 wedi rhannu'r asesiad o ddata a gedwir yn ddau gategori:

- Data Cyffredin
- Data sy'n benodol i'r Cynllun

Cynhaliwyd profion o'r data a gedwir gan y Gronfa o ran aelodau ei gynllun i nodi a yw'r data yn gyfredol ac yn gywir.

Mae eitemau y Data Cyffredin yn benodol yng nghanllaw y Rheoleiddiwr Pensiynau; fodd bynnag, nid yw eitemau y data sy'n benodol i'r Cynllun yn rhagnodol ond yn gyffredinol mae'r data yn allweddol er mwyn cynnal y Cynllun a bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol. Nid yw'r

Rheoleiddiwr Pensiynau yn pennu'r eitemau data ar gyfer data sy'n benodol i'r Cynllun oherwydd bernir ei fod yn adnabyddadwy ac yn berthnasol i bob Cynllun Pensiwn unigol. Fodd bynnag, mae enghreifftiau esboniadol o'r data sy'n ofynnol er mwyn cynnal Cynllun Pensiwn wedi cael eu cyhoeddi gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a rhoddwyd ystyriaeth i'r enghreifftiau hyn wrth nodi data sy'n benodol i'r Cynllun y dylid ei wirio. Gweler isod dabl sy'n nodi sgorau ansawdd data y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gyflwynir i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

| **Maes Data'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** | **Data Cyffredin** | **Data sy'n benodol i'r Cynllun** | **Nod** |
|---|---|---|---|
| Sgôr data Rhagfyr 2021 | 99.20% | 99.20% | 100% |
| Sgôr data Rhagfyr 2020 | 99.10% | 99.20% | 100% |
| Sgôr data Rhagfyr 2019 | 98.30% | 98.10% | 100% |
| Sgôr data Rhagfyr 2018 | 96.50% | 95.80% | 100% |
| Sgôr data Rhagfyr 2017 | 94.50% | 85.30% | 100% |

**Cost Gweinyddu fesul aelod (SF3 tabl costau)**

Mae'r tabl isod yn cymharu'r costau gweinyddu fesul aelod y cynllun â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o ran canlyniadau SF3.

| Blwyddyn | Cost Cronfa Bensiwn Dyfed fesul aelod | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| 2020-21 | £27.62 | £30.91 |
| 2019-20 | £26.36 | £32.04 |
| 2018-19 | £25.14 | £30.04 |
| 2017-18 | £22.71 | £27.46 |
| 2016-17 | £20.73 | £28.10 |
| 2015-16 | £27.45 | £28.28 |
| 2014-15 | £21.66 | £28.36 |
| 2013-14 | £20.94 | £30.20 |

**Y Tîm Gweinyddu**

Yn ychwanegol at y brif rôl o weinyddu'r Cynllun Llywodraeth Leol a'i ddarpariaethau, mae'r Adain Bensiynau hefyd, trwy gytundeb, yn darparu gwasanaethau tebyg i'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddogion Tân sy'n gyfrifol am weinyddu Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu a'r Frigâd Dân ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae gan y tîm pensiwn 33 aelod o staff parhaol cyfwerth ag amser llawn i weinyddu'r cynlluniau pensiwn uchod. Yn ystod y flwyddyn tan 31 Mawrth 2022, gwelwyd y trosiant staff canlynol; roedd 3 aelod o staff wedi gadael y tîm a 2 aelod wedi ymuno â'r tîm.

Nifer yr aelodau parhaol o staff sy'n gweithio'n unswydd i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw 22.2 cyfwerth ag amser llawn. Ar 31 Mawrth 2022, roedd 52735 o aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o Gronfa Bensiwn Dyfed sy'n gyfwerth â 2375 o aelodau'r cynllun fesul aelod o'r tîm gweinyddu pensiynau. Nifer yr achosion a gwblhawyd ar gyfartaledd fesul aelod o'r tîm yn ystod y flwyddyn oedd 1116.

**Eich Adain Bensiynau:**

Yn ogystal â rhoi newidiadau deddfwriaethol ar waith drwy amserlenni penodol, mae eich Adain Bensiynau hefyd wedi gwneud y canlynol:

- Hysbysu cyflogwyr o'u cyfraddau cyfrannu wedi'u hailasesu sy'n gymwys o 1 Ebrill 2021 o ganlyniad i'r ymarfer Prisiad Actiwaraidd
- Cynyddu nifer y defnyddwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer 'Fy Mhensiwn Ar-lein' drwy annog aelodau'r cynllun i gofrestru yn ystod galwadau ffôn. Rhaglen gymwysiadau ar y we yw hon sydd yn eich galluogi i gael golwg ar eich cofnodion pensiwn chi ynghyd â'u diweddaru a hynny mewn modd diogel. Bwriad y fenter yw darparu gwybodaeth statudol a gwella'r dull o gyflwyno gwasanaeth ar yr un pryd â lleihau costau argraffu a phostio ac ôl troed carbon y gronfa.
- Sicrhau bod cyflogwyr yn llunio, yn cyhoeddi ac yn parhau i adolygu datganiad polisi ynghylch eu darpariaethau dewisol o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014.
- Parhau gyda'u rhaglen hyfforddi staff mewnol. Bernir bod y buddsoddiad hwn, ynghyd â'r hyfforddiant i'r Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa, yn allweddol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau effeithiol o ran gweinyddu pensiynau a hynny mewn byd o newidiadau parhaus i reoliadau a chynnydd yn nisgwyliadau rhanddeiliaid.
- Parhau i lunio a dosbarthu Datganiadau Buddion Blynyddol ar gyfer Aelodau Gohiriedig y Cynllun (unigolion sydd wedi gadael y Cynllun ac sydd â hawl i fuddion pensiwn yn y dyfodol) ac Aelodau Gweithredol y Cynllun (y rhai sy'n cyfrannu). Lluniwyd y Datganiadau Buddion Blynyddol ar sail Cronfeydd Pensiwn Cymru gyfan, gan wella cost a chysondeb wrth i Gronfa Bensiwn Dyfed arwain y ffordd.
- Parhau â'r ymarfer "Tystysgrif Bywyd" sy'n ymwneud â thaliadau pensiwn a delir â siec, yn ogystal ag ymgymryd â gwiriadau marwolaethau misol yn seiliedig ar bensiynwyr yn y DU.
- Parhau i ddefnyddio Western Union er mwyn ymgymryd â gwiriadau marwolaethau pensiynwyr sy'n byw dramor.
- Parhau i lunio ffurf fwy manwl a phersonol ar y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer pob pensiynwr, gan amlinellu'r codiad yn y pensiwn yn sgil y dyfarniadau ynghylch codiadau pensiwn blynyddol.
- Cymryd rhan ym Menter Twyll Genedlaethol y Comisiwn Archwilio, fel yr amlinellwyd uchod.
- Parhau i ymwneud â chyd-awdurdodau yng Nghymru sydd â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i archwilio’r cyfleoedd sydd ar gael i greu partneriaethau a rhannu arferion da o ran gweinyddu'r Cynllun.
- Sicrhau bod data cronfa enghreifftiol yn dod i law Adran Actiwari'r Llywodraeth
- Sicrhau, trwy weithdrefn IAS19, fod pob cyflogwr oedd i gydymffurfio â'r gofynion cyfrifo hyn ar gyfer pensiynau wedi derbyn y canlyniadau a'r datgeliadau yr oedd eu hangen arnynt erbyn yr amser yr oedd eu cyfrifon yn cau.
- Parhau gydag ymarferiad cysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig yr oedd rhaid ei gyflawni ar gyfer pob aelod o'r cynllun er mwyn sicrhau nad yw cofnodion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cynnwys gwybodaeth anghywir. Fodd bynnag, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn parhau i fod ag ymholiadau ynghylch data sydd heb eu hateb, sydd eto i'w dychwelyd i Gronfa Bensiwn Dyfed.
- Gweithredu i-connect ar gyfer cyflogwyr ychwanegol i hwyluso'r broses o drosglwyddo data yn uniongyrchol o systemau cyflogres y cyflogwr yn uniongyrchol i'r system bensiynau.

- Cyflawnu ymarfer ansawdd data ar gyfer cynlluniau pensiwn Llywodraeth Leol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn unol â gofynion Côd Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Pensiwn a'r Rheoleiddiwr Pensiynau am y canfyddiadau. Cafodd Cynllun Gwella Data ei greu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**Edrych ymlaen**

Mae eich Adain Bensiynau yn rhagweld blwyddyn brysur arall gan ei bod, yn ogystal â'i phrif swyddogaethau, yn bwriadu:

- Sicrhau bod Actiwari y cynllun yn cael data clir a chywir yn unol ag amserlenni penodol ar gyfer Prisio'r Gronfa 2022.
- Cynyddu nifer y defnyddwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer 'Fy Mhensiwn Ar-lein' drwy annog aelodau'r cynllun i gofrestru yn ystod galwadau ffôn.
- Ymateb i ymgyngoriadau ar drefniadau'r cynllun a gweithredu strwythurau sydd wedi newid o ganlyniad i ddeddfwriaeth ddiwygio.
- Parhau i gysylltu â holl gyflogwyr y cynllun i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn cydymffurfio â gofynion cofrestru awtomatig.
- Parhau i ymgymryd â dilysiadau data a gwiriadau cywirdeb ar gyfer data a gyhoeddir gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn perthynas ag ymarferiad cysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig er mwyn sicrhau bod budd-daliadau cywir y wladwriaeth yn cael eu cofnodi a'u talu.
- Parhau i weithio gyda holl gyflogwyr y cynllun er mwyn sicrhau bod data glân a chywir yn cael ei ddarparu'n gyson.
- Cyflawni ymarfer ansawdd data yn unol â gofynion Côd Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau a rhoi gwybod i'r Pwyllgor Pensiwn a'r Rheoleiddiwr Pensiynau am y canfyddiadau. Diweddaru ac adolygu'r Cynllun Gwella Data.
- Gweithredu i-connect ar gyfer cyflogwyr pellach sy'n hwyluso'r broses o drosglwyddo data yn uniongyrchol o systemau cyflogres y cyflogwr yn uniongyrchol i'r system bensiynau.
- Dechrau ar y gwaith o ailgyfrifo'r holl fuddion yn dilyn diwygio Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o ganlyniad i Ddyfarniad 'McCloud'.

Mae'r cymhlethdodau cynhenid a'r diogeliadau ôl-weithredol sy'n berthnasol i gynlluniau Llywodraeth Leol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn parhau, a rhagwelir y bydd y rhain yn cynyddu ymhellach oherwydd y gwaith o gymhwyso Dyfarniad McCloud.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl staff sy'n ymwneud â gweinyddu'r Cynllun, a hynny nid yn unig am y gwaith sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond hefyd am eu brwdfrydedd wrth ymdopi â newid a bodloni gofynion sy'n cyson newid o ran y rheoliadau a'r rhanddeiliaid.

## Fy Mhensiwn Ar-lein

### Beth fydd Fy Mhensiwn Ar-lein yn caniatáu imi wneud?

P'un a ydych yn aelod gweithredol o'r Cynllun, yn aelod gohiriedig neu'n bensiynwr, gallwch weld eich manylion sylfaenol a'u diweddaru, cyrchu ffurflenni perthnasol a derbyn pob cyhoeddiad yn ddiymdroi, gan gynnwys y Datganiad Blynyddol o'ch Buddion, newyddlenni a ffeithlenni. Os ydych yn aelod gweithredol, byddwch yn gallu cyfrifo'ch buddion ar adeg sy'n gyfleus ichi er mwyn cynllunio'ch ymddeoliad yn ymarferol.

Os ydych yn bensiynwr, byddwch yn gallu gweld manylion eich pensiwn, gwneud newidiadau o ran manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu eich cyfeiriad, gweld eich cofnod taliadau a'ch côd treth, eich dyddiadau talu, slipiau talu, datganiadau P60 a'ch datganiadau ynghylch y cynnydd yn y pensiwn.

### Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein?

Mae'n haws nag erioed, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed trwy ffonio **01267 224909** neu drwy anfon e-bostio at: **pensiynau@sirgar.gov.uk** i ofyn am allwedd weithredu. Bydd eich allwedd weithredu yn cael ei hanfon atoch trwy e-bost neu gellir hefyd ei hanfon i'ch cyfeiriad cartref a bydd yn ofynnol i chi fewngofnodi i'r adran ‘Fy Mhensiwn Ar-lein’ ar wefan y Gronfa:

**www.cronfabensiwndyfed.org.uk**

Gofynnir i chi nodi eich cyfenw, eich rhif Yswiriant Gwladol, eich dyddiad geni a'r allwedd weithredu ac yna cewch gyfle i greu enw defnyddiwr, cyfrinair a chwestiynau diogelwch.

## Adran 4 – Adroddiad Actiwaraidd

Ymddengys mai megis ddoe y gorffennodd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei brisiadau diwethaf. A dyma ni unwaith yn rhagor yn cynnal prisiad tair blynedd nesaf y Gronfa a fydd yn dod i rym o 31 Mawrth 2022, a bydd cyfraddau cyfrannu newydd ar gyfer cyflogwyr mawr yn dod i rym o 1 Ebrill 2023.

Yr un hen hanes....

Wel, y tro hwn yn fwy nag erioed, mae cryn dipyn wedi digwydd yn y cyfamser,  ac rydym yn nesáu at y prisiad yn wyneb y materion canlynol:

- Y byd yn delio â phandemig byd-eang ac yn addasu i reoli ei effeithiau uniongyrchol tymor hwy ar gymdeithas
- Pwysau eilaidd y pandemig ar y gwasanaeth iechyd a'r effeithiau posibl ar iechyd yn sgil llai o wasanaethau busnes fel arfer am gyfnod sylweddol
- Y gwrthdaro rhwng Wcráin a Rwsia gan weithredu fel catalydd i waethygu problemau cadwyni cyflenwi presennol
- Gwasgu ar y farchnad lafur gyda mwy o swyddi i bob golwg yn yr economi na phobl
- Buddsoddi Cyfrifol (RI) a ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) yn symud yn uwch ar yr agenda i fuddsoddwyr wrth i gymdeithas gydnabod fwyfwy y rhwymedigaeth foesol i genedlaethau'r dyfodol
- Mwy o bryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar draws y gymdeithas ehangach, y tu hwnt i fuddsoddiadau
- Chwyddiant ar ei gyfradd uchaf ers 40 mlynedd

O'u cyfuno, mae'r holl ffactorau uchod yn effeithio ar addewidion buddiannau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n gysylltiedig â chwyddiant a chwyddiant cyflog, yr adenillion buddsoddi real disgwyliedig yn y dyfodol uwchlaw chwyddiant sy'n effeithio ar yr asedau a'r disgwyliad oes sy'n pennu am ba mor hir y telir y taliadau buddiannau.

Mae prisiadau diweddar blaenorol wedi'u cynnal o dan amodau mwy rhadlon ac yn sicr dyma'r cyfnod mwyaf heriol i mi ei weld mewn nifer da o gylchoedd prisio.

Mae'n ddyddiau cynnar o hyd ac nid yw'r gwaith prisio manwl wedi'i wneud o ddifrif eto. Fodd bynnag, er gwaethaf y sefyllfa druenus a amlinellir uchod, mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod newyddion mwy cadarnhaol o ran lefelau cyllido ac ar y cyfan rydym yn annhebygol o weld angen am gynnydd sylweddol mewn cyfraniadau. Fodd bynnag, mae effaith gyfunol y ffactorau uchod yn ddibynnol iawn ar broffil cyflogwr ac efallai y gwelwn ychydig o eithriadau i'r rheol, ond bydd y Gronfa'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr o'r fath.

Mae'r ffaith fod y Gronfa mewn sefyllfa mor gadarn ar hyn o bryd yn dyst i swyddogion y Gronfa, sydd bob amser wedi cymryd golwg ddarbodus a hirdymor ar gyllid i helpu i reoli anwadalrwydd a rheolwyr buddsoddi sydd wedi helpu i gynhyrchu enillion ar asedau. Roedd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth gynnar o gostau McCloud ym mhrisiad 2019 a rheolaeth ofalus ar gostau fel y rhai sy'n codi ar sail afiechyd. Mae'r Gronfa hefyd yn parhau i fod ar flaen y gad o ran Buddsoddi Cyfrifol/ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ei chamau i leihau buddsoddiad mewn tanwyddau ffosil.

Fel rhan o'r prisiad, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Gweinyddu a swyddogion i dynnu sylw at y risgiau sydd ynghlwm wrth gyllido buddiannau diffiniedig ac ystyried sefyllfaoedd posibl o ran disgwyliad oes, chwyddiant a newid yn yr hinsawdd fel y gall yr holl randdeiliaid barhau i gael barn wybodus ynghylch y materion hyn. Bydd hyn yn helpu pawb sy'n gysylltiedig â'r Gronfa i barhau i ddeall y gwaith cydbwyso bob tair blynedd o reoli solfedd y Gronfa wrth anelu at gyfraniadau fforddiadwy a sefydlogrwydd.

**Clive Lewis, Actiwari, Mercer**

# Adran 5 - Llywodraethu

## Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Dyfed

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Pensiwn Dyfed yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 i gyflawni ei rôl, i gynorthwyo Cyngor Sir Caerfyrddin, i reoli Cronfa Bensiwn Dyfed. Yn yr un modd â phob gweithgaredd arall ledled y wlad, cafodd y pandemig Covid effaith ar waith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o'r trefniadau a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ni allai'r Bwrdd gwrdd wyneb yn wyneb, ond cynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir gan ddefnyddio fformat ar-lein.

I grynhoi, sefydlwyd y Bwrdd o Ebrill 2015 o dan drefniadau newydd ar gyfer llywodraethu Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol. Diben y Bwrdd yw cynorthwyo Cyngor Sir Caerfyrddin (fel rheolwr y cynllun) i reoli'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac i ddarparu her a rôl oruchwyliol. Mae cylch gorchwyl y Bwrdd ar gael ar wefan y Gronfa.

Mae gan y Bwrdd 3 chynrychiolydd o blith gweithwyr sy'n aelodau o'r cynllun a 3 chynrychiolydd o blith y cyflogwyr ynghyd â Chadeirydd Annibynnol. Mae hyn yn unol â'r rheoliadau sy'n gofyn am gynrychiolaeth gyfartal rhwng gweithwyr a chyflogwyr. Mae manylion am aelodau'r Bwrdd yn cael eu dangos yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn. Nid yw'r Bwrdd yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau a chaiff roi cyngor a sylwadau yn unig ynghylch rheolaeth Cronfa Bensiwn Dyfed. Er mwyn i'r trefniant hwn fod yn llwyddiannus mae'n bwysig bod y Bwrdd yn cyflawni'i gyfrifoldebau mewn modd cadarnhaol ac adeiladol. Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd, mae gennyf gyswllt rheolaidd â swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau bod y Bwrdd yn mynd i'r afael â'r materion angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau. Gwahoddir y Cynghorydd Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Pensiwn i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn hefyd.

Roedd y flwyddyn yn nodedig am effaith barhaus y pandemig Covid a'r modd yr oedd hyn wedi tarfu ar fywyd pawb yn y wlad. O ganlyniad, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd rhithwir bedair gwaith yn ystod 2021/22, sef ym mis Ebrill, mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2021 ac ym mis Ionawr 2022. Yn unol â'r trefniadau a roddwyd ar waith gan Gyngor Sir Caerfyrddin, trefnwyd y cyfarfodydd rhithwir ar-lein hyn fel y gallai gwaith y Bwrdd a threfniadau llywodraethu'r Gronfa barhau.

Mae'r gyfres o gyfarfodydd y Bwrdd yn dilyn yr amserlen ar gyfer y Pwyllgor Buddsoddi Pensiynau ac yn helpu i gryfhau trefniadau llywodraethu'r Gronfa yn gyffredinol. Mae'r Bwrdd yn dal i ganolbwyntio ar y materion allweddol sy'n effeithio ar y Gronfa a'i buddiolwyr, ac mae'n cytuno ar flaenraglen waith ar ddechrau'r flwyddyn i sicrhau ei fod yn y sefyllfa orau i gynorthwyo'r Cyngor i roi'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar waith yn Nyfed. Fel rhan o'i rôl goruchwylio a chraffu mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ym mhob cyfarfod ynghylch y canlynol:

- adolygiad o'r gyllideb a phrosesau monitro ariannol cysylltiedig;
- ystyried unrhyw achosion o dorri'r rheolau wrth ddarparu gwasanaethau;
- monitro ac adolygu'r gofrestr risg yn rheolaidd;
- monitro ac adolygu perfformiad y gwasanaeth gweinyddu pensiynau, gan gynnwys archwilio ystadegau llif gwaith;
- ystyried adroddiad gan yr Ymgynghorydd Annibynnol ar berfformiad buddsoddi a materion dyrannu asedau;

- diweddariadau ar berfformiad a datblygiadau yn ymwneud â Phartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC);
- Adolygu a thrafod penderfyniadau'r Pwyllgor Buddsoddi Pensiynau;
- adolygiad o'r rhaglen hyfforddiant a datblygu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn.

Mae agendâu llawn wedi cael eu llunio ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Yn ogystal â'r eitemau ar yr agenda a ystyriwyd ym mhob cyfarfod, bu'r Bwrdd hefyd yn trafod materion eraill yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Datblygu cynllun gwaith blynyddol ar gyfer y Bwrdd;
- Adolygu cyfrifon blynyddol ac adroddiad archwilio allanol y Gronfa Bensiwn;
- Ystyried Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfiaeth y Gronfa;
- Ystyried Datganiadau Strategaeth Fuddsoddi a Strategaeth Gyllido y Gronfa;
- Ystyried y datblygiadau sy'n effeithio ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gynnwys y cynnydd gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru;
- Ystyried a thrafod cynigion y Gronfa ar gyfer Ailstrwythuro'r portffolio Ecwiti;
- Briffio a thrafod ynghylch Ôl Troed Carbon y Gronfa a'r camau a gynigir i leihau'r effaith yn y dyfodol;
- Materion Archwilio Mewnol a rheoli risg sy'n effeithio ar y Gronfa.

Drwy hyn, mae'r Bwrdd yn parhau i gyflawni ei rôl oruchwylio a chraffu.

Cafwyd un newid yn aelodaeth y Bwrdd yn ystod y flwyddyn wrth i Gwyn Jones roi'r gorau i'w swydd fel Cynrychiolydd Pensiynwyr sy'n Aelodau Gweithredol. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i Gwyn am ei gefnogaeth a'i gyfraniadau gwerthfawr yn ein cyfarfodydd, yn enwedig ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb a monitro. Er gwaethaf y tarfu a achoswyd gan y pandemig Covid, roedd nifer dda yn bresennol yn y cyfarfodydd rhithwir, sef 75%, o gymharu â 93% yn y flwyddyn flaenorol. Nodir manylion presenoldeb Aelodau'r Bwrdd yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd gan Gronfa Bensiwn Dyfed gyfanswm o £3.2 biliwn o asedau a 52,735 o aelodau, sy'n cynnwys pensiynwyr, pensiynwyr gohiriedig a chyfranwyr presennol. Mae gwaith gweinyddu a buddsoddi y Gronfa Bensiwn yn dod yn fwyfwy cymhleth felly mae hyfforddiant a datblygu i Aelodau'r Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn yn gymorth hanfodol i lywodraethu da.

Mewn adroddiadau blaenorol rwyf wedi gwneud sylwadau ar bwysigrwydd rhaglen hyfforddiant a datblygu strwythuredig i aelodau unigol a'r Bwrdd ar y cyd i gyflawni eu cyfrifoldebau. Gwnaed defnydd ehangach o sesiynau hyfforddiant ar-lein rhithwir o ganlyniad i'r pandemig Covid. Mae gan y rhain rai manteision gan ei bod yn haws bod yn bresennol heb orfod teithio, gellir eu darparu'n eang a gallant ymdrin ag amrywiaeth o faterion amserol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi parhau i gynnal sesiynau hyfforddiant ar-lein rheolaidd ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd ar draws 8 cronfa Cymru. Yn fy marn i, dylai hyn barhau.

Gan gofio hyn, mae aelodau o'r Bwrdd wedi mynychu amrywiol sesiynau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Caiff yr hyfforddiant sy'n cael ei dderbyn gan aelodau'r Bwrdd ei gofnodi gan Gyngor Sir Caerfyrddin a'i gyflwyno ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd i'w adolygu ac ystyried digwyddiadau yn y dyfodol. Roedd enghreifftiau o'r flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Pedair sesiwn hyfforddiant ar ddosbarthiadau asedau a gyflwynwyd gan Blackrock a Schroders sy'n rheoli rhan o bortffolio buddsoddi'r Gronfa;
- Sawl seminar a fynychwyd gan aelodau unigol y Bwrdd lle rhoddwyd diweddariadau ar faterion cyfredol sy'n effeithio ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Dwy sesiwn hyfforddiant a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Bydd sesiynau hyfforddiant rheolaidd yn dal i gael eu trefnu a'u cynnwys fel rhan o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae hyfforddiant a datblygu'n faes sy'n dal i gael sylw gan y Rheoleiddiwr Pensiynau fel rhan o'i rôl yn hyrwyddo safonau uchel o lywodraethu corfforaethol mewn Cronfeydd Pensiwn. Mae cyfarfodydd a sesiynau hyfforddiant rhithwir wedi gweithio'n dda dros y flwyddyn ddiwethaf, felly dylai'r patrwm hwn o gyfarfodydd rhithwir a hybrid barhau yn y dyfodol.

Ynghyd â Chadeiryddion Bwrdd Pensiwn cronfeydd eraill Cymru, rwy'n cynrychioli'r Bwrdd mewn sesiwn briffio a gynhelir bob 6 mis ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae cyflwyniadau gan yr awdurdod cynnal (Cyngor Sir Caerfyrddin) a'i bartneriaid, Link a Russell Investments, yn rhoi cyfle i Gadeiryddion Bwrdd ofyn cwestiynau a chraffu ar gynnydd mewn perthynas â chyfuno buddsoddiadau yng Nghymru. Mae'r fforwm newydd hwn yn helpu i feithrin cysylltiadau gwaith da rhwng Byrddau a'r awdurdod cynnal a'r Gronfa, ac yn cryfhau system lywodraethu gyffredinol cronfeydd pensiwn Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o asedau'r Gronfa bellach yn cael eu rheoli drwy gronfeydd mynegai goddefol sydd wedi'u caffael ar y cyd gan BlackRock a Phartneriaeth Pensiwn Cymru ac mae'r Bwrdd Pensiwn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym mhob cyfarfod. O blith cyfanswm asedau o £3.2 biliwn, mae £2.5 biliwn (76%) bellach yn cael ei reoli ar y sail hon. Yn y dyfodol bydd y ganran hon yn cynyddu a bydd mwy o asedau yn cael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Byddwn yn parhau i fonitro'r broses hon a gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor i sicrhau'r canlyniad gorau i'r Gronfa a'i buddiolwyr.

**Aelodau Bwrdd Pensiwn Dyfed 2021-22**

- John Jones - Cadeirydd Annibynnol
- Cyng. Gareth Lloyd - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau
- Mike Rogers - Cynrychiolydd Pensiynwyr sy'n Aelodau
- Paul Ashley-Jones - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau
- Gwyn Jones - Cynrychiolydd Gweithwyr (hyd at Ionawr 2022)
- Cyng. Philip Hughes - Cynrychiolydd Cyflogwyr
- Tommy Bowler - Cynrychiolydd Undeb Llafur

**Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd 2021-22**

| | 16 Ebrill 2021 | 20 Gorffennaf 2021 | 9 Tachwedd 2021 | 25 Ionawr 2022 |
|---|---|---|---|---|
| John Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mike Rogers | x | ✓ | x | x |
| Y Cynghorydd Philip Hughes | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwyn Jones | ✓ | x | ✓ | Amh. |
| Tommy Bowler | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Y Cynghorydd Gareth Lloyd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Paul Ashley-Jones | ✓ | x | ✓ | x |

**John Jones, Cadeirydd Annibynnol**

## Polisi Llywodraethu

**Rhagarweiniad**

Gweinyddir Cronfa Bensiwn Dyfed gan Gyngor Sir Caerfyrddin (y corff gweinyddu). Mae'n ofynnol fod yr holl gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr yn cyhoeddi Polisi Llywodraethu, yn unol â Rheoliad 73A o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997. Mae'r rheoliad hwn wedi cael ei ddisodli gan Reoliad 31 o Reoliadau CPLlL (Gweinyddu) 2008 a rheoliadau 2013. Yn ogystal, un o ofynion allweddol Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yw bod pob Awdurdod Gweinyddu yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ffurfio Bwrdd Pensiwn Lleol.

Lluniwyd y polisi hwn gan y corff gweinyddu mewn ymgynghoriad â'r personau priodol sydd â diddordeb.

**Diben y Polisi Llywodraethu**

Mae'n ofynnol dan y rheoliadau ynghylch polisïau llywodraethu fod awdurdod gweinyddu, ar ôl ymgynghori â'r personau priodol, yn llunio, cynnal a chadw, cyhoeddi ac adolygu'n barhaus ddatganiad ysgrifenedig sy'n pennu:

- a yw'r awdurdod yn dirprwyo'i swyddogaeth, neu ran o'i swyddogaeth, o ran cynnal a chadw'r gronfa bensiwn i bwyllgor, is-bwyllgor neu un o swyddogion yr awdurdod, os yw'n gwneud hynny:
  - pa mor aml y mae'r pwyllgor neu'r is- bwyllgor yn cyfarfod
  - telerau, strwythur a gweithdrefnau gweithrediadol y cynllun dirprwyo
  - a yw'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwn yn cynnwys cynrychiolwyr yr awdurdodau cyflogi (gan gynnwys cyflogwyr nad ydynt yn perthyn i'r cynllun) neu aelodau o'r cynllun ac os felly, a oes gan y cynrychiolwyr hynny yr hawl i bleidleisio
- i ba raddau y mae'r trefniadau dirprwyo, neu ddiffyg dirprwyo, yn cydymffurfio â'r arweiniad a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, os nad yw'n cydymffurfio llwyr, y rhesymau dros beidio â chydymffurfio.

**Llywodraethu Cronfa Bensiwn Dyfed**

Yn unol â chyfansoddiad Cyngor Sir Caerfyrddin, mae'n rhaid sefydlu pwyllgor pensiwn ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed i wneud y canlynol:

- penderfynu ar yr holl faterion o ran polisi a'r cyfeiriad strategol sy'n ymwneud â buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn
- adolygu a monitro perfformiad buddsoddi'r Gronfa
- adolygu a phenderfynu ar holl faterion y gronfa sy'n ymwneud â Phrisio'r Gronfa Bensiwn
- penderfynu ar faterion strategol a pholisi Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn

Caiff materion gweithredol y Swyddogaethau Buddsoddi a Gweinyddu eu dirprwyo i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

Y pwerau a ddirprwyir i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol ar gyfer Gweinyddu Pensiwn, yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 neu ddeddfwriaeth ddiwygio olynol, yw:

- casglu cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr gan gyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun
- gwneud taliadau mewn perthynas â budd-daliadau'r cynllun
- casglu a gwneud taliadau trosglwyddo pensiwn fel y dewisir gan aelodau'r cynllun
- penderfynu ar ddisgresiwn nad yw'n ymwneud â pholisi, fel Awdurdod Cyflogi/Gweinyddu Pensiwn
- ymgymryd â phenderfyniadau Cam 1 ynghylch anghydfodau sy'n codi o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu'r ddeddfwriaeth gysylltiedig
- diweddaru a chynnal a chadw gwefan y Gronfa www.cronfabensiwndyfed.org.uk
- cynnal a chadw'r cofnodion aelodaeth a'u diweddaru
- cyfrifo ac awdurdodi taliadau budd-dal
- darparu data ynghylch yr aelodaeth at ddibenion prisio actiwaraidd
- paratoi a chynnal a chadw Datganiad Polisi Cyfathrebu a Datganiad ynghylch y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol yn derbyn gweithwyr awdurdodau a chyrff a ragnodir yn y Rheoliadau i Gronfa Bensiwn Dyfed, yn amodol ar Gytundeb Derbyn cymeradwy ac yn amodol ar unrhyw indemniadau angenrheidiol fel sy'n briodol.

**<u>Y Pwyllgor Pensiwn</u>**

**Cylch Gorchwyl**

- Gweithredu cyfrifoldebau'r Cyngor Sir o ran rheoli Cronfa Bensiwn Dyfed, gan gynnwys rheoli'r gwaith gweinyddu budd-daliadau a rheoli asedau'r Gronfa yn strategol
- Cyfarfod o leiaf bob chwarter neu fel arall, fel y bo'n briodol
- Rhoi Adroddiad Blynyddol ar sefyllfa'r Gronfa a'r gwaith buddsoddi yn ystod y flwyddyn erbyn 30 Medi bob blwyddyn
- Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am y polisi buddsoddi a monitro'r perfformiad cyffredinol
- Adolygu'r trefniadau llywodraethu a'r defnydd effeithiol o'r ymgynghorwyr er mwyn sicrhau bod proses penderfynu dda ar waith
- Derbyn adroddiadau rheolaidd ynghylch gweinyddu'r cynllun er mwyn sicrhau y bodlonir ac y cydymffurfir â safonau arferion gorau a bod wedi'i fodloni fod y Gronfa'n cael ei rhedeg yn effeithiol a chyfiawnhau hynny i'r holl randdalwyr gan gynnwys Cyflogwyr y Gronfa
- Penodi Rheolwyr Buddsoddi sy'n cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoli buddsoddiadau'r Gronfa
- Penodi Ceidwaid y Gronfa, ymgynghorydd mesur perfformiad, actiwari, ymgynghorydd annibynnol a darparwr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol
- Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Gyllido a Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

## Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- tri aelod (un yn Gadeirydd) ) yn ogystal â dirprwy a enwebwyd i weithredu yn absenoldeb un o'r aelodau. Mae gan bob un o aelodau'r Pwyllgor hawl i bleidleisio ac enwebir pob un aelod o'r Pwyllgor a'r dirprwy gan Gyngor Sir Caerfyrddin sef yr Awdurdod Gweinyddu a hynny, o blith ei aelodau etholedig. Mae'n rhaid bod o leiaf dri aelod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y pwyllgor
- o leiaf ddau swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin o’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn ac y rheolwr pensiynau
- yr ymgynghorydd annibynnol.

Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, sef Trysorydd Cronfa Bensiwn Dyfed, hefyd yn cadw'r holl gyfrifon a chofnodion angenrheidiol mewn perthynas â'r Gronfa.

Mae Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn a swyddogion tîm y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Pennaeth Gwasanaethau Ariannol â'i gyfrifoldebau o ran monitro ac adolygu buddsoddiadau'r Gronfa gan gynnwys:

- llunio a chynnal a chadw cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed gan gynnwys paratoi Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dyfed
- llunio a dosbarthu Newyddlen flynyddol Cronfa Bensiwn Dyfed
- gwasanaethu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Buddsoddi
- cynnal trafodaethau yn rheolaidd ag ymgynghorwyr, rheolwyr buddsoddi a cheidwaid y Gronfa
- monitro a chysoni cofnodion y rheolwr buddsoddi a'r ceidwaid
- llunio a chynnal a chadw Datganiad Strategaeth Fuddsoddi y Gronfa, y Datganiad Strategaeth Gyllido, y Polisi Llywodraethu a chydymffurfio â gofynion adolygiad Myners
- monitro gweithgareddau a pherfformiad rheolwyr buddsoddi'r Gronfa gan gynnwys cydymffurfiaeth ag amcanion polisi a pherfformiad
- dehongli'r ddeddfwriaeth newydd a gwneud ymchwil yng nghyswllt buddsoddiadau a chyfrifon y Gronfa
- monitro gwaith llywodraethu corfforaethol y Gronfa gan gynnwys mynychu Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF)
- trefnu a darparu hyfforddiant priodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor.

## Cyfarfodydd y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Buddsoddi'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Cynhelir pob cyfarfod yn Sir Gaerfyrddin, neu yn rhithwir gan ddefnyddio cyfleusterau ar-lein lle bo hynny'n briodol.

Anfonir agenda, cofnodion y cyfarfod blaenorol ac adroddiadau ysgrifenedig at bob aelod o'r Pwyllgor cyn bob cyfarfod gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd. Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, bydd ei aelodau yn cael adroddiadau a gyflwynir gan Swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin, yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol ac unrhyw berson arall y mae'r Pwyllgor yn ei wahodd i siarad yn y cyfarfod. Cofnodir penderfyniadau'r Pwyllgor yn ffurfiol gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd.

Yn ystod y flwyddyn cynhelir cyfarfodydd gyda Chyfarwyddwyr Cyllid y tri Chyngor Sir, lle trafodir perfformiad y Gronfa ac eitemau eraill yr ymdriniwyd â hwy yng nghyfarfod y Pwyllgor. Bydd materion sy'n cael eu codi yn y cyfarfod hwn ac sydd angen i'r Pwyllgor wybod amdanynt yn cael eu trafod yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor.

**Y Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol (CYB)**

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi ymrwymo i gysylltu mor eang â phosibl â phob rhanddaliwr ynghylch trefniadau ymgynghori a chyfathrebu. Cyn penderfynu ar unrhyw newidiadau pwysig o ran polisi ymgynghorir â'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan, â chynrychiolwyr yr Undebau Llafur ac â chynrychiolydd yr aelodau sydd wedi ymddeol.

Cynhelir Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol (CYB) yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r CYB yn agored i'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan, i gynrychiolydd yr aelodau sydd wedi ymddeol ac i gynrychiolwyr yr Undebau Llafur. Bydd cyrff sydd â diddordeb yn cael gwybod ymlaen llaw am y CYB. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiwn, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol, Ymgynghorwyr y Gronfa a'r Rheolwyr Buddsoddi yn bresennol.

**Bwrdd y Gronfa Bensiwn**

Bydd gan y Bwrdd rôl oruchwylio/cynorthwyo yn hytrach na rôl gwneud penderfyniadau. Mae'n helpu'r Awdurdod Gweinyddu (Cyngor Sir Caerfyrddin) i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r gofynion gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau ac i ofalu bod y Gronfa'n cael ei rheoli a'i gweinyddu mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd gynnwys nifer cyfartal o gynrychiolwyr aelodau'r cynllun a chynrychiolwyr y cyflogwyr. Mae gan Fwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed 3 chynrychiolydd o blith aelodau'r cynllun a 3 chynrychiolydd o blith y cyflogwyr ynghyd ag aelod annibynnol sydd hefyd yn Gadeirydd y Bwrdd.

## Datganiad Cydymffurfiaeth y Llywodraethu

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ymrwymedig i sicrhau bod holl bwyllgorau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gweithredu'n unol â safonau arferion gorau a hynny'n gyson. Felly, yn ogystal â'r gofyniad rheoleiddio i lunio'r Polisi Llywodraethu hwn, cafodd Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 eu diwygio ymhellach ar 30 Mehefin 2007 i fynnu bod awdurdodau gweinyddu yn adrodd ar y graddau y cydymffurfir â set o egwyddorion arfer gorau sydd i gael eu cyhoeddi gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a lle mae awdurdod wedi dewis peidio â chydymffurfio, nodi'r rhesymau pam hynny.

Caiff y Polisi Llywodraethu hwn ei adolygu o leiaf bob tair blynedd neu'n amlach os yw'n briodol.

**Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu**

Pwrpas y cyfarwyddyd yw:

- Darparu egwyddorion arferion gorau y gellir eu defnyddio i fesur cydymffurfiaeth
- Darparu cyfarwyddyd ynghylch y modd y dylid cwblhau'r datganiad cydymffurfiaeth

Mae'r cyfarwyddyd yn nodi'r egwyddorion arferion gorau mewn perthynas â'r meysydd llywodraethu canlynol:

- Strwythur
- Cynrychiolaeth
- Dethol
- Pleidleisio
- Hyfforddiant, amser i ffwrdd a threuliau
- Cyfarfodydd (amlder / cworwm)
- Mynediad
- Cwmpas
- Cyhoeddusrwydd

**<u>Arferion Gorau - Egwyddor A: Strwythur</u>**

Mae'r cyfarwyddyd yn cydnabod nad yw'r holl awdurdodau gweinyddu wedi'u strwythuro yn yr un modd. Nid cael gwared â'r gwahaniaethau hyn yw'r bwriad ond sicrhau bod strwythurau'n adlewyrchu'r egwyddorion canlynol:

- Bod rheolaeth dros weinyddu budd-daliadau a rheolaeth strategol asedau'r gronfa yn gyfrifoldeb y prif bwyllgor a sefydlwyd gan y cyngor penodi
- Bod cynrychiolwyr awdurdodau cyflogi'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cyrff a dderbyniwyd ac aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr y cynllun ac aelodau gohiriedig) yn aelodau naill ai o'r prif bwyllgor neu'r ail bwyllgor (a sefydlwyd i ategu gwaith y prif bwyllgor)
- Os sefydlwyd ail bwyllgor neu banel, bod y strwythur yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol yn digwydd ar draws y ddwy lefel
- Os sefydlwyd ail bwyllgor neu banel, bod o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor wedi'i chlustnodi ar gyfer aelod o'r ail bwyllgor neu bwyllgorau

**Datganiad Cydymffurfiaeth: Nid yw'n cydymffurfio'n llwyr**

**Y rheswm:**

Mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed yn bodoli ac yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri aelod ac un dirprwy aelod, swyddogion (pob un o Gyngor Sir Caerfyrddin) ac ymgynghorydd buddsoddi annibynnol. Nid yw awdurdodau cyflogi eraill y cynllun, cyrff a dderbyniwyd nac aelodau'r cynllun yn mynychu'r Pwyllgor ond fe'u gwahoddir i gyd i'r Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol lle mae holl aelodau ac ymgynghorwyr y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ac ar gael i ateb cwestiynau. Mae swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyfarfod swyddogion y 2 brif awdurdod cyflogi arall (Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion) yn ystod y flwyddyn ac mae cofnodion y Pwyllgor ar gael yno. Cefnogir y system hon gan yr holl bartïon ac mae wedi gweithio'n dda iawn fel y gwelir gan y ffaith bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud, ac mae'r perfformiad buddsoddi yn uwch na'r rhagdybiaethau actiwaraidd dros y tymor hir.

Nid oes ail bwyllgor ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.

**<u>Arferion Gorau - Egwyddor B: Cynrychiolaeth</u>**

Effeithir ar nifer helaeth iawn o randdeiliaid gan y modd y rheolir y cynllun pensiwn ac y llywodraethir y cronfeydd pensiwn yn lleol a derbynnir na fyddai'n ymarferol disgwyl i strwythurau pwyllgorau unigol gynnwys pob grŵp neu sector sydd â diddordeb yn y penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud o dan reoliadau'r cynllun.

- Bod cyfle'n cael ei roi i'r holl randdeiliaid allweddol gael eu cynrychioli ar y prif neu'r ail bwyllgor. Mae’r rhain yn cynnwys:
    - awdurdodau cyflogi (gan gynnwys cyflogwyr nad ydynt yn aelodau o'r cynllun, e.e. cyrff a dderbyniwyd yn ogystal â chyrff rhestredig)
    - aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr y cynllun ac aelodau gohiriedig)
    - sylwedyddion proffesiynol annibynnol, ac ymgynghorwyr arbenigol (ar sail ad-hoc).
- Os oes aelodau lleyg yn eistedd ar brif neu ail bwyllgor, eu bod yn cael eu trin yn gyfartal o ran yr hawl i weld papurau a mynychu cyfarfodydd, hyfforddiant a'u bod yn cael pob cyfle i gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau, gyda hawl i bleidleisio neu heb hawl i bleidleisio

**Datganiad Cydymffurfiaeth: Nid yw’n cydymffurfio’n llwyr**

**Y rheswm:**

Mae gan y Pwyllgor gynrychiolwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin a'r ymgynghorydd buddsoddi annibynnol. Nid yw awdurdodau cyflogi eraill y cynllun, cyrff a dderbyniwyd nac aelodau'r cynllun yn mynychu'r Pwyllgor ond fe'u gwahoddir i gyd i'r Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol lle mae holl aelodau ac ymgynghorwyr y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ac ar gael i ateb cwestiynau. Mae swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyfarfod swyddogion y 2 brif awdurdod cyflogi arall (Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion) yn ystod y flwyddyn ac mae cofnodion y Pwyllgor ar gael yno. Nid oes ail bwyllgor ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.

**Arferion Gorau - Egwyddor C: Dethol**

Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'n rhan o gylch gorchwyl awdurdod y gronfa i weinyddu'r broses dethol aelodau lleyg ar brif neu ail bwyllgorau na sicrhau eu bod yn mynychu cyfarfodydd, oni bai eu bod yn dymuno gwneud hynny. Eu swyddogaeth nhw yw penderfynu pa sectorau neu grwpiau ddylai gael eu gwahodd i eistedd ar bwyllgorau neu baneli'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac i sicrhau bod lleoedd ar gael.

Mae cynrychiolaeth effeithiol yn broses ddwy ffordd gydag awdurdodau'r gronfa'n darparu'r cyfle a'r cyrff cynrychiadol yn cychwyn y broses dethol ac yn ei symud yn ei blaen o dan arolygiaeth gyffredinol awdurdod y gronfa.

Bod aelodau pwyllgorau neu baneli yn hollol ymwybodol o'r statws, y rôl a'r swyddogaeth y disgwylir iddynt eu cyflawni ar brif neu ail bwyllgor.

**Datganiad Cydymffurfiaeth: Cydymffurfio'n llwyr**

**Y rheswm:**

Mae Polisi Llywodraethu Cronfa Bensiwn Dyfed yn rhestru'r swyddogaethau dirprwyedig y disgwylir i'r Pwyllgor eu cyflawni. Os yw aelodau'r pwyllgor yn newid, mae'r aelod/au newydd yn cael gwybod beth yw'r statws, y rôl a'r swyddogaeth y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni.

**Arferion Gorau - Egwyddor Ch: Pleidleisio**

Bod polisi awdurdodau gweinyddu unigol ar hawliau pleidleisio yn glir ac yn dryloyw, gan gynnwys y rheswm dros beidio ag ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grŵp a gynrychiolir ar brif bwyllgorau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Datganiad Cydymffurfiaeth: Cydymffurfio'n llwyr**

**Y rheswm:**

Mae holl aelodau'r Pwyllgor yn cael pleidleisio. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu ac mae'r holl swyddogaethau wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor.

**Arferion Gorau - Egwyddor D: Hyfforddiant, amser i ffwrdd a threuliau**

Yn 2001, derbyniodd y Llywodraeth y deg egwyddor buddsoddi a argymhellwyd gan Paul Myners yn ei adroddiad, "Institutional Investment in the UK". Roedd yr egwyddor gyntaf, "Effective Decision Making", yn gofyn i benderfyniadau gael eu gwneud yn unig gan yr unigolion neu'r sefydliadau hynny sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol i wneud penderfyniadau mewn modd effeithiol. Yn ogystal, os yw ymddiriedolwyr - neu aelodau pwyllgorau ffurfiol yn achos y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - yn gwneud penderfyniadau buddsoddi, bod ganddynt yr arbenigedd digonol i allu gwerthuso unrhyw gyngor a gânt mewn modd beirniadol.

- Mewn perthynas â'r modd y gwneir penderfyniadau statudol a phenderfyniadau cysylltiedig gan yr awdurdod gweinyddu, bod polisi clir ar hyfforddiant, amser i ffwrdd ac ad-dalu treuliau ar gyfer aelodau sy'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau
- Os oes polisi o'r fath yn bodoli, ei fod yr un mor berthnasol i holl aelodau pwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli ymgynghorol neu unrhyw ffurf arall ar fforwm eilaidd

**Datganiad Cydymffurfiaeth: Cydymffurfio’n llwyr**

**Y rheswm:**

Mae'r Pwyllgor yn cael sesiynau hyfforddi rheolaidd a drefnir gan Reolwyr y Gronfa, yr Actiwari, yr Ymgynghorydd a'r swyddogion. Mae aelodau newydd y Pwyllgor yn mynychu sesiynau hyfforddi dwys pan fyddant yn dechrau eu dyletswyddau ar y pwyllgor, sy'n cynnwys sesiwn hyfforddi pensiwn y Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol.

**<u>Arferion Gorau - Egwyddor Dd: Cyfarfodydd (amlder / cworwm)</u>**

Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau'r awdurdod gweinyddu yn cyfarfod o leiaf bob chwarter.

Bod ail bwyllgor neu banel awdurdod gweinyddu yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn a bod y rhain yn cael eu cynnal ar yr un dyddiadau â'r prif bwyllgor.

Bod awdurdodau gweinyddu nad ydynt yn cynnwys aelodau lleyg yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol, yn darparu fforwm y tu allan i'r trefniadau hynny lle bydd buddiannau'r rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynrychioli.

**Datganiad Cydymffurfiaeth: Cydymffurfio’n llwyr**

**Y rheswm:**

Mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed yn cyfarfod bob chwarter. Cynhelir y Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol unwaith y flwyddyn a gwahoddir cyflogwyr eraill y cynllun, cyrff a dderbyniwyd ac aelodau'r cynllun iddo.

**<u>Arferion Gorau - Egwyddor E: Mynediad</u>**

Yn amodol ar unrhyw reolau yng nghyfansoddiad y cyngor, bod gan holl aelodau'r prif a'r ail bwyllgor neu bwyllgorau yr un mynediad at bapurau pwyllgor, dogfennau a chyngor sydd i'w hystyried yng nghyfarfodydd y prif bwyllgor.

**Datganiad Cydymffurfiaeth: Cydymffurfio’n llwyr**

**Y rheswm:**

Mae'r holl bapurau yn cael eu dosbarthu ymlaen llaw i holl aelodau'r Pwyllgor, gan gynnwys ymgynghorydd buddsoddi annibynnol y Pwyllgor.

**<u>Arferion Gorau - Egwyddor F: Cwmpas</u>**

Bod awdurdodau gweinyddu wedi cymryd camau i ddod â materion ehangach y cynllun yn rhan o gwmpas eu trefniadau llywodraethu.

**Datganiad Cydymffurfiaeth: Cydymffurfio’n llwyr**

**Y rheswm:**

Mae'r Pwyllgor yn derbyn ac yn pleidleisio, ar sail ad-hoc, ynghylch unrhyw faterion gweinyddol pwysig sy'n effeithio ar y Gronfa. Mae'r swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu'r Gronfa yn rhoi hyfforddiant a'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor yn rheolaidd.

**Arferion Gorau - Egwyddor Ff: Cyhoeddusrwydd**

Bod awdurdodau gweinyddu wedi cyhoeddi manylion am eu trefniadau llywodraethu yn y fath fodd fel bod y rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y modd y llywodraethir y cynllun yn gallu mynegi eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r trefniadau hynny.

**Datganiad Cydymffurfiaeth: Cydymffurfio'n llwyr**

**Y rheswm:**

Mae Polisi Llywodraethu Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei adolygu'n flynyddol. Cynhyrchir Llythyr Newyddion ac Adroddiad Blynyddol unwaith y flwyddyn. Mae'r holl ddeunydd a gyhoeddir (gan gynnwys y Polisi Llywodraethu) ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed.

**Crynodeb**

| **Arferion Gorau - Egwyddor** | **Cydymffurfio'n llwyr** | **Nid yw'n cydymffurfio'n llwyr** | **Eglurhad am fethu â chydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| Strwythur | | ✔ | Mae strwythur Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael cefnogaeth yr holl bartïon ac mae wedi gweithio'n dda iawn |
| Cynrychiolaeth | | ✔ | Mae cyfarfodydd a thrafod rheolaidd â'r prif randdeiliaid eraill yn digwydd a chynhelir cyfarfod ymgynghori blynyddol |
| Dethol | ✔ | | |
| Pleidleisio | ✔ | | |
| Hyfforddiant, amser i ffwrdd a threuliau | ✔ | | |
| Cyfarfodydd (amlder / cworwm) | ✔ | | |
| Mynediad | ✔ | | |
| Cwmpas | ✔ | | |
| Cyhoeddusrwydd | ✔ | | |

# Adran 6 – Datganiad Cyfrifon

## Adroddiad Naratif

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn Dyfed wedi'u nodi ar y tudalennau canlynol ac yn cynnwys gwybodaeth am sefyllfa ariannol, perfformiad a chymhwysedd ariannol y Gronfa am y flwyddyn 2021-22. Maent yn dangos canlyniad y gwaith o stiwardio rheolaeth, sef atebolrwydd y rheolwyr o ran yr adnoddau yr ymddiriedwyd iddynt a chyflwr ei asedau ar ddiwedd y cyfnod.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn wedi cael eu paratoi yn unol a Chôd Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22 (y côd), sydd wedi'u sefydlu ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, a ddiwygiwyd i'r sector cyhoeddus. Mae'r cyfrifon hefyd yn cyfeirio tuag at Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn - Datganiad o Arfer a Argymhellir a gyhoeddwyd gan Grŵp Cyfrifwyr Ymchwil i Bensiynau lle mae teimlad fod y datgeliadau yma yn darparu fwy o fanylder.

Y prif gyfrifon ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon hon yw:

- Cyfrif y Gronfa
- Datganiad Asedau Net
- Datganiad gan yr Actiwari Ymgynghorol.

### Datganiad o'r cyfrifoldebau dros y datganiad cyfrifon

### <u>Cyfrifoldebau'r Awdurdod</u>

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- Wneud trefniadau i weinyddu faterion y cronfeydd pensiwn mewn modd priodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog hwnnnw.
- Rheoli materion y gronfa bensiwn mewn modd sy'n gwneud y defnydd mwyaf darbodus, effeithiol ac effeithlon o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

### <u>Cyfrifoldebau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol</u>

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad yr Awdurdod o'i Gyfrifon sydd, yn unol â'r arferion cyfrifo priodol fel y'u pennwyd yn Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("y Côd Ymarfer"),

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol:

- Wedi dewis polisïau cyfrifydda addas ac wedyn wedi'u cymhwyso'n gyson;
- Wedi gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cadw cofnodion cyfrifydda priodol, amserol a chyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol er atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall;
- Wedi cydymffurfio â'r côd.

**Ardystio'r Cyfrifon**

Yr wyf yn ardystio fod y Datganiad Cyfrifon a welir yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol y Chronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022

Chris Moore FCCA Dyddiad: 21 Hydref 2022

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

**Cymeradwyaeth Pwyllgor Archwilio**

Cymeradwyaeth o'r Datganiad Cyfrifon Gronfa Pensiwn Dyfed ar ôl yr archwiliad.

Cadeirydd y Bwrdd Archwilio Dyddiad: 21 Hydref 2022

## Cyfrifon y Gronfa am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2022

| 2020-21 £'000 | | Nodyn | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| | **Trafodion gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol a'r Gronfa** | | |
| | Cyfraniadau | | |
| | Cyflogwyr | | |
| 63,914 | Arferol | | 68,144 |
| 5,104 | Ychwanegiadau | | 5,397 |
| (6,563) | Diffyg Gwasanaeth Blaenorol | | (7,373) |
| | Aelodau | | |
| 21,339 | Arferol | | 22,519 |
| 260 | Ychwanegiadau Gwirfoddol | | 328 |
| 3,196 | Trosglwyddiadau i fewn o gronfeydd pensiwn eraill | 6 | 4,196 |
| 87,250 | | | 93,211 |
| | Budd-daliadau sy'n daladwy | | |
| (75,109) | Pensiynau yn daladwy | | (77,001) |
| (11,727) | Cymudiadau a Cyfandaliad Budd-daliadau Ymddeol | | (14,174) |
| (2,947) | Cyfandaliad Budd-daliadau marwolaeth | | (1,227) |
| (3,595) | Taliadau ynglyn ag ymadawyr | 7 | (3,534) |
| (93,378) | | | (95,936) |
| **(6,128)** | **Ychwanegiadau (Tynnu Allan) Net o'r Trafodion Gydag Aelodau** | | **(2,725)** |
| (15,186) | Treuliau Rheoli | 8 | (14,411) |
| **(21,314)** | **Ychwanegiadau (Tynnu Allan) Net yn cynnwys Treuliau Rheoli** | | **(17,136)** |
| | **Elw ar y Buddsoddiadau** | | |
| 32,187 | Incwm o'r Buddsoddiadau | 9 | 32,138 |
| 0 | Incwm Eraill | | 0 |
| (51) | Trethi ar Incwm (Treth Ataliedig Anadferadwy) | 10 | (2) |
| | Newid yng Ngwerth y Buddsoddiadau ar y Farchnad | | |
| 186,742 | Heb eu Realeiddio | 11.2 | 122,786 |
| 467,512 | Wedi'u Realeiddio | 11.3 | 55,269 |
| **686,390** | **Elw Net ar y Buddsoddiadau** | | **210,191** |
| **665,076** | **Cynydd (Gostyngiad) net mewn asedau net i dalu budddaliadau yn ystod y flwyddyn** | | **193,055** |
| 2,384,473 | Asedau Net y Cynllun ar Ddechrau'r Flwyddyn | | 3,049,549 |
| **3,049,549** | **Asedau Net y Cynllun ar Ddiwedd Y Flwyddyn** | | **3,242,604** |

## Datganiad Asedau Net am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2022

| 31/03/21 £'000 | | Nodyn | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|---|
| 3,029,868 | Asedau buddsoddi | | 3,211,708 |
| 11,376 | Adnau ariannol | | 24,969 |
| 0 | Rhwymedigaethau buddsoddi | | 0 |
| 3,041,244 | | 11.1 | 3,236,677 |
| 12,723 | Asedau cyfredol | 15 | 9,323 |
| (4,418) | Rhwymedigaethau cyfredol | 16 | (3,396) |
| 8,305 | Asedau/(Rhwymedigaethau) Net Presennol | | 5,927 |
| **3,049,549** | **Cyfanswm yr Asedau Net** | | **3,242,604** |

## Cysoniad o'r Symudiadau yn Asedau Net y Gronfa

| 2020-21 £'000 | | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| 2,384,473 | Asedau Net ar Ddechrau'r Flwyddyn | 3,049,549 |
| 10,822 | Arian Newydd Net a Fuddsoddwyd | 15,000 |
| 654,254 | Elw a cholledion ar warediad o fuddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 178,055 |
| **3,049,549** | **Asedau Net ar Ddiwedd y Flwyddyn** | **3,242,604** |

**Nodiadau ar Gyfrifon y Gronfa Bensiwn Dyfed am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2022**

## 1 Disgrifiad o'r Gronfa

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed (y Gronfa) yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

### 1.1 Cyffredinol

Llywodraethir y Gronfa gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ac fe'i gweinyddir yn unol â'r is-deddfwriaethau canlynol:

- Rheoliadau CPLlL 2013 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau CPLlL (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygiadau) 2014 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau CPLlL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion a nifer amrywiol eraill o gyrff rhestredig a chyrff a dderbynnir o fewn ardal ddaearyddol hen awdurdod Dyfed. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a diffoddwyr tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn aelodau o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill.

Goruchwylir y Gronfa gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed (y Pwyllgor).

### 1.2 Aelodaeth

Mae aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael eu cofrestru'n awtomatig ac maent yn rhydd i ddewis aros yn y cynllun neu wneud eu trefniadau personol eu hunain y tu allan i'r cynllun.

Mae'r cyrff sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Dyfed yn cynnwys:

- Cyrff rhestredig sef awdurdodau lleol a chyrff cyffelyb y mae eu staff â hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a dderbynnir sef cyrff eraill sy'n cyfrannu i'r Gronfa dan gytundeb derbyn rhwng y Gronfa a'r corff dan sylw. Mae cyrff a dderbynnir yn cynnwys cyrff gwirfoddol, cyrff elusennol a chyrff eraill cyffelyb neu gontractwyr preifat sy'n cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol yn dilyn rhoi gwaith ar gontract allanol i'r sector preifat.

Ar 31 Mawrth 2022 roedd 70 o gyrff cyflogwyr yng Nghronfa Bensiwn Dyfed ac mae'r manylion i'w gweld yn Nodyn 20. Mae manylion aelodaeth y cyrff hyn wedi'u crynhoi isod:

| **31/03/21** | | **31/03/22** |
|---:|---|---:|
| 18,700 | Nifer o gyfranwyr gweithredol yn y Gronfa | 18,643 |
| 14,626 | Nifer o bensiynwyr | 15,342 |
| 15,881 | Nifer o bensiynwyr gohiriedig | 16,214 |
| 2,293 | Nifer o ymadawyr heb benderfynu | 2,536 |
| **51,500** | **Cyfanswm aelodau** | **52,735** |
| 47 | Nifer o gyflogwyr gyda chyfranwyr gweithredol | 49 |

Mae’r ffigurau hyn yn adlewyrchu’r sefyllfa fel y’i cofnodwyd ar 31 Mawrth 2022 ond maent yn dueddol i newid ar ôl diwedd y flwyddyn gan fod datganiadau gan y cyrff cyflogi yn dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw.

1.3 Cyllido

Cyllidir y buddion gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Telir cyfraniadau gan aelodau gweithredol y Gronfa yn unol â Rheoliadau CPLlL 2013 ac ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 March 2022 roedd y cyfraniadau’n amrywio rhwng 5.5% a 12.5% o’r cyflog pensiynadwy. Cyfatebir cyfraniadau’r gweithwyr gan gyfraniadau’r cyflogwyr a seilir ar brisiad actiwaraidd a gynhelir bob tair blynedd. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2019. Ar hyn o bryd mae cyfraddau cyfrannu’r cyflogwyr yn amrywio rhwng 9.5% a 46.2% o’r cyflog pensiynadwy, fel y nodir yn Nodyn 20.

1.4 Buddion

Dan CPLlL seilir buddion pensiwn ar y cyflog pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy, fel y crynhoir isod:

| | **Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008** | **Gwasanaeth 31 Mawrth 2008 - 31 Mawrth 2014** |
|---|---|---|
| **Pensiwn** | Pob blwyddyn yn werth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol | Pob blwyddyn yn werth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol |
| **Cyfandaliad** | Cyfandaliad awtomatig 3 x y cyflog. Hefyd gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian untro di-dreth. Telir £12 o gyfandalaid am bob £1 o bensiwn a ildir | Dim cyfandaliad awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian untro di-dreth. Telir £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir |

O'r 1 Ebrill 2014 ymlaen, daeth y cynllun yn gynllun cyfartaledd gyrfa, lle bydd aelodau'n cronni buddion yn seiliedig ar eu tâl pensiynadwy yn y flwyddyn honno ar gyfradd gronni o 1/49fed. Caiff gwerth pensiwn a gronnwyd ei godi'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir ystod o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau salwch a buddion marwolaeth, cyrchwch wefan Cronfa Bensiwn Dyfed i gael rhagor o fanylion – www.cronfabensiwndyfed.org.uk

## 2 Sail y paratoi

Mae’r Datganiad Cyfrifon yn rhoi crynodeb o drafodion y Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 ac yn nodi ei sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn sef 31 Mawrth 2022. Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chôd Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-2022 a seiliwyd ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y’u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n daladwy ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Datgelir gwerth actiwaraidd presennol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo yn y Datganiad gan yr Actiwari Ymgynghorol.

## 3 Crynodeb o bolisïau cyfrifyddu o bwys

Cyfrif Y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

### 3.1 Cyfraniadau

Cyfrifir am gyfraniadau arferol yr aelodau a'r cyflogwyr ar sail groniadol yn ôl y gyfradd ganrannol a argymhellwyd gan actiwari'r gronfa yn ystod cyfnod y gyflogres y maent yn berthnasol iddo.

Cyfrifir am gyfraniadau'r cyflogwyr ar gyfer ychwanegiadau a straen ar bensiynau yn y cyfnod y mae'r ymrwymiadau hynny'n codi. Bydd unrhyw swm sy'n ddyledus mewn blwyddyn ond heb ei dalu yn cael ei nodi fel ased ariannol cyfredol.

Cyfrifir am y cyfraniadau gan gyflogwyr i gyllido'r diffyg ar y dyddiad penodedig ar gyfer eu talu yn unol â'r atodlen cyfraniadau a bennwyd gan actiwari'r cynllun neu ar y dyddiad derbyn os ydynt yn dod i law cyn y dyddiad penodedig.

### 3.2 Trosglwyddiadau i gynlluniau eraill ac o gynlluniau eraill

Mae gwerth trosglwyddiadau yn cynrychioli gwerth y symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas ag aelodau sydd naill ai'n ymuno neu'n ymadael â'r Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol, a chânt eu cyfrif yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Cyfrifir am drosglwyddiadau unigol i mewn/allan pryd y'u derbynnir/telir, sydd fel arfer yn digwydd pan dderbynnir/rhyddheir rhwymedigaeth yr aelod.

Rhoddir cyfrif ar ffurf derbyniadau am y trosglwyddiadau i mewn gan yr aelodau hynny sydd am ddefnyddio enillion eu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i brynu buddion y cynllun, ac maent wedi'u cynnwys o dan Drosglwyddiadau i Mewn.

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) ar sail groniadol yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

### 3.3 Incwm o fuddsoddiadau

#### 3.3.1 Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yn y gronfa fel y mae'n cronni gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol fel dyddiad caffael neu fan cychwyn. Mae'r incwm yn cynnwys amorteiddio unrhyw ostyngiad neu bremiwm, costau prynu (lle bônt yn berthnasol) neu unrhyw wahaniaethau eraill rhwng y swm cychwynnol a'r swm adeg aeddfedu a gyfrifwyd ar sail cyfradd llog effeithiol.

#### 3.3.2 Incwm difidendau

Cydnabyddir incwm difidendau ar y dyddiad y mae'r difidend ar gyfranddaliadau yn daladwy. Mae unrhyw swm na dderbynnir erbyn diwedd cyfnod yr adroddiad yn cael ei nodi fel ased ariannol cyfredol yn y datganiad asedau net.

3.3.3 Dosbarthiad Incwm Cronfeydd ar y Cyd

Cydnabyddir incwm a ddosberthir o gronfeydd ar y cyd ar y dyddiad y'i cyhoeddir. Mae unrhyw swm na dderbynnir erbyn diwedd cyfnod yr adroddiad yn cael ei nodi fel ased ariannol cyfredol yn y datganiad asedau net.

3.3.4 Symudiadau o ran gwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Ystyrir bod newidiadau o ran gwerth net buddsoddiadau ar y farchnad (gan gynnwys eiddo buddsoddi) yn incwm, a'u bod yn cynnwys yr holl elw/colledion cyflawnedig ac anghyflawnedig yn ystod y flwyddyn.

3.4 Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiynau a'r cyfandaliadau sy'n daladwy yn cynnwys yr holl symiau y gwyddys eu bod yn ddyledus ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae unrhyw symiau dyledus na thelir yn cael eu nodi fel rhwymedigaethau cyfredol yn y datganiad asedau net.

3.5 Trethiant

Mae'r Gronfa wedi'i chofrestru yn gynllun gwasanaeth cyhoeddus dan adran 1(1) Atodlen 36 i Ddeddf Cyllid 2004 ac o'r herwydd mae wedi'i heithrio rhag talu treth incwm y DU ar log a dderbynnir a threth enillion cyfalaf ar yr elw ar werthu buddsoddiadau. Codir treth ataliedig arincwm o fuddsoddiadau mewn gwledydd tramor yn y wlad berthnasol oni bai y caniateir rhyddhad. Cyfrifir am dreth na ellir ei adennill fel gwariant y gronfa, fel y cyfyd.

Gan mai Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu, gellir adennill TAW ar holl weithgareddau'r Gronfa. Nid yw'r Cyfrifon a ddangosir yn cynnwys TAW.

3.6 Treuliau Rheoli

Nid yw'r Côd yn mynnu bod dadansoddiad manwl ar gael o gostau gweinyddu cronfa bensiwn. Fodd bynnag, er mwyn bod yn dryloyw, mae'r Cyngor yn datgelu treuliau rheoli ei gronfa bensiwn yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sef Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses 2016.

Cyfrifir am yr holl wariant gweinyddol ar sail groniadol. Codir yn uniongyrchol ar y gronfa am holl gostau staff y tîm gweinyddol. Yn unol â pholisi'r Cyngor mae'r Gronfa yn gyfrifol am dalu'r gyfran briodol o gostau'r rheolaeth, y swyddfeydd a'r gorbenion cysylltiedig.

Rhoddir cyfrif am yr holl gostau goruchwylio a llywodraethu ar sail gronedig. Codir yn uniongyrchol ar y gronfa am yr holl gostau staff sydd ynghlwm wrth arolygu a llywodraethu. Caiff y costau rheoli, costau'r swyddfeydd a'r costau cysylltiedig eraill eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn, a chodir ar y gronfa amdanynt ar ffurf treuliau.

Cyfrifir am yr holl wariant ar reoli buddsoddiadau ar sail groniadol.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywio eu penodiadau. Yn fras, seilir y rhain ar yr hyn yw gwerth y buddsoddiadau a reolir ar y farchnad ac felly gallant godi neu ddisgyn yn ôl y newidiadau yng ngwerth y buddsoddiadau.

Mae elfen o ffi un o'r Rheolwyr Buddsoddi yn gysylltiedig â pherfformiad. Roedd costau cysylltiedig â pherfformiad yn £0.26 miliwn yn 2021-2022 (2020-2021: Ffi o £0.66 miliwn).

Lle na dderbyniwyd nodyn am ffi'r rheolwr buddsoddi erbyn dyddiad diwedd y flwyddyn, defnyddir amcangyfrif sy'n seiliedig ar werth marchnad y mandad ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn ei gynnwys yng Nghyfrif y Gronfa. Yn 2021-2022, doedd ddim taliadau ar amcangyfrifau (2020-2021: £0).

Codir yn uniongyrchol ar y gronfa am gostau tîm buddsoddi pensiynau yr Awdurdod ynghyd â chyfran o gostau'r Awdurdod o ran yr amser rheoli a dreulid gan swyddogion ar reoli buddsoddiadau. Cododd yr Awdurdod swm o £1.1 miliwn (£1.2 miliwn yn 2020-21) ar y Gronfa Bensiwn mewn perthynas â gweinyddiaeth a chymorth yn ystod 2021-22.

<u>Datganiad Asedau Net</u>

3.7 <u>Asedau Ariannol</u>

Mae'r asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr adroddiad. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y daw'r Gronfa'n barti i'r cytundeb i gaffael yr ased. O'r dyddiad hwn bydd unrhyw enillion neu golledion a berir gan newidiadau yn y gwerth teg yn cael eu cydnabod gan y Gronfa.

Pennir gwerth y buddsoddiadau fel y'u nodir yn y datganiad asedau net, fel a ganlyn:

3.7.1 Buddsoddiadau a ddyfynnwyd ar y farchnad

Pennir gwerth buddsoddiad y mae pris ar y farchnad ar gael yn hwylus ar ei gyfer gan y pris prynu uchaf ar y farchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifyddu.

3.7.2 Gwarannau llog sefydlog

Cofnodir gwarannau llog sefydlog yn ôl y gwerth net ar y farchnad.

3.7.3 Buddsoddiadau heb eu dyfynnu

Prisir buddsoddiadau mewn eiddo heb ei ddyfynnu a chronfeydd seilwaith ar y cyd yn ôl gwerth net yr asedau neu bris sengl a roddir gan y rheolwr buddsoddi.

3.7.4 Partneriaethau Cyfyngedig

Seilir y gwerth teg ar werth net yr asedau yn dilyn prisiadau cyfnodol gan y rheiny sy'n rheoli'r bartneriaeth.

3.7.5 Cyfryngau buddsoddi ar y cyd

Prisir cyfryngau buddsoddi ar y cyd yn ôl y pris prynu uchaf amser cau. Os nad yw hwnnw ar gael prisir y buddsoddiadau yn ôl y pris sengl amser cau. O ran cronfeydd cronnus bydd y newid yn y gwerth ar y farchnad hefyd yn cynnwys incwm sy'n cael ei ail fuddsoddi yn y Gronfa.

3.8 <u>Trafodion arian tramor</u>

Caiff difidendau, llog a phryniant a gwerthiant buddsoddiadau mewn arian tramor eu cyfrif yn ôl y cyfraddau ar y farchnad sbot ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid diwedd y flwyddyn ar y farchnad sbot i brisio'r arian gweddill a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad ac unrhyw bryniannau a gwerthiannau tramor sydd heb eu cwblhau ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad.

3.9 Arian ac arian cyfwerth

Mae arian yn cynnwys arian parod ac arian y gellir ei godi'n ôl y galw gan gynnwys y symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa.

Buddsoddiadau tymor byr hynod hylifol sydd ar gael yn hwylus i'w trosglwyddo yn symiau hysbys o arian yw arian cyfwerth a bychan iawn yw'r risg y bydd ei werth yn newid.

Mae gan y Gronfa ei chyfrifon banc ei hun ers 1 Ebrill 2011 i ddelio gyda thrafodion y Gronfa, yn unol ag adran 6 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd Pensiwn) 2009.

Caiff yr arian gweddill a ddelir gan y Gronfa ei fuddsoddi am gyfnodau byrdymor ar Farchnad Ariannol Llundain gan Cyngor Sir Gaerfyrddin nes y bydd ei angen i dalu ei rhwymedigaethau neu i drosglwyddo arian dros ben i'r rheolwyr buddsoddi ar gyfer ei ail fuddsoddi.

3.10 Rhwymedigaethau ariannol

Mae'r Gronfa yn cydnabod rhwymedigaethau ariannol yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr adroddiad. Caiff rhwymedigaeth ariannol ei gydnabod yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y daw'r Gronfa'n barti i'r ymrwymiad. O'r dyddiad hwnnw bydd unrhyw enillion neu golledion a berir gan newidiadau yn y gwerth teg yn cael eu cydnabod gan y Gronfa.

3.11 Gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo

Caiff gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo eu hasesu bob tair blynedd gan actiwari'r cynllun yn unol â gofynion IAS19 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir dan y Côd, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gyfeirio ato yn yr adroddiad actiwaraidd sydd ynghlwm.

3.12 Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae'n statudol ofynnol i Gynlluniau Pensiwn Galwedigaethol ddarparu trefniadau mewnol o ran Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY). Mae gan y Gronfa ddarparwyr ar y cyd: Prudential, Standard Life ac UTMOST, sy'n darparu ystod o ddewisiadau o ran buddsoddi.

Aelodau unigol y Cynllun sydd i bennu faint y maent am gyfrannu (yn amodol ar derfynau a bennwyd gan Gyllid a Thollau EM) ac ar elfennau neu gynnwys y buddsoddiad.

Buddsoddir CGY ar wahân i asedau'r Gronfa ac ni chânt eu cynnwys yn y cyfrifon yn unol ag adran 4(2)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd Pensiwn) 2009 (SI 2009/3093). Fe'i datgelir fel nodyn yn unig – Nodyn 17.

## 4 Barn gritigol wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu

4.1 Rhwymedigaeth y Gronfa

Caiff rhwymedigaeth y Gronfa ei chyfrif bob tair blynedd gan yr actiwari a benodwyd ac mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn cyd-fynd â'r canllawiau arferol ac yn cydymffurfio ag IAS 19. Cytunir gyda'r actiwari ynghylch y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio yn gynsail i'r prisiannau ac maent wedi'u crynhoi yn Nodyn 22. Gall newid yn y rhagdybiaethau beri amrywiad mawr yn yr amcangyfrif.

## 4.2 Buddsoddiadau mewn Eiddo heb ei Ddyfynnu – Partners Group Red Dragon Limited Partnership

Wrth asesu gwerth teg yr offerynnau ariannol nas masnachwyd, mae'r Bartneriaeth Gyfyngedig yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau'r farchnad a dulliau incwm megis y tro diwethaf y'u hariannwyd, enillion ac aml-ddadansoddiad, dull llif arian disgowntiedig, a phrisio trydydd parti ac mae'n llunio rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar amodau'r farchnad a rhagdybiaethau ynghylch y rhai sy'n cyfranogi yn y farchnad, sy'n bodoli ar ddiwedd pob cyfnod adroddiad. Mae'r wybodaeth arall a ddefnyddiwyd wrth bennu gwerth teg yr offerynnau ariannol nas masnachir yn cynnwys yr adroddiadau ariannol diweddaraf, y llif arian dilynol a monitro mewnol o ddigwyddiadau sbarduno (megis ymadael a Chynigion Cyhoeddus Cychwynnol – IPOs) yn ogystal â newidiadau ym mhrisio buddsoddiadau cymharol ynghyd â thechnegau megis modelau prisio opsiynau, a gwerth ddisgowntiedig amcangyfrifol y llif arian yn y dyfodol. Mae'r arferion hyn yn unol â'r canllawiau rhyngwladol a ddefnyddir yn eang gan y diwydiant. Gwerth y Partners Group Red Dragon Limited Partnership ar 31 Mawrth 2022 oedd £46.3 miliwn. (£38.5 miliwn ar 31 Mawrth 2021).

## 5 Tybiaethau a Wnaethpwyd am y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill Ansicrwydd wrth Amcangyfrif

Yn y Datganiad o Gyfrifon ceir ffigurau amcangyfrifedig sydd wedi'u seilio ar dybiaethau mae'r Awdurdod wedi'u gwneud am y dyfodol neu sy'n ansicr mewn rhyw ffordd arall. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd mewn i ystyriaeth profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau â sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon. Mae'r eitemau yn y Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2022 lle mae risg sylweddol y cânt eu haddasu'n sylweddol yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

| **Eitem** | **Elfennau ansicr** | **Effaith os bydd y gwir ganlyniadau'n wahanol i'r tybiaethau** |
|---|---|---|
| Gwerth presennol actiwaraidd o fudd-daliadau ymddeol a addawyd | Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd yr amcangyfrifir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau i oed ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwarïaid ymgynghorol wedi cael ei gyflogi i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod am y tybiaethau i gael eu defnyddio. | Gellir mesur effeithiau newidiadau i dybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth bensiynau net.<br><br>Fodd bynnag, mae'r tybiaethau'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. |
| Eiddo – Buddsoddiadau Partneriaeth Gyfyngedig | Mae'r buddsoddiadau eiddo mewn Partneriaethau Gyfyngedig yn cael eu prisio yn unol a chanllawiau a ddefnyddir yn eang drwy'r ddiwydiant. Nid yw'r buddsoddiadau yma | Cyfanswm o'r buddsoddiadau eiddo mewn Partneriaethau Gyfyngedig yw £46.3 miliwn. Mae yna risg fod y prisiad yma wedi'i dan-brisio neu gor-brisio yn y cyfrifon. |

| | | |
|---|---|---|
| | wedi'u rhestri'n gyhoeddus felly mae yna radd o amcangyfrif yn y prisiad. Gwnaed addasiadau gwerth teg i bontio'r bwlch amser rhwng y gwerthoedd ased net buddsoddi diweddaraf sydd ar gael. Gan ymgorffori'r symudiadau a welwyd yn y marchnadoedd cyfalaf yn y broses o addasu gwerth teg, cysylltodd Partners Group â gwahanol bartneriaid buddsoddi i gael arwyddion o gwmpas eu gwerthoedd asedau rhwyd cyntaf. Yn gyffredinol, mae addasiadau gwerth teg a gymhwyswyd yn ystod chwarter cyntaf 2020 yn sylweddol uwch na'r rhai a gymhwyswyd yn flaenorol. | |
| Asedau Amgen - Y Gronfa Incwm Amgen Strategol (Strategic Alternative Income Fund / SAIF) | Caiff y buddsoddiadau SAIF eu prisio yn unol â'r canllawiau a ddefnyddir yn eang yn y diwydiant. Nid yw'r buddsoddiadau hyn wedi'u rhestru'n gyhoeddus ac felly mae rhywfaint o amcangyfrif yn gysylltiedig â'r prisiad. | Cyfanswm y buddsoddiad SAIF yw £121 miliwn. Mae perygl y gallai'r buddsoddiad hwn gael ei ddatgan yn rhy isel neu'n rhy uchel yn y cyfrifon. |

## 6 Trosglwyddiadau i fewn o gronfeydd pensiwn eraill

| 2020-21 £'000 | | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| 0 | Trosglwyddiadau grŵp | 0 |
| 3,196 | Trosglwyddiadau unigol | 4,196 |
| **3,196** | | **4,196** |

## 7 Taliadau i Ymadawyr a Thaliadau Mewn Perthynas â Hwy

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| (153) | Ad-daliadau i aelodau yn gadael y gwasanaeth | (203) |
| 1 | Taliadau i aelodau yn ymuno a'r cynllun gwladol | 3 |
| 0 | Trosglwyddiadau grŵp i gynlluniau eraill | 0 |
| (3,443) | Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau eraill | (3,334) |
| **(3,595)** | | **(3,534)** |

## 8 Treuliau Rheoli

| 2020-21 £'000 | | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| (1,354) | Costau gweinyddol | (1,409) |
| (13,303) | Treuliau rheoli buddsoddiadau | (12,435) |
| (529) | Costau goruchwylio a llywodraethu | (567) |
| **(15,186)** | | **(14,411)** |

Ffioedd archwilio o £31,465 am 2021-22 wedi'u cynnwys yn y costau goruwchwylio a llywodraethu. (£28,266 am 2020-21).

### 8.1 Treuliadau Rheoli'r Buddsoddiadau

| 2021-22 | £'000 Cyfanswm | £'000 Ffioedd Rheoli | £'000 Ffioedd sy'n Gysylltiedig â Pherfformiad | £'000 Costau Trafodion |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau ar y cyd | 7,787 | 5,604 | 262 | 1,921 |
| Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 4,609 | 1,380 | 0 | 3,229 |
| | **12,396** | **6,984** | **262** | **5,150** |
| Ffioedd Ceidwad | 39 | | | |
| Cyfanswm | **12,435** | | | |

| 2020-21 | £'000 Cyfanswm | £'000 Ffioedd Rheoli | £'000 Ffioedd sy'n Gysylltiedig â Pherfformiad | £'000 Costau Trafodion |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau ar y cyd | 8,958 | 4,477 | 660 | 3,821 |
| Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 4,297 | 1,456 | 0 | 2,841 |
| | **13,255** | **5,933** | **660** | **6,662** |
| Ffioedd Ceidwad | 48 | | | |
| Cyfanswm | **13,303** | | | |

## 9 Incwm ar Fuddsoddiadau

| 2020-21 £'000 | | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| 23,898 | Incwm o buddsoddi ar y cyd | 20,076 |
| 8,265 | Incwm o buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 12,076 |
| 24 | Llog ar adneuon ariannol | (14) |
| **32,187** | | **32,138** |

## 10 Treth

| 2020-21 £'000 | | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| (51) | Treth Ataliedig - buddsoddi ar y cyd | (2) |
| **(51)** | | **(2)** |

## 11 Buddsoddiadau

11.1 Asedau buddsoddi net

| Gwerth teg 31/03/2021 £'000 | | Gwerth teg 31/03/2022 £'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau buddsoddi** | |
| | **Buddsoddi ar y cyd** | |
| 518,289 | Ecwitiau DU | 570,137 |
| 962,408 | Ecwitiau byd-eang | 987,519 |
| 15,352 | Ecwitiau Canada | 0 |
| 79,420 | Ecwitïau Ewropeaidd | 85,436 |
| 105,477 | Ecwitïau Japan | 109,595 |
| 32,241 | Ecwitïau Gwledydd y Môr Tawel | 0 |
| 267,934 | Ecwitïau Marchnadoedd Datblygol | 271,323 |
| 305,992 | ACS Cronfa Olrhain Ecwiti Carbon Isel y Byd | 324,448 |
| 258,679 | Llog Sefydlog | 247,621 |
| 61,172 | Mynegrifol | 31,515 |
| 84,314 | Asedau Amgen | 120,559 |
| **2,691,278** | | **2,748,153** |
| | **Buddsoddiadau Eraill** | |
| 338,043 | Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 461,700 |
| **338,043** | | **461,700** |
| 11,376 | **Adneuon Arian Parod** | 24,969 |
| 547 | **Incwm buddsoddi sy'n ddyledus** | 1,855 |
| 0 | **Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiannau** | 0 |
| **11,923** | | **26,824** |
| **3,041,244** | **Cyfanswm asedau buddsoddi** | **3,236,677** |
| | **Rhwymedigaethau buddsoddi** | |
| 0 | **Symiau sy'n daladwy ar gyfer pryniannau** | 0 |
| **0** | **Cyfanswm rhwymedigaethau buddsoddi** | **0** |
| **3,041,244** | **Asedau buddsoddi net** | **3,236,677** |

11.2 <u>Dadansoddiad o symudiadau o'r buddsoddiadau</u>

Yn ystod y flwyddyn, prynwyd cyfanswm o £219m o fuddsoddiadau a gwerthwyd cyfanswm o £151m. Mae costau prynu a gwerthu wedi'u cynnwys ym mhris prynu ac enillion gwerthu y buddsoddiad.

| | **Gwerth teg 31/03/2021 £'000** | **Cost £'000** | **Werthu £'000** | **Ffioedd wedi cynnwys yn NAV £'000** | **Symudiad ariannol £'000** | **Cynyddion/ (Colledion) heb ei realeiddio £'000** | **Gwerth teg 31/03/2022 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau ar y cyd | 2,691,278 | 126,369 | (122,483) | (6,474) | 0 | 59,463 | 2,748,153 |
| Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 338,043 | 93,102 | (28,818) | (3,950) | 0 | 63,323 | 461,700 |
| | **3,029,321** | **219,471** | **(151,301)** | **(10,424)** | **0** | **122,786** | **3,209,853** |
| **Balansau buddsoddi eraill** | | | | | | | |
| Adnau ariannol | 11,376 | 0 | 0 | 0 | 13,593 | 0 | 24,969 |
| Symiau i'w derbyn o werthiannau buddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm ar fuddsoddiadau i'w derbyn | 477 | 0 | 0 | 0 | 1,321 | 0 | 1,798 |
| Ad-daliadau treth i'w derbyn | 70 | 0 | 0 | 0 | (13) | 0 | 57 |
| Symiau sy'n daladwy am bryniadau buddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **3,041,244** | **219,471** | **(151,301)** | **(10,424)** | **14,901** | **122,786** | **3,236,677** |

| | **Gwerth teg 31/03/2020 £'000** | **Cost £'000** | **Werthu £'000** | **Ffioedd wedi cynnwys yn NAV £'000** | **Symudiad ariannol £'000** | **Cynyddion/ (Colledion) heb ei realeiddio £'000** | **Gwerth teg 31/03/2021 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau ar y cyd | 2,045,678 | 1,625,482 | (1,161,308) | (6,896) | 0 | 188,322 | 2,691,278 |
| Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 319,669 | 38,558 | (15,002) | (3,603) | 0 | (1,579) | 338,043 |
| | **2,365,347** | **1,664,040** | **(1,176,310)** | **(10,499)** | **0** | **186,743** | **3,029,321** |
| **Balansau buddsoddi eraill** | | | | | | | |
| Adnau ariannol | 12,215 | 0 | 0 | 0 | (839) | 0 | 11,376 |
| Symiau i'w derbyn o werthiannau buddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm ar fuddsoddiadau i'w derbyn* | 0 | 0 | 0 | 0 | 477 | 0 | 477 |
| Ad-daliadau treth i'w derbyn* | 57 | 0 | 0 | 0 | 13 | 0 | 70 |
| Symiau sy'n daladwy am bryniadau buddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **2,377,619** | **1,664,040** | **(1,176,310)** | **(10,499)** | **(349)** | **186,743** | **3,041,244** |

*Gwerthoedd 2020-21 wedi'u hailddatgan i ddangos yr incwm buddsoddi a'r adenillion treth sy'n ddyledus ar wahân

11.3 Cynyddion a gostyngiadau wedi eu realeiddio

| 2020-21 £'000 | | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| 465,490 | Buddsoddi ar y cyd | 53,587 |
| 2,022 | Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 1,682 |
| **467,512** | | **55,269** |

11.4 Dadansoddiad daearyddol o'r buddsoddiadau

| **Gwerth teg 31/03/21 £'000** | **Dadansoddiad daearyddol** | **Gwerth teg 31/03/22 £'000** |
|---|---|---|
| 1,122,806 | DU | 1,325,649 |
| 299,887 | Ewrop (heblaw DU) | 288,453 |
| 886,212 | Gogledd America | 964,677 |
| 182,072 | Siapan | 180,612 |
| 78,773 | Ymyl y Môr Tawel | 45,484 |
| 342,427 | Marchnadoedd sy'n datblygu | 318,344 |
| 51,981 | Cronfeydd ar y cyd Rhyngwladol | 53,781 |
| 77,086 | EMEA (Ewrop, Dwyrain Canol & Africa) | 59,677 |
| **3,041,244** | | **3,236,677** |

11.5 Dadansoddiad rheolwyr y Gronfa

| **Gwerth y farchnad 31/03/21** | | **Dadansoddiad rheolwr y gronfa** | | **Gwerth y farchnad 31/03/22** |
|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddiadau a reolir gan Bartneriaeth Bensiwn Cymru** | | | | |
| **£'000** | **%** | | **%** | **£'000** |
| 1,221,087 | 40.1 | Partneriaeth Pensiwn Cymru | 38.2 | 1,235,140 |
| **1,221,087** | **40.1** | | **38.2** | **1,235,140** |
| **Buddsoddiadau a reolir y tu allan i Bartneriaeth Bensiwn Cymru** | | | | |
| **£'000** | **%** | | **%** | **£'000** |
| 1,479,752 | 48.7 | BlackRock | 46.8 | 1,514,713 |
| 301,920 | 9.9 | Schroders | 13.6 | 440,490 |
| 38,485 | 1.3 | Partners Group | 1.4 | 46,334 |
| **1,820,157** | **59.9** | | **61.8** | **2,001,537** |
| **3,041,244** | **100.0** | | **100.0** | **3,236,677** |

11.6 Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

Mae'r Treuliau Rheoli (Tabl 8) yn cynnwys cost ein gwaith fel rhan o'r trefniadau ar y cyd i gyfuno buddsoddiadau ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. Y costau Goruchwylio a Llywodraethu yw costau cynnal blynyddol y gronfa sy'n cynnwys costau'r Awdurdod Cynnal a chostau eraill Ymgynghorwyr Allanol. Caiff y costau hyn eu hariannu'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r Treuliau Rheoli Buddsoddiadau yn ffioedd sy'n daladwy i Link Fund Solutions (gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru) ac maent yn cynnwys ffioedd rheolwr y gronfa (sydd hefyd yn cynnwys ffioedd y gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill), costau trafodion a ffioedd ceidwad. Mae'r costau hyn wedi'u seilio ar gyfran ganrannol pob Cronfa o asedau cyfun Partneriaeth Pensiwn Cymru ac fe'u didynnir o'r Gwerth Asedau Net. Nid yw ffioedd y rheolwr sylfaenol ar gyfer y Gronfa Credyd Byd-eang wedi'u cynnwys yn y tabl hwn; dangosir y ffioedd hyn yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dyfed. Gellir cael rhagor o fanylion ynghylch Partneriaeth Pensiwn Cymru yn yr Adroddiad Blynyddol.

Mae costau Partneriaeth Pensiwn Cymru a gafodd eu cynnwys yng nghyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2021-22:

**Partneriaeth Pensiwn Cymru**

| **31/03/21<br>£'000** | | **31/03/22<br>£'000** |
|---:|---|---:|
| | **Costau Goruchwylio a Llywodraethu y PPC** | |
| 88 | Costau rhedeg | 135 |
| | **Treuliau Rheoli Buddsoddiadau y PPC** | |
| 2,928 | Ffioedd Rheolwyr y Gronfa | 3,926 |
| 281 | Costau Trafodion | 227 |
| 147 | Ffioedd Ceidwad | 184 |
| **3,444** | | **4,472** |

## 12 Crynhoi buddsoddiadau

Roedd y buddsoddiadau canlynol yn cynrychioli mwy na 5% o gyfanswm asedau net y Gronfa ar 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2022:

| | **Eu gwerth ar 31 Mawrth 2022 £'000** | **Y gyfran o'r portffolio o fuddsoddiadau %** |
|---|---:|---:|
| Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Twf Byd-Eang) | 987,519 | 30.51 |
| Cronfa 'BlackRock Aquila Life UK Equity' | 570,136 | 17.61 |
| Cronfa 'BlackRock ACS World Low Carbon Tracker' | 324,448 | 10.02 |
| Cronfa 'BlackRock iShares Emerging Markets' | 271,323 | 8.38 |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Credyd Byd-Eang) | 247,621 | 7.65 |

| | Eu gwerth ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Y gyfran o'r portffolio o fuddsoddiadau % |
|---|---|---|
| Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Twf Byd-Eang) | 962,408 | 31.63 |
| Cronfa 'BlackRock Aquila Life UK Equity' | 518,105 | 17.03 |
| Cronfa 'BlackRock ACS World Low Carbon Tracker' | 305,992 | 10.06 |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Credyd Byd-Eang) | 258,679 | 8.50 |
| Cronfa 'BlackRock iShares Emerging Markets' | 252,653 | 8.30 |

## 13 Offerynnau Ariannol

### 13.1 Dosbarthiad o offerynnau ariannol

Mae polisïau cyfrifyddu yn disgrifio sut y mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau yn cael eu mesur, a sut y mae incwm a gwariant, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi symiau cario yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol (ac eithrio arian) yn ôl categori a phenawdau'r datganiad asedau net.

| 2020-21 | | | | | 2021-22 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled | Benthicia-dau a symiau sy'n dderbynia-dwy | Cost rhwymed-igaethau ariannol | Cyfanswm | | Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled | Benthicia-dau a symiau sy'n dderbynia-dwy | Cost rhwymed-igaethau ariannol | Cyfanswm |
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | **Asedau ariannol** | | | | |
| 2,691,278 | 0 | 0 | 2,691,278 | Buddsoddiadau ar y cyd | 2,748,153 | 0 | 0 | 2,748,153 |
| 338,043 | 0 | 0 | 338,043 | Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 461,700 | 0 | 0 | 461,700 |
| 0 | 20,174 | 0 | 20,174 | Arian Parod | 0 | 29,447 | 0 | 29,447 |
| 547 | 0 | 0 | 547 | Balansau buddsoddi eraill | 1,855 | 0 | 0 | 1,855 |
| 0 | 3,925 | 0 | 3,925 | Dyledwyr | 0 | 4,845 | 0 | 4,845 |
| **3,029,868** | **24,099** | **0** | **3,053,967** | | **3,211,708** | **34,292** | **0** | **3,246,000** |
| | | | | **Rhwymedigaethau ariannol** | | | | |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Balansau buddsoddi eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | (4,418) | (4,418) | Credydwyr | 0 | 0 | (3,396) | (3,396) |
| **0** | **0** | **(4,418)** | **(4,418)** | | **0** | **0** | **(3,396)** | **(3,396)** |
| **3,029,868** | **24,099** | **(4,418)** | **3,049,549** | **Cyfanswm** | **3,211,708** | **34,292** | **(3,396)** | **3,242,604** |

13.2 Elw a cholledion net o offerynnau ariannol

| 2020-21 £'000 | | 2021-22 £'000 |
|---:|---|---:|
| | **Asedau ariannol** | |
| 654,254 | Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled | 178,055 |
| **654,254** | **Cyfanswm asedau ariannol** | **178,055** |
| **0** | **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **0** |
| **654,254** | **Cyfanswm** | **178,055** |

13.3 Gwerth teg o offerynnau ariannol a rhwymedigaethau

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth cario yr asedau ariannol a'r rhwymedigaethau ariannol yn ôl dosbarth yr offeryn o'u cymharu â'u gwerthoedd teg:

| Swm a gariwyd 31/03/21 £'000 | Gwerth teg 31/03/21 £'000 | | Swm a gariwyd 31/03/22 £'000 | Gwerth teg 31/03/22 £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|
| | | **Asedau ariannol** | | |
| 2,483,219 | 3,029,868 | Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled | 2,552,697 | 3,211,708 |
| 24,099 | 24,099 | Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy | 34,292 | 34,292 |
| **2,507,318** | **3,053,967** | **Cyfanswm asedau ariannol** | **2,586,989** | **3,246,000** |
| | | **Rhwymedigaethau ariannol** | | |
| 0 | 0 | Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled | 0 | 0 |
| (4,418) | (4,418) | Rhwymedigaethau ariannol am gost wedi ei amorteiddio | (3,396) | (3,396) |
| **(4,418)** | **(4,418)** | **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **(3,396)** | **(3,396)** |
| **2,502,900** | **3,049,549** | **Cyfanswm** | **2,583,593** | **3,242,604** |

13.4 Prisio offerynnau ariannol yn cael eu cario yn ôl gwerth teg

Rhennir prisiad offerynnau ariannol yn dri dosbarth yn ôl ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddir i bennu'r gwerth teg. Mae trosglwyddiadau rhwng lefelau yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn y maent yn digwydd.

Lefel 1

Yr offerynnau ariannol a ddosberthir i Lefel 1 yw'r rheiny lle daw eu gwerth teg o'r prisiau rhestredig nas addaswyd ar farchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau cwbl debyg. Mae'r nwyddau a ddosberthir i lefel 1 yn cynnwys ecwitis a restrir, gwarannau llog sefydlog a restrir, gwarannau mynegrifol a restrir a chwmnïau buddsoddi neilltuol.

Dangosir y buddsoddiadau a restrir yn ôl y pris cynnig. Seilir gwerth cynnig y buddsoddiad yn ôl y cynnig a restrir ar farchnad y gyfnewidfa stoc berthnasol.

Lefel 2

Yr offerynnau ariannol a ddosberthir i Lefel 2 yw'r rheiny lle nad oes prisiau ar eu cyfer wedi'u rhestru ar y farchnad; er enghraifft lle caiff offeryn ei werthu ar farchnad na fernir ei bod yn

weithredol, neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu’r gwerth teg ac mae’r technegau hynny’n defnyddio mewnbynnau sy’n seiliedig i raddau helaeth ar ddata gweladwy'r farchnad.

Lefel 3

Yr offerynnau ariannol a ddosberthir i Lefel 3 yw’r rheiny lle mae un o leiaf o’r mewnbynnau a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn, heb fod wedi’i seilio ar ddata gweladwy'r farchnad. Byddai’r cyfryw offerynnau yn cynnwys partneriaethau cyfyngedig, lle pennir y gwerth teg gan brisiannau cyfnodol a ddarperir gan y rheiny sy’n rheoli’r bartneriaeth. Mae archwiliad annibynnol o’r bartneriaeth yn rhoi sicrwydd ynghylch y prisiad.

13.5 Sylfaen y Prisio Gwerth Teg

| **Disgrifiad o'r ased** | **Hierarchaeth brisio** | **Sylfaen y prisio** | **Mewnbynnau arsylladwy ac na ellir eu harsylwi** | **Materion o sensitifrwydd allweddol sy'n effeithio ar y prisiadau a roddwyd** |
|---|---|---|---|---|
| Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod | Lefel 1 | Bernir bod gwerth cario ymlaen yn werth teg oherwydd natur tymor byr yr offerynnau ariannol hyn | Heb fod yn ofynnol | Heb fod yn ofynnol |
| Buddsoddiadau eiddo cyfun: | Lefel 1 | Ymddiriedolaeth uned. Mae'n defnyddio pris cynnig y farchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifyddu. | Heb fod yn ofynnol | Heb fod yn ofynnol |
| Buddsoddiadau cyfun: cronfeydd ecwiti | Lefel 2 | Cyfrifir y Gwerth Asedau Net ar sail gwerth marchnadol yr asedau sylfaenol | Ffrydiau prisiau wedi'u gwerthuso | Heb fod yn ofynnol |
| Buddsoddiadau cyfun: cronfeydd incwm sefydlog | Lefel 2 | Cyfrifir y Gwerth Asedau Net ar sail gwerth marchnadol y gwarantau incwm sefydlog sylfaenol | Ffrydiau prisiau wedi'u gwerthuso | Heb fod yn ofynnol |
| Cronfeydd eiddo cyfun | Lefel 3 | Ceir gwerth teg o brisiadau cyfnodol a ddarperir gan y rhai sy'n rheoli'r bartneriaeth | Mewnbynnau arsylladwy-mae'r pris yn dibynnu ar wybodaeth nad yw ar gael i'r cyhoedd | Gallai newidiadau i lif arian disgwyliedig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon heb eu harchwilio effeithio ar brisiadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau cyfun: asedau amgen | Lefel 3 | Ceir gwerth teg o brisiadau cyfnodol a ddarperir gan reolwr cronfa asedau | Mewnbynnau na ellir eu harsylwi - mae'r gronfa'n agored i warant ac asedau eraill na fydd ganddynt werthoedd marchnadol y gellir eu hasesu'n rhwydd | Gall prisiadau ddibynnu ar fodelau prisio mewnol ac allanol. Gall newidiadau mewn safonau, polisïau neu arferion cyfrifyddu effeithio arnynt hefyd |

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi asedau a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa sydd wedi'u cynnwys yn y grwpiau 1 i 3, ar sail y gwerth y daw'r gwerth teg yn weladwy.

| **Gwerth teg ar 31 Mawrth 2022** | **Pris rhestredig y farchnad Lefel 1** | **Defnyddio mewnbynnau gweladwy Lefel 2** | **Gyda mewnbynnau sylweddol sy'n anweladwy Lefel 3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau ariannol** | | | | |
| Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled | 2,123 | 2,627,595 | 581,990 | 3,211,708 |
| Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy | 34,292 | 0 | 0 | 34,292 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **36,415** | **2,627,595** | **581,990** | **3,246,000** |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | | | |
| Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau ariannol am gost wedi ei amorteiddio | (3,396) | 0 | 0 | (3,396) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **(3,396)** | **0** | **0** | **(3,396)** |
| **Asedau ariannol net** | **33,019** | **2,627,595** | **581,990** | **3,242,604** |

| **Gwerth teg ar 31 Mawrth 2021** | **Pris rhestredig y farchnad Lefel 1** | **Defnyddio mewnbynnau gweladwy Lefel 2** | **Gyda mewnbynnau sylweddol sy'n anweladwy Lefel 3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau ariannol** | | | | |
| Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled | 10,005 | 2,606,964 | 412,899 | 3,029,868 |
| Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy | 24,099 | 0 | 0 | 24,099 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **34,104** | **2,606,964** | **412,899** | **3,053,967** |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | | | |
| Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau ariannol am gost wedi ei amorteiddio | (4,418) | 0 | 0 | (4,418) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **(4,418)** | **0** | **0** | **(4,418)** |
| **Asedau ariannol net** | **29,686** | **2,606,964** | **412,899** | **3,049,549** |

13.6 Cysoni mesuriadau gwerth teg o fewn lefel 3

| 2021-22 Math o Ased | Gwerth y farchnad 1 April 2021 £'000 | Pryniadau £'000 | Gwerth-iannau £'000 | Enillion / Colledion heb eu gwireddu £'000 | Enillion / Colledion wedi eu gwireddu £'000 | Gwerth y farchnad 31 March 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Amgen | 84,314 | 34,132 | 0 | 2,113 | 0 | 120,559 |
| Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 328,585 | 93,102 | (19,524) | 57,097 | 2,171 | 461,431 |
| **Cyfanswm** | **412,899** | **127,234** | **(19,524)** | **59,210** | **2,171** | **581,990** |

| 2020-21 Math o Ased | Gwerth y farchnad 1 Ebrill 2020 £'000 | Pryniadau £'000 | Gwerth-iannau £'000 | Enillion / Colledion heb eu gwireddu £'000 | Enillion / Colledion wedi eu gwireddu £'000 | Gwerth y farchnad 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Amgen | 53,199 | 32,669 | 0 | (1,554) | 0 | 84,314 |
| Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 319,402 | 22,095 | (7,575) | (7,351) | 2,015 | 328,585 |
| **Cyfanswm** | **372,601** | **54,764** | **(7,575)** | **(8,905)** | **2,015** | **412,899** |

13.7 Trosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2

Nid oedd dim trosglwyddiadau rhwng buddsoddiadau lefelau 1 a 2 yn ystod 2021-22.

## 14 Natur a maint y risg a berir gan offerynnau ariannol

14.1 Risg a rheoli risg

Mae'r Gronfa wedi datblygu proses ffurfiol o asesu risg ac mae'n cadw cofrestr ffurfiol o risgiau sy'n cael ei ddiweddaru yn flynyddol. Mae hyn yn sicrhau fod y risgiau yn cael eu clustnodi'n briodol ac yn cael eu hasesu a'u rheoli yn effeithiol. Am ragor of fanylion, dylir cyfeirio at wefan y Gronfa – www.cronfabensiwndyfed.org.uk

Prif risg hirdymor y Gronfa yw na fydd asedau'r Gronfa yn ddigon i dalu ei rhwymedigaethau (h.y. y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo i'r aelodau). Nod y gwaith o reoli'r risgiau buddsoddi felly yw lleihau cymaint â phosib ar y risg y bydd lleihad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a chynyddu cymaint â phosib ar y cyfleoedd i wneud enillion ar draws y portffolio cyfan. Drwy amrywio'r asedau mae'r Gronfa'n lleihau dylanwad risg y farchnad (risg prisiau, risg arian breiniol a risg cyfraddau llog) a risg credyd, a'i gadw i lefel dderbyniol. Mae'r Gronfa hefyd yn rheoli ei risg hylifedd i sicrhau y bydd digon o hylifedd i fodloni'r llif arian y rhagwelwyd y bydd ei angen ar y Gronfa. Rheolir y risgiau buddsoddi hyn gan yr Awdurdod yn rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risgiau'r Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Pennir polisïau rheoli risg i glustnodi a dadansoddi'r risgiau a wynebir gan weithrediadau pensiwn yr Awdurdod. Adolygir y polisïau yn rheolaidd i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn gweithgareddau ac amodau'r farchnad.

14.2 Risg y farchnad

Risg y Farchnad yw’r risg o golledion yn sgil newidiadau ym mhrisiau ecwitis, cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae gweithgareddau buddsoddi y Gronfa yn golygu ei bod yn agored i risg y farchnad yn neilltuol o ran yr ecwitis y mae’n eu dal. Mae lefel y risg y mae’r Gronfa yn agored iddo yn dibynnu ar amodau’r farchnad, y disgwyliadau o ran newidiadau mewn prisiau ac elw yn y dyfodol a chymysgedd yr asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw clustnodi a rheoli risg y farchnad a’i gadw o fewn terfynau derbyniol a hynny mewn modd sy’n ceisio’r elw mwyaf posib.

Yn gyffredinol rheolir anwadalwch eithafol yn risg y farchnad drwy gael portffolio sy’n amrywiol o ran sectorau daearyddol a diwydiannol a gwarannau unigol. I liniaru risg y farchnad mae’r Pwyllgor a’i ymgynghorydd annibynnol yn dilyn modd priodol o fonitro amodau’r farchnad a dadansoddi’r meincnod.

Mae gan y Gronfa dair ffordd o reoli’r risgiau hyn:

- Defnyddir dadansoddiad o ffactorau risg i fonitro risg y farchnad y mae’r Gronfa yn agored iddo i sicrhau fod y risg o fewn terfynau goddefol
- Cyfyngir ar risgiau neilltuol drwy bennu uchafswm, wedi’i bwysoli ar sail risg, ar gyfer rhai buddsoddiadau unigol
- Drwy fuddsoddi mewn portffolio sy’n amrywiol o ran rheolwyr a buddsoddiadau ac eto drwy i ragolygon yr actiwari gyfeirio at elw cymharol bwyllog dros yr hirdymor er lleihau’r posibilrwydd o danberfformio

14.3 Risg prisiau eraill

Y risgiau eraill yw’r rhai sy’n ymwneud â’r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhrisiau’r farchnad (ar wahân i’r rheiny a berir gan risg cyfraddau llog a risg cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau hynny’n cael eu hachosi gan ffactorau sy’n benodol i’r offeryn unigol, ei gyhoeddiad neu i ffactorau sy’n effeithio’r holl gyfryw offerynnau yn y farchnad.

Mae’r Gronfa’n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae hyn yn ymwneud â buddsoddiadau nad oes sicrwydd ynghylch eu prisiau yn y dyfodol. Mae risg o golled gyfalafol ynghlwm wrth bob buddsoddiad mewn gwarannau. Pennir uchafswm y risg a berir gan offerynnau ariannol gan eu gwerth teg.

Nid yw pensiynau buddiannau diffiniedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn gysylltiedig â pherfformiad y farchnad stoc, fe'u nodir mewn statud. Er y gall gwerthoedd buddsoddi byrdymor amrywio, caiff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel buddsoddwr hirdymor ei reoli'n ddiogel er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau tymor hwy.

Mae rheolwyr buddsoddi y Gronfa yn lleihau’r risg prisiau drwy amrywio’r portffolio ac mae’r Pwyllgor yn monitro’r gwarannau a’r offerynnau ariannol eraill a ddewisir i sicrhau eu bod o fewn y terfynau a bennwyd yn strategaeth fuddsoddi y Gronfa.

14.4 Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd

Pennir newidiadau posib mewn prisiau ar sail yr anwadalwch hanesyddol a welwyd mewn elw gan ddosbarth o ased. Mae'r anwadalwch posib a nodir isod yn gyson ag un symudiad gwyro safonol yn y newid yng ngwerth yr asedau yn ystod y tair blynedd ddiweddaraf:

| **Math o Ased** | **Symudiad potensial y farchnad (+/-)** |
|---|---|
| Ecwitis | 14.40% |
| Bondiau | 6.50% |
| Asedau Amgen | 6.70% |
| Eiddo | 3.70% |
| Arian parod | 1.10% |

Pe byddai pris y Gronfa ar y farchnad wedi codi/disgyn yn unol â'r uchod byddai'r newid yn yr asedau net ar gael i dalu buddion fel a ganlyn:

| **Math o Ased** | **Gwerth ar 31 Mawrth 2022 £'000** | **Newid %** | **Gwerth ar gynydd £'000** | **Gwerth ar ostyngiad £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Arian parod | 24,969 | 1.10% | 25,244 | 24,694 |
| Ecwitis DU | 570,137 | 14.40% | 652,237 | 488,037 |
| Ecwitis Tramor | 790,802 | 14.40% | 904,677 | 676,926 |
| Ecwitis Cyfun Byd-eang gan gynnwys y DU | 987,519 | 14.40% | 1,129,721 | 845,316 |
| Asedau Amgen | 120,559 | 6.70% | 128,636 | 112,481 |
| Bondiau | 279,136 | 6.50% | 297,280 | 260,992 |
| Eiddo | 461,700 | 3.70% | 478,782 | 444,617 |
| Gwerthiannau i'w derbyn | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Pryniadau i'w talu | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Incwm i'w derbyn | 1,855 | 0.00% | 1,855 | 1,855 |
| **Cyfanswm Asedau** | **3,236,677** | | **3,618,432** | **2,854,918** |

| **Math o Ased** | **Gwerth ar 31 Mawrth 2021 £'000** | **Newid %** | **Gwerth ar gynydd £'000** | **Gwerth ar ostyngiad £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Arian parod | 11,376 | 0.80% | 11,467 | 11,285 |
| Ecwitis DU | 518,289 | 15.30% | 597,587 | 438,991 |
| Ecwitis Tramor | 806,416 | 15.30% | 929,797 | 683,034 |
| Ecwitis Cyfun Byd-eang gan gynnwys y DU | 962,408 | 15.30% | 1,109,657 | 815,160 |
| Asedau Amgen | 84,314 | 3.80% | 87,518 | 81,110 |
| Bondiau | 319,851 | 6.30% | 340,001 | 299,700 |
| Eiddo | 338,043 | 2.20% | 345,480 | 330,606 |
| Gwerthiannau i'w derbyn | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Pryniadau i'w talu | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Incwm i'w derbyn | 547 | 0.00% | 547 | 547 |
| **Cyfanswm Asedau** | **3,041,244** | | **3,422,054** | **2,660,433** |

14.4.1 Sensitifrwydd asedau y rhoddir gwerth lefel 3 iddynt

| Math o Ased | Gwerth ar 31 March 2022 £'000 | Newid % | Gwerth ar gynydd £'000 | Gwerth ar ostyngiad £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Asedau amgen | 120,559 | 6.70% | 128,637 | 112,482 |
| Buddsoddiadau eiddo ar y cyd | 461,431 | 3.70% | 478,504 | 444,358 |
| **Cyfanswm** | **581,990** | | **607,141** | **556,840** |

14.5 Risg cyfraddau llog

Prif ddiben y Gronfa wrth fuddsoddi mewn asedau ariannol yw ennill elw ar y buddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog sef y risg y bydd gwerth teg neu lif arian offeryn ariannol yn y dyfodol, yn amrywio oherwydd newid yng nghyfraddau llog y farchnad.

Caiff risg cyfraddau llog y Gronfa ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro'r hyn fuddsoddwyd mewn asedau ariannol yn erbyn y meincnodau perthnasol.

Yn rhan o'i brisiad tair blynedd, ac yn unol â gorchmynion y Datganiad Strategaeth Gyllido, bydd yr Actiwari ond yn rhagweld elw cymharol bwyllog dros yr hirdymor er lleihau'r risg o danberfformio. Caiff y cynnydd ei ddadansoddi mewn prisiadau teirblwydd ar gyfer pob cyflogwr.

Mae ymwneud uniongyrchol y Gronfa â symudiadau yn y cyfraddau llog ar 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2022 wedi'u nodi isod. Mae'r datgeliadau hyn yn dangos risg cyfraddau llog yn ôl gwerth teg yr asedau ariannol sy'n sail iddynt:

| 31/03/21 £'000 | Math o Ased | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| 11,376 | Arian cyfwerth ag arian parod | 24,969 |
| 8,798 | Arian parod gyda CSG | 4,478 |
| 319,851 | Bondiau | 279,137 |
| **340,025** | **Cyfanswm** | **308,584** |

14.6 Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog

Gall cyfraddau llog amrywio a gallant effeithio incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion.

Mae’r dadansoddiad canlynol yn tybio bod yr holl newidynnau eraill, yn neilltuol cyfraddau cyfnewid, yn aros yn gyson, ac mae’n dangos yr effaith yn y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion yn ôl newid +/- 1% yn y cyfraddau llog:

| **Math o Ased** | **Gwerth ar 31/03/22** | **Newid yn y flwyddyn o asedau net ar gael i dalu budd-daliadau** | |
|---|---|---|---|
| | | **+1%** | **-1%** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Arian cyfwerth ag arian parod | 24,969 | 250 | (250) |
| Arian gyda CSC | 4,478 | 45 | (45) |
| Bondiau | 279,137 | 2,791 | (2,791) |
| **Cyfanswm newid mewn asedau** | **308,584** | **3,086** | **(3,086)** |

| **Math o Ased** | **Gwerth ar 31/03/21** | **Newid yn y flwyddyn o asedau net ar gael i dalu budd-daliadau** | |
|---|---|---|---|
| | | **+1%** | **-1%** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Arian cyfwerth ag arian parod | 11,376 | 114 | (114) |
| Arian gyda CSC | 8,798 | 88 | (88) |
| Bondiau | 319,851 | 3,199 | (3,199) |
| **Cyfanswm newid mewn asedau** | **340,025** | **3,401** | **(3,401)** |

14.7 Cyfraddau Disgownt

Mae’r modd yr amcangyfrifir y rhwymedigaethau net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ystyriaethau cymhleth yn ymwneud â’r gyfradd disgownt a ddefnyddir, cyfradd y codiad a ragwelir mewn cyflogau, newid yn yr oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau a’r elw disgwyliedig ar asedau’r gronfa. Cyflogir cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i’r Awdurdod ynghylch y tybiaethau i’w defnyddio.

14.8 Risg Arian Breiniol

Risg arian breiniol yw’r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn amrywio yn y dyfodol oherwydd y newid yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae’r Gronfa yn agored i risg breiniol o ran offerynnau ariannol sy’n cael eu dal mewn unrhyw arian heblaw arian ymarferol y Gronfa (£ Sterling Prydain).Mae’r Gronfa’n dal asedau ariannol ac anariannol mewn ffurfiau arian heblaw am £ Sterling Prydain.

Caiff risg arian breiniol y Gronfa ei fonitro’n rheolaidd gan y Pwyllgor yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro i ba raddau y mae’n gael ei heffeithio gan gyfraddfeydd arian yn amrywio.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi buddsoddiadau'r Gronfa mewn arian breiniol ar 31 Mawrth 2020 a 31 Mawrth 2022:

| Gwerth teg 31/03/21 £'000 | Math o Ased | Gwerth teg 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| 1,878,163 | Buddsoddiadau ar y cyd tramor | 1,876,457 |
| 40,276 | Buddsoddiadau eiddo ar y cyd tramor | 34,572 |
| 0 | Arian parod | 0 |
| **1,918,439** | **Cyfanswm asedau tramor** | **1,911,029** |

14.9 Dadansoddiad sensitifrwydd risg arian breiniol

Roedd buddsoddiadau cyfun y Gronfa mewn arian breiniol ar 31 Mawrth 2022 yn 6.1% (6.8% yn 2020-21).

Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod yr holl newidynnau eraill, yn neilltuol cyfraddau llog, yn aros yn gyson.

Pe byddai'r bunt yn cryfhau/gwanhau yn ôl 6.1% yn erbyn yr amrywiol arian y mae gan y Gronfa fuddsoddiadau ynddynt, byddai'r asedau net ar gael i dalu buddion yn cynyddu/lleihau fel a ganlyn:

| Math o Ased | Gwerth teg 31/03/21 | Newid yn y flwyddyn o asedau net ar gael i dalu budd-daliadau | |
|---|---|---|---|
| | | +6.1% | -6.1% |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Buddsoddiadau ar y cyd tramor | 1,876,457 | 114,464 | (114,464) |
| Buddsoddiadau eiddo ar y cyd tramor | 34,572 | 2,109 | (2,109) |
| Arian parod | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm newid mewn asedau** | **1,911,029** | **116,573** | **(116,573)** |

| Math o Ased | Gwerth teg 31/03/21 | Newid yn y flwyddyn o asedau net ar gael i dalu budd-daliadau | |
|---|---|---|---|
| | | +6.8% | -6.8% |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Buddsoddiadau ar y cyd tramor | 1,878,163 | 127,715 | (127,715) |
| Buddsoddiadau eiddo ar y cyd tramor | 40,276 | 2,739 | (2,739) |
| Arian parod | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm newid mewn asedau** | **1,918,439** | **130,454** | **(130,454)** |

14.10 Risg credydd

Risg credyd yw'r risg y bydd partïon eraill sy'n rhan o drafodion neu offeryn ariannol yn methu â thalu arian sy'n ddyledus i'r Gronfa gan beri i'r Gronfa ddioddef colled ariannol. Fel arfer mae gwerth marchnad y buddsoddiadau yn cynnwys asesiad o gredyd yn eu prisiau ac felly darparwyd yn benodol ar gyfer y risg o golled yng ngwerth asedau a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa.

Yn ei hanfod mae holl bortffolio buddsoddi y Gronfa yn agored i risg credyd o ryw fath. Fodd bynnag bydd dewis partïon contract, broceriaid a sefydliadau ariannol o safon uchel yn lleihau cymaint â phosib ar y risg credyd a allai godi drwy fethu â chwblhau trafodion yn brydlon.

Ar hyn o bryd ni asesir teilyngdod credyd y Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa ac nid oes terfynau credyd unigol yn cael eu gosod. Y risg posib yw y methir â chasglu cyfraniadau oddi wrth gyflogwyr sydd heb aelodau yn cyfrannu (e.e. risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr â nifer ddirywiol fechan o aelodau yn cyfrannu) felly mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro newidiadau yn yr aelodaeth yn flynyddol.

Rhaid i gyflogwyr sydd yn ymuno â'r Gronfa o'r newydd gytuno i ddarparu bond i atal y risg o golled ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol os bydd iddo fethu â bodloni ei rwymedigaethau pensiwn ar derfynu'r cynllun. Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwarantu i fodloni unrhyw rwymedigaeth y bydd y Gronfa yn gyfrifol amdani yn y dyfodol o ganlyniad i derfynu'r cynllun. Gwneir hyn er sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adennill actiwaraidd yn cael eu cadw'n rhesymol ar gyfer cyflogwyr llai.

Ni ddelir gwarant gyfochrog i sicrhau asedau ariannol. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin fel arfer yn caniatáu credyd i gyflogwyr.

Caiff pob buddsoddiad a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi – Northern Trust, ei ddal yn enw Cronfa Bensiwn Dyfed ac felly os bydd y rheolwr buddsoddi yn methu ni fydd buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu rhestru ymhlith asedau'r rheolwr hwnnw.

Caiff unrhyw arian parod sy'n cael ei ddal gan Cyngor Sir Gaerfyrddin ei fuddsoddi yn unol a'r rhestr graddio credyd gwrthbartion sydd wedi ei gymeradwyo.

14.11 Risg hylifedd

Mae hwn yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai'r Gronfa fod heb ddigon o arian i fodloni ei hymrwymiadau i wneud taliadau.

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin system gynhwysfawr o reoli llif arian sy'n sicrhau y bydd arian ar gael os bydd ei angen.

Mae'r swm a ddelir yng nghyfrif banc y Gronfa yn ddigon i fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa a chaiff unrhyw arian dros ben ei fuddsoddi. Actiwariaid y Gronfa sy'n pennu'r cyfraniadau y mae'n rhaid eu talu i sicrhau y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Natur hylifol sydd i'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Gronfa er y gallai unrhyw orfodaeth i droi'r buddsoddiadau yn arian beri colled ariannol.

## 15 Asedau cyfredol

| 31/03/21 £'000 | | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| | Cyfraniadau dyledus gan gyflogwyr | |
| 1,784 | - Cyflogwyr | 2,291 |
| 1,771 | - Gweithwyr | 2,188 |
| 8,798 | Balansau arian parod | 4,478 |
| 370 | Dyledwyr | 366 |
| **12,723** | | **9,323** |

15.1 Dadansoddiad o Asedau Cyfredol

| 31/03/21 £'000 | | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| 11,462 | Awdurdodau lleol | 7,796 |
| 1 | Cyrff GIG | 0 |
| 1,260 | Cyrff eraill ac unigolion | 1,527 |
| **12,723** | | **9,323** |

## 16 Rhwymedigaethau cyfredol

| 31/03/21 £'000 | | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| (2,975) | Budd-daliadau heb eu talu | (1,493) |
| (1,443) | Credydwyr | (1,903) |
| **(4,418)** | | **(3,396)** |

16.1 Dadansoddiad o Rhwymedigaethau Cyfredol

| 31/03/21 £'000 | | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| (680) | Refeniw a Thollau EM | (763) |
| (367) | Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | (336) |
| (3,371) | Cyrff eraill ac unigolion | (2,297) |
| **(4,418)** | | **(3,396)** |

## 17 Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae'n statudol ofynnol i Gynlluniau Pensiwn Galwedigaethol ddarparu trefniadau mewnol o ran Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY). Mae gan Gronfa Bensiwn Dyfed ddarparwyr ar y cyd: Prudential, Standard Life, ac UTMOST lle mae ystod o ddewisiadau o ran buddsoddi ar gael.

Aelodau unigol y Cynllun sydd i bennu faint y maent am gyfrannu (yn amodol ar derfynau a bennwyd gan Refeniw a Thollau EM) ac ar elfennau neu gynnwys y buddsoddiad.

Mae'r cyfraniadau i gynlluniau CGY a fuddsoddir ar wahan a gwerth y buddsoddiadau hynny ar ddyddiad y fantolen, wedi'u nodi isod:

| Darparwyr CGY | Gwerth ar 31/03/21 | Cyfraniadau | Gwariant | Newid yng ngwerth y farchnad | Gwerth ar at 31/03/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ '000 | £ '000 | £ '000 | £ '000 | £ '000 |
| Prudential* | 6,276 | 0 | 0 | 0 | 6,276 |
| UTMOST | 431 | 5 | (15) | 14 | 435 |
| Standard Life | 3,007 | 406 | (615) | 151 | 2,949 |
| **Cyfanswm** | **9,714** | **411** | **(630)** | **165** | **9,660** |

* Nid yw'r Gronfa wedi derbyn datganiad cyfrifon Prudential ar gyfer naill ai 2020-21 neu 2021-22. £6,276k oedd y gwerth ar 31 Mawrth 2020.

## 18 Trefniadau ariannu

Er mwyn cydymffurfio gyda Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, mae actiwari'r Gronfa yn cynnal prisiant actiwaraidd llawn bob tair mlynedd er mwyn sefydlu lefel cyfraniadau'r cyflogwyr am y tair mlynedd nesaf. Mae'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yma wedi'u seilio ar y prisiad 31 Mawrth 2019.

Am fwy o fanylion, ac i weld y Datganiad Strategath Gyllido (DSG), dylid cyfeirio at wefan y Gronfa – www.cronfabensiwndyfed.org.uk

## 19 Trosglwyddiadau Partion Perthnasol

Mae'r Gronfa yn cael ei weinyddu gan Cyngor Sir Caerfyrddin, ac o ganlyniad mae yna berthnyas cryf rhwng yr Awdurdod a'r Gronfa. Yn ogystal, mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Awdurdod yn gyfrifol am gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa.

Gwnaeth yr Awdurdod ddioddef costau o £1.145 miliwn (2020-2021: £1.154 miliwn) ynglyn â gweinyddiath y Gronfa ac fe wnaeth y Gronfa ad-dalu'r costau yma.

Yr Awdurdod yw'r cyflogwr mwyaf o'r holl gyflogwyr yn y Gronfa ac fe wnaeth gyfraniadau o £37.524 miliwn i'r Gronfa yn 2021-2022 (2020-2021: £36.295 miliwn).

Mae'r Gronfa yn dal rhan o'i arian parod gyda'r Awdurdod er mwyn cyfarfod a thaliadau dyddiol y Gronfa. Mae'r arian yma yn cael ei fuddsoddi ar y Farchnadoedd Arian gan adran Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, roedd gan y Gronfa falans buddsoddi ar gyfartaledd o £14.93 miliwn (2020-21: £26.18 miliwn) yn ennill llog o £11,261 (2020-2021: £47,300).

### 19.1 Llywodraethu

Pwyllgor Pensiwn

Mae gan y Gronfa dri aelod ac un dirprwy aelod ar y Pwyllgor Pensiwn. Yn ystod 2021-22, rhain oedd Cynghorydd Elwyn Williams (aelod gweithredol), Cynghorydd Deryk Cundy (aelod gweithredol), Cynghorydd Jim Jones (aelod gweithredol) a'r Cynghorydd Dai Thomas (aelod gweithredol) oedd y dirprwy aelod.

Bu gan Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Mr Chris Moore, sydd yn Swyddog Adran 151 i'r Awdurdod, ran allweddol yn rheolaeth ariannol y Gronfa. Mae ef yn aelod gweithredol o'r Gronfa.

Mae'n ofynnol i aelodau'r Pwyllgor, a'r Uwch Swyddogion sy'n cynghori'r Pwyllgor, i ddatgan unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt ym mhob cyfarfod. Mae aelodau'r Pwyllgor a Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn cronni eu budd-daliadau mewn cydymffurfiaeth a'r rheolau sy'n amgylchynnu cynghoryddion a gweithwyr cyrff cyflogi y Gronfa.

Y Bwrdd Pensiwn

Cafodd Bwrdd Pensiwn ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 11 Chwefror 2015 a bydd yn weithredol o 1 Ebrill 2015 ymlaen yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'n cynnwys tri cynrychiolydd cyflogwr, tri cynrychiolydd aelodau, a chadeirydd annibynnol.

Am fwy o fanylion, ac i weld y Polisi Llywodraethu dylir cyfeirio at wefan y Gronfa – www.cronfabensiwndyfed.org.uk a'r Adroddiad a Chyfrion Blynyddol 2020-21.

### 19.2 Prif Bersonél Rheoli

Swyddog Adran 151 y gronfa yw prif bersonél rheoli'r gronfa. Nodir isod gyfanswm y taliadau sy'n daladwy i'r prif bersonél rheoli:

| **31/03/21** | | **31/03/22** |
|---:|---|---:|
| **£'000** | | **£'000** |
| 15 | Budd-daliadau tymor byr | 15 |
| 4 | Budd-daliadau ôl-gyflogaeth | 4 |
| **19** | | **19** |

## 20 Cyfraddau cyfrannu y cyrff cyflogi, y budd-daliadau a thalwyd a'r cyfraniadau a dderbyniwyd

| 2020-21 | | | | | 2021-22 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd cyfrannu % | Cyfrania-dau Diffyg £'000 | Cyfran-iadau £'000 | Budd-daliadau a talwyd £'000 | | Cyfradd cyfrannu % | Cyfrania-dau Diffyg £'000 | Cyfran-iadau £'000 | Budd-daliadau a talwyd £'000 |
| | | | | **Cyrff Rhestredig** | | | | |
| 19.9 | (2,594) | 38,888 | 38,134 | Cyngor Sir Caerfyrddin | 19.9 | (2,695) | 40,217 | 40,757 |
| 19.8 | (1,988) | 21,868 | 19,803 | Cyngor Sir Benfro | 19.8 | (2,066) | 23,604 | 19,311 |
| 20.1 | (2,149) | 13,838 | 12,884 | Cyngor Sir Ceredigion | 20.1 | (2,232) | 14,605 | 12,802 |
| 17.8 | (6) | 6,287 | 3,116 | Swyddfa y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys | 17.8 | (7) | 6,681 | 3,405 |
| 18.1 | (188) | 1,667 | 1,511 | Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | 18.1 | (195) | 1,752 | 2,005 |
| 16.2 | 0 | 276 | 291 | Coleg Ceredigion | 19.7 | 0 | 311 | 400 |
| 16.1 | 122 | 1,619 | 1,143 | Coleg Sir Gar | 20.0 | 0 | 2,020 | 1,214 |
| 15.8 | (90) | 717 | 879 | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 19.9 | (287) | 876 | 826 |
| 15.0 | 90 | 1,208 | 385 | Coleg Sir Benfro | 18.6 | 28 | 1,529 | 460 |
| | (6,803) | 86,368 | 78,146 | | | (7,454) | 91,595 | 81,180 |
| | | | | **Cyrff Dynodedig** | | | | |
| 23.0 | 0 | 13 | 13 | Cyngor Tref Aberystwyth | 25.6 | (4) | 15 | 17 |
| 0.0 | 0 | 0 | 0 | Cyngor Tref Aberaeron | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| 17.9 | 18 | 69 | 112 | Cyngor Tref Caerfyrddin | 22.4 | (25) | 97 | 96 |
| 21.6 | 0 | 37 | 0 | Cyngor Tref Cwmaman | 20.9 | 1 | 45 | 0 |
| 21.7 | 0 | 16 | 0 | Cyngor Cymunud Llanedi | 24.1 | 0 | 21 | 0 |
| 24.0 | 1 | 6 | 4 | Cyngor Cymuned Gorslas | 28.8 | (0) | 7 | 4 |
| - | 0 | 12 | 43 | Cyngor Tref Hwlffordd | - | 0 | 12 | 37 |
| 27.6 | 10 | 15 | 12 | Cyngor Tref Cydweli | 27.6 | 8 | 19 | 12 |
| 20.7 | 0 | 2 | 1 | Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr | 25.9 | 0 | 3 | 1 |
| 0.0 | 0 | 0 | 1 | Cyngor Cymuned Llanarthne | 19.4 | 0 | 1 | 1 |
| 15.9 | 6 | 219 | 241 | Cyngor Gwledig Llanelli | 19.9 | (53) | 269 | 250 |
| 19.1 | 8 | 64 | 111 | Cyngor Tref Llanelli | 20.3 | 15 | 75 | 100 |
| 15.9 | 0 | 8 | 0 | Cyngor Cymuned Llangennech | 22.9 | 3 | 15 | 0 |
| 19.5 | 5 | 54 | 17 | Cyngor Cymuned Llannon | 25.8 | 6 | 41 | 30 |
| 19.6 | (2) | 68 | 66 | Cyngor Tref Penbre a Phorth Tywyn | 17.3 | (12) | 59 | 19 |
| 16.3 | (2) | 11 | 12 | Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod | 22.5 | (6) | 14 | 11 |
| 16.6 | 1 | 14 | 0 | Cyngor Tref Penfro | 19.6 | 2 | 17 | 0 |
| 13.5 | 1 | 11 | 0 | Cyngor Tref Doc Penfro | 22.7 | 2 | 16 | 0 |
| | 46 | 619 | 633 | | | (63) | 726 | 578 |

| 2020-21 | | | | | 2021-22 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd cyfrannu | Cyfrania- dau Diffyg | Cyfran-iadau | Budd-daliadau a thalwyd | | Cyfradd cyfrannu | Cyfrania-dau Diffyg | Cyfran-iadau | Budd-daliadau a thalwyd |
| % | £'000 | £'000 | £'000 | | % | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | **Cyrff a Dderbyniwyd** | | | | |
| | | | | **Cyrff Cymunedol a Dderbyniwyd** | | | | |
| 17.9 | 12 | 46 | 31 | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion | 21.1 | 8 | 46 | 31 |
| 15.1 | (22) | 992 | 1,177 | Gyrfa Cymru | 19.9 | 0 | 1,209 | 1,292 |
| 17.0 | 11 | 31 | 35 | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin | 22.9 | 3 | 42 | 36 |
| 27.6 | 0 | 2 | 14 | Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin | 0.0 | 0 | 2 | 14 |
| 15.9 | 2 | 12 | 42 | Iaith Cyf (Cwmni Iaith) | 20.2 | 0 | 15 | 42 |
| 23.3 | 5 | 3 | 16 | Cartref Cheshire y Cwm | 26.9 | 2 | 3 | 16 |
| 0.0 | 0 | 0 | 39 | Bwrdd Claddu Llanelli | 0.0 | 0 | 0 | 39 |
| 11.7 | 11 | 68 | 11 | Menter Bro Dinefwr | 16.7 | 13 | 88 | 38 |
| 10.5 | 31 | 32 | 33 | Menter Cwm Gwendraeth | 17.6 | 14 | 47 | 62 |
| 10.8 | 1 | 62 | 0 | Menter Gorllewin Sir Gar | 13.3 | 2 | 79 | 0 |
| 7.4 | (2) | 12 | 10 | Menter Iaith Castell Nedd a Port Talbot | 9.5 | 0 | 15 | 10 |
| 19.3 | 0 | 1 | 10 | Cymdeithas Cymuned a Chwaraeon Arberth a’r Cylch | 22.8 | 0 | 5 | 10 |
| 20.1 | 1 | 58 | 100 | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro | 22.7 | 0 | 62 | 62 |
| 13.7 | 5 | 93 | 68 | PLANED | 19.2 | 0 | 101 | 34 |
| 15.8 | (6) | 402 | 188 | Tai Ceredigion/Barcud | 21.4 | 0 | 316 | 280 |
| 18.4 | 77 | 540 | 587 | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 22.0 | 0 | 622 | 559 |
| 22.3 | 90 | 11 | 229 | Prifysgol Aberystwyth | 25.1 | 92 | 8 | 210 |
| 14.7 | (25) | 368 | 473 | Cyngor Llyfrau Cymru | 19.7 | 0 | 414 | 453 |
| 14.8 | 6 | 25 | 61 | Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru | 21.2 | 0 | 24 | 44 |
| 15.8 | (4) | 19 | 75 | Tribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru | 15.3 | 0 | 17 | 58 |
| 14.2 | 1 | 1 | 0 | Nofio Arberth | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| | 194 | 2,778 | 3,199 | | | 134 | 3,115 | 3,290 |
| | | | | **Cyrff trosglwyddo a dderbyniwyd** | | | | |
| 19.3 | 0 | 18 | 64 | Pobl Group | 22.8 | 0 | 18 | 46 |
| 0.0 | 0 | 0 | 14 | DANFO | 0.0 | 0 | 0 | 14 |
| 15.3 | 0 | 627 | 24 | Llesiant Delta Wellbeing | 17.3 | 10 | 822 | 198 |
| 0.0 | 0 | 3 | 77 | Human Support Group (HSG) | 0.0 | 0 | 0 | 78 |
| 23.6 | 0 | 26 | 5 | Compass Contract Services Ltd | 0.0 | 0 | 0 | 1 |
| 22.2 | 0 | 9 | 0 | Burry Port Marina Ltd | 22.2 | 0 | 12 | 0 |
| 0.0 | 0 | 0 | 0 | Adapt Business Services | 46.2 | 0 | 9 | 0 |
| 23.4 | 0 | 5 | 0 | Visit Pembrokeshire | 23.4 | 0 | 16 | 0 |
| | 0 | 688 | 184 | | | 10 | 877 | 337 |

| 2020-21 | | | | | 2021-22 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd cyfrannu** | **Cyfrania- dau Diffyg** | **Cyfran-iadau** | **Budd-daliadau a thalwyd** | | **Cyfradd cyfrannu** | **Cyfrania- dau Diffyg** | **Cyfran-iadau** | **Budd-daliadau a thalwyd** |
| **%** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **%** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | **Cyrff eraill perthnasol heb weithwyr pensiynadwy** | | | | |
| 0.0 | 0 | 6 | 7 | Asiantaeth Trwyddedau Gyrwyr a Cherbydau | 0.0 | 0 | 6 | 7 |
| 0.0 | 0 | 24 | 13 | Ymddiriedolaeth Pwll Nofio Aberteifi | 0.0 | 0 | 0 | 13 |
| 0.0 | 0 | 64 | 110 | PRISM | 0.0 | 0 | 0 | 74 |
| 0.0 | 0 | 53 | 325 | Pwyllgor Llysoedd Ynadon Dyfed-Powys | 0.0 | 0 | 53 | 325 |
| 0.0 | 0 | 1 | 7 | Canolfan y Teulu, Caerfyrddin | 0.0 | 0 | 1 | 7 |
| 0.0 | 0 | 2 | 4 | Cyngor Tref Aberdaugleddau | 0.0 | 0 | 2 | 4 |
| 0.0 | 0 | 0 | 2 | Mencap | 0.0 | 0 | 0 | 2 |
| 0.0 | 0 | 0 | 7,112 | Cyngor Sir Dyfed | 0.0 | 0 | 0 | 6,530 |
| 0.0 | 0 | 0 | 2 | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Dyfed | 0.0 | 0 | 0 | 2 |
| 0.0 | 0 | 7 | 8 | Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 0.0 | 0 | 7 | 8 |
| 0.0 | 0 | 4 | 16 | Awdurdod Dwr Cymru | 0.0 | 0 | 4 | 16 |
| 0.0 | 0 | 0 | 7 | Cwm Environmental | 0.0 | 0 | 0 | 8 |
| 0.0 | 0 | 0 | 6 | Cartrefi Cymru | 0.0 | 0 | 0 | 19 |
| 0.0 | 0 | 2 | 2 | Gwasanaeth Swyddogion Rhenti | 0.0 | 0 | 2 | 2 |
| | 0 | 163 | 7,621 | | | 0 | 75 | 7,017 |
| | **(6,563)** | **90,616** | **89,783** | **Cyfanswm** | | **(7,373)** | **96,388** | **92,402** |

## 20.1 Cyrff Eraill Perthnasol Heb Weithwyr Pensiynadwy lle mae cynnydd pensiwn yn cael ei adennill

Cymerwyd yn ganiataol, yn achos y cyrff hyn heb weithwyr pensiynadwy, y bydd y gyfran o godiadau pensiwn a nodir isod yn parhau i gael eu hadennill.

| | **Cyfran i'w hadennill %** |
|---|---|
| Asiantaeth Trwyddedau Gyrwyr a Cherbydau | 100 |
| Cyngor Tref Aberdaugleddau | 100 |
| Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 100 |
| Canolfan y Teulu, Caerfyrddin | 100 |
| Dwr Cymru | 50 |

## 21 Rhoi Benthyg Stoc

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn caniatáu rhoi benthyg stoc yn amodol ar gymeradwyaeth benodol. Yn ystod 2021-22, yr incwm enillwyd drwy'r Gronfa drwy roi benthyg stoc oedd £88,153 (2020-21: £73,659). Ar 31 Mawrth 2022 roedd gan y Gronfa £45.9 miliwn allan ar fenthyg (2020-21: £79.9 miliwn).

## 22 Datganiad Actiwaraidd

Darparwyd y datganiad hwn i fodloni gofynion Rheoliad 57(1)(d) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd o Gronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2019 i bennu'r cyfraddau cyfrannu o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2023.

Ar sail y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd roedd asedau'r Gronfa ar ddyddiad y prisiad yn £2,576 miliwn, sef 105% o'r £2,444 miliwn (y "Targed Cyllido Solfedd") oedd wedi'i ymrwymo am wasanaeth a roddwyd. Felly, y gwarged adeg y prisiad oedd £132 miliwn.

| | |
|---|---|
| Asedau (£miliwn) | 2,576 |
| Rhwymedigaethau (£miliwn) | 2,444 |
| Gwarged (£miliwn) | 132 |
| Lefel y Cyllid (%) | 105 |

Roedd y prisiad hefyd yn dangos bod angen i gyflogwyr dalu cyfradd gyfrannu sylfaenol o 18.3% o'r tâl pensiynadwy bob blwyddyn. Cyfrifir bod y gyfradd sylfaenol, ynghyd â'r cyfraniadau a delir gan aelodau, yn ddigonol i fodloni'r holl rwymedigaethau fydd yn codi o ran gwasanaeth ar ôl dyddiad y prisiad.

Yr amcan cyllido fel y nodwyd yn y Datganiad Strategaeth Gyllido yw cyflawni a chynnal lefel gyllido solfedd o 100% o rwymedigaethau (y targed cyllido solfedd). Yn unol â'r Datganiad Strategaeth Gyllido, lle bo diffyg ariannol yn bodoli ar ddiwrnod gweithredu'r prisiad, bydd cynllun adfer diffyg ariannol yn cael ei roi ar waith sy'n gofyn am gyfraniadau ychwanegol i unioni'r diffyg ariannol. Yn yr un modd, lle bo gwarged, fel arfer mae'n briodol gwrthbwyso hwn yn erbyn cyfraniadau ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol, ac os felly bydd gostyngiadau cyfrannu yn cael eu rhoi ar waith er mwyn caniatáu ar gyfer hyn.

Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido yn pennu'r broses ar gyfer penderfynu ar gynllun adfer ar gyfer pob cyflogwr. Ar gyfer y prisiad actiwaraidd hwn, y cyfnod adfer cyfartalog a fabwysiadwyd oedd 14 o flynyddoedd, a chyfanswm cychwynnol y taliad adfer (y "gyfradd Eilaidd" ar gyfer 2020-2023) oedd swm gwrthbwyso o tua £3 miliwn y flwyddyn yn nhermau ariannol (sy'n caniatáu ar gyfer y cynlluniau cyfrannu sydd wedi'u pennu i gyflogwyr unigol o dan ddarpariaethau'r Datganiad Strategaeth Gyllido), er bod hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae rhagor o fanylion ynghylch canlyniadau'r prisiad wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ffurfiol ynghylch y prisiad actiwaraidd dyddiedig 31 Mawrth 2020.

Yn ymarferol, caiff safle pob cyflogwr unigol ei asesu ar wahân ac mae'r cyfraniadau sydd eu hangen wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal â'r cyfraddau cyfrannu ardystiedig, bydd y cyflogwyr yn gwneud taliadau i'r Gronfa i ganiatáu ar gyfer rhwymedigaethau ychwanegol sy'n codi yn sgil ymddeoliad cynnar (ar wahân i rai a achosir gan afiechyd).

Mae'r cynllun cyllido a fabwysiadwyd i asesu cyfraniadau pob cyflogwr unigol yn cydymffurfio â'r Datganiad Strategaeth Gyllido (DSG). Mae'r gwahanol ddulliau a fabwysiedir, e.e. mewn perthynas â gweithredu'r codiadau mewn cyfraniadau a'r cyfnodau adfer diffyg ariannol, yn unol â'r rhai a bennwyd gan broses ymgynghori'r Datganiad Strategaeth Gyllido.

Cynhaliwyd y prisiad gan ddefnyddio'r dull actiwaraidd rhagamcanu unedau ac roedd y prif dybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu'r Targed Cyllido Solfedd a'r gyfradd gyfrannu sylfaenol fel a ganlyn:

| | Ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol (Targed Cyllido Solfedd) | Ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth yn y dyfodol (Cyfraddau cyfrannu sylfaenol) |
|---|---|---|
| Cyfradd yr elw ar fuddsoddiadau (cyfradd ostyngiad) | 4.1% y flwyddyn | 4.65% y flwyddyn |
| Cyfradd y codiad mewn cyflogau (tymor hir) | 3.9% y flwyddyn | 3.9% y flwyddyn |
| Cyfradd y codiad mewn pensiynau (yn uwch na'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig) | 2.4% y flwyddyn | 2.4% y flwyddyn |

Aseswyd yr asedau yn ôl gwerth y farchnad.

Cynhelir prisiad actiwaraidd teirblwydd nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2022. Ar sail canlyniadau'r prisiad hwnnw, bydd y cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan y cyflogwyr unigol yn cael eu diwygio ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

**Dyfarniad McCloud**

Mae "dyfarniad McCloud" yn cyfeirio at her gyfreithiol yn ymwneud â'r ffaith bod newidiadau i fuddion hanesyddol pob cynllun sector cyhoeddus yn gwahaniaethu ar sail oed. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn bod angen camau unioni ar gyfer pob cynllun pensiwn sector cyhoeddus a chyhoeddwyd ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2020 gan gynnwys cam unioni arfaethedig ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nodwedd allweddol y cam unioni arfaethedig oedd ymestyn y sail cyflog terfynol i grŵp ehangach o aelodau ar gyfer gwasanaeth hyd at 31 Mawrth 2022. Mae hyn yn berthnasol i bob aelod a oedd yn weithredol ar neu cyn 31 Mawrth 2012 ac sydd naill ai'n parhau'n weithredol neu wedi gadael gwasanaeth ar ôl 1 Ebrill 2014.

Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, nid yw'r lefel gyllido a'r gyfradd gyfrannu sylfaenol uchod yn cynnwys lwfans ar gyfer cost amcangyfrifedig dyfarniad McCloud. Fodd bynnag, ar lefel y Gronfa gyfan amcangyfrifwn y gallai cost y dyfarniad fod wedi arwain at gynnydd o £28 miliwn yn fras mewn rhwymedigaethau o ran gwasanaeth yn y gorffennol a chynnydd yn y Gyfradd Gyfrannu Sylfaenol o 1.1% o'r tâl pensiynadwy bob blwyddyn. Mae darpariaeth ar gyfer y costau hyn wedi'i chynnwys yn y gyfradd eilaidd ar gyfer pob cyflogwr adeg y prisiad diwethaf (a hefyd yng nghyfradd eilaidd gyfartalog y Gronfa gyfan o £3 miliwn y flwyddyn wedi'i gwrthbwyso a ddangosir uchod).

**Effaith Covid-19 / Wcráin**

Cafodd canlyniadau'r prisiad a chyfraniadau'r cyflogwyr uchod eu hasesu ar 31 Mawrth 2019. Ers 2020 bu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd sylweddol mewn marchnadoedd ledled y byd mewn perthynas â phandemig COVID-19 ac yn fwy diweddar y sefyllfa yn Wcráin a'r argyfwng costau byw. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael canlyniadau pellgyrhaeddol o ran cyllid a risg, y bydd angen eu cadw dan adolygiad a'u hystyried ymhellach fel rhan o brisiadau 2022 sy'n digwydd ar hyn o bryd. Credwn ei bod yn bwysig pwyso a mesur y sefyllfa yn hytrach na gwneud penderfyniadau ar unwaith mewn cyfres o ddigwyddiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen. Caiff cyfraniadau eu hadolygu a'u diweddaru fel rhan o brisiad 2022. Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod Gweinyddu y pŵer i adolygu cyfraniadau rhwng prisiadau lle mae newid sylweddol mewn cyfamod neu rwymedigaethau cyflogwr, yn unol â'r rheoliadau newydd ar hyblygrwydd cyfraniadau a gyflwynwyd ym mis Medi 2020. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n barhaus gan yr Awdurdod Gweinyddu a fydd yn monitro datblygiad y sefyllfa ac yn rhoi gwybod i'r holl randdeiliaid am unrhyw oblygiadau posibl fel bod modd rheoli'r canlyniad yn effeithiol.

**Gwerth Actiwaraidd Presennol Buddion Ymddeol sydd wedi'u Haddo at Ddibenion IAS 26**

Mae'n ofynnol, yn ôl IAS 26, fod gwerth presennol buddion ymddeol y Gronfa sydd wedi'u haddo yn cael eu datgelu, ac i'r diben hwnnw rhaid defnyddio'r rhagdybiaethau actiwaraidd a'r fethodoleg sy'n seiliedig ar IAS 19 yn hytrach na'r rhagdybiaethau a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer dibenion cyllido.

I asesu gwerth y buddion hyn ar y sail honno rydym wedi defnyddio'r rhagdybiaethau ariannol canlynol ar 31 Mawrth 2022 (mae'r rhagdybiaethau ar 31 Mawrth 2021 wedi'u cynnwys fel cymhariaeth):

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| Cyfradd yr elw ar fuddsoddiadau (cyfradd ostyngiad) | 2.1% y flwyddyn | 2.8% y flwyddyn |
| Cyfradd chwyddiant CPI/ailbrisio buddion CARE | 2.7% y flwyddyn | 3.3% y flwyddyn |
| Cyfradd y codiad mewn cyflogau | 4.2% y flwyddyn | 4.8% y flwyddyn |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau mewn taliad (yn fwy na'r GMP) / Ailbrisiad gohiriedig | 2.8% y flwyddyn | 3.4% y flwyddyn |

Mae'r tybiaethau demograffig yr un peth â'r rhai ar gyfer dibenion ariannu, ond rydym wedi defnyddio tablau gwelliant i'r dyfodol mwyaf diweddar y CMI (CM1 2021). Gellir gweld manylion llawn ynglŷn â'r rhagdybiaethau hyn yn yr adroddiad ffurfiol ar y prisiad actiwaraidd sy'n ddyddiedig Mawrth 2020.

Yn ystod y flwyddyn, bu i'r elw o fondiau corfforaethol ostwng, gan arwain at gyfradd ostyngol is yn cael ei defnyddio at ddibenion IAS26 ar ddiwedd y flwyddyn na dechrau'r flwyddyn (2.8% y flwyddyn o gymharu â 2.1% y flwyddyn). Byddai hyn ar ei ben ei hun wedi arwain at werth sylweddol is yn cael ei roi i'r rhwymedigaethau ond fe'i gwrthbwyswyd yn bennaf gan gynnydd yng nghyfradd hirdymor ddisgwyliedig o chwyddiant CPI yn ystod y flwyddyn, o 2.7% y flwyddyn i 3.3% y flwyddyn.

Amcangyfrifir bod gwerth buddion ymddeol addawedig y Gronfa at ddibenion IAS 26 fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2021 yn £4,155 miliwn, gan gynnwys effaith bosibl Dyfarniad McCloud.

Roedd llog dros y flwyddyn wedi cynyddu rhwymedigaethau tua £87 miliwn, a chan ganiatáu ar gyfer buddion net a gronnwyd/a dalwyd dros y cyfnod roedd hefyd wedi cynyddu'r rhwymedigaethau tua £93 miliwn (mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaethau sy'n deillio o ganlyniad i ymddeoliadau cynnar/ychwanegiadau). Hefyd cafwyd cynnydd mewn rhwymedigaethau o £101 miliwn oherwydd "colledion actiwaraidd" (h.y. effeithiau'r newidiadau yn y rhagdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd, y cyfeiriwyd atynt uchod, wedi'u gwrthbwyso i raddau bach gan y ffaith fod codiad pensiwn 2022 yn fwy na'r hyn a dybiwyd).

Felly effaith hyn oll yw mai cyfanswm gwerth amcangyfrifedig buddion ymddeol addawedig y Gronfa ar 31 Mawrth 2022 yw £4,234 miliwn. Dyma'r ffigur rhwymedigaeth ar sail IAS26 rhagnodedig yn unig ac nid yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cyllido nac ar gyfer pennu cyfraddau cyfrannu.

**Mynegeio Isafswm Pensiwn Gwarantedig**

Yn flaenorol roedd yn ofynnol i'r cynlluniau gwasanaeth cyhoeddus ddarparu codiad pensiwn CPI llawn o ran buddion Isafswm Pensiwn Gwarantedig ar gyfer aelodau sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2016 a 5 Ebrill 2021. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau'n ddiweddar y bydd yn ymestyn hyn i gynnwys aelodau sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2021 ymlaen. Bydd hyn yn arwain at gost bellach i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'i gyflogwyr, a chafodd amcangyfrif o'r gost hon ei gynnwys o fewn rhwymedigaethau IAS26 a gyfrifwyd y llynedd ac mae wedi'i gynnwys eto yn y ffigur atebolrwydd cyffredinol uchod.

**Clive Lewis**

Cymrawd o'r Sefydliad a'r

Gyfadran Actiwarau

**Laura Evans**

Cymrawd o'r Sefydliad a'r

Gyfadran Actiwarau

Mercer Limited

Gorffennaf 2022

# Adroddiad Archwilydd Annibynnol

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor Sir Caerfyrddin sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Gaerfyrddin fel gweinydd awdurdod ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed yn cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo sylweddol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso yn eu paratoadau yn berthnasol yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifo rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22. Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed fel ar 31 Mawrth 2022 ac o swm a naturiaethu ar y dyddiad hwnnw o'i hasedau a'i rhwymedigaethau, ac eithrio'r rhwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd y flwyddyn;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifo rhyngwladol fel y'u dehongli a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny'n cael eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y gronfa bensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a ges i yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

**Casgliadau'n ymwneud â mynd i bryder**

Rwy'n archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail pryder sy'n mynd i gyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa bensiwn i barhau i fabwysiadu sail pryder cyfrifeg am gyfnod o o leiaf 12 mis o'r adeg pan fydd y datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi ar gyfer mater.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran mynd i bryder yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd o fewn y datganiad blynyddol o gyfrifon. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn faterol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a geir yng nghwrs yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei fod wedi ei gam-bwysleisio'n faterol. Os ydw i'n nodi anghysondebau materol o'r fath neu gam-ddweud deunydd ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gam-ddweud materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith rydw i wedi'i berfformio, rwy'n dod i'r casgliad bod yna gam-ddweud materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Does gen i ddim byd i'w adrodd yn hyn o beth.

### Adroddiad ynghylch ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yng nghwrs fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r adroddiad blynyddol wedi ei baratoi yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

### Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y gronfa bensiwn a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi cam-ddweud materol yn yr adroddiad blynyddol.

Does gen i ddim byd i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, a dwi'n adrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifo digonol wedi'u cadw, neu os nad yw'r ffurflenni'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi eu derbyn gan ganghennau nad ydynt wedi ymweld â nhw gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytûn â'r cofnodion cyfrifo a'r ffurflenni; neu
- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalennau 61-62, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi barn wir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath wrth i'r swyddog ariannol cyfrifol benderfynu fod angen galluogi paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gam-ddweud materol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am asesu gallu'r gronfa bensiwn i barhau fel pryder sy'n mynd, datgelu fel rhai sy'n berthnasol, materion sy'n gysylltiedig â mynd i bryder a defnyddio sail pryder cyfrifeg oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn amhriodol.

**Cyfrifoldebau Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau arianno**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gam-ddweud materol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod cam-ddweud materol pan fydd yn bodoli. Gall cam-ddweud godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os, yn unigol neu yn y cyfanrediad, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod cam-ddweud materol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- caffael rheolaeth, pennaeth archwilio mewnol y gronfa bensiwn a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n ymwneud â:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, dan amheuaeth neu honedig; a
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll wrth bostio cyfnodolion anarferol.
- cael dealltwriaeth o fframwaith Awdurdod Cronfa Bensiwn Dyfed yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn gweithredu ynddyn nhw, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Bensiwn Dyfed.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy gweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phrofi'r datganiad ariannol i gefnogi dogfennau i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- caffael rheolaeth, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a photensial;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd wedi'u cyhuddo o lywodraethu a'r pensiwn committee; ac

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau rheoli, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo yn arwydd o ogwydd posibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfathrebu deddfau a rheoliadau a nodwyd perthnasol a risgiau twyll posibl i bob tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy gweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Bensiwn Dyfed , a natur, amseru a maint y gweithdrefnau archwilio a berfformir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Cymru.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad 1 Tachwedd 2022

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Cronfa Bensiwn Dyfed yw cynnal ac uniondeb y gwefan; nid yw’r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i’r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

# Adran 7 – Datganiad Strategaeth Gyllido (FSS)

**Gellir dod o hyd i'r Datganiad Strategaeth Gyllido yn llawn gan gynnwys yr atodiadau ar ein gwefan.**

## Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ("Rheoliadau 2013") a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014 ("Rheoliadau Trosiannol 2014") a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cyllid) 2016 (y cwbl fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau" yn gyfunol) yn darparu'r fframwaith statudol y mae'n ofynnol i'r Awdurdod Gweinyddu ei ddilyn i baratoi Datganiad Strategaeth Ariannu (FSS). Gellir crynhoi'r gofynion allweddol ar gyfer paratoi'r FSS fel a ganlyn:

- Ar ôl ymgynghori â'r holl bartïon â buddiant perthnasol sy'n gysylltiedig â Cronfa Bensiwn Dyfed, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn paratoi ac yn cyhoeddi ei strategaeth ariannu;
- Wrth baratoi'r FSS, mae'n rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu ystyried:
    - y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth at y diben hwn; a'r
    - Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (ISS) ar gyfer y Cynllun a gyhoeddwyd o dan Reoliad 7 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cyllid) 2016 (fel y'u diwygiwyd);
- Mae'n rhaid diwygio a chyhoeddi'r FSS pryd bynnag y bydd newid perthnasol i'r naill bolisi neu'r llall a gyflwynir yn y FSS neu'r ISS.

### Buddion

Nodir manylion y buddion a ddarperir gan Cronfa Bensiwn Dyfed yn y ddeddfwriaeth lywodraethu sydd wedi'i chynnwys yn y Rheoliadau y cyfeirir atynt uchod. Mae buddion sy'n daladwy o dan Cronfa Bensiwn Dyfed wedi'u gwarantu trwy statud ac felly mae'r addewid pensiynau yn ddiogel i aelodau. Mae'r FSS yn rhoi sylw i'r mater o reoli'r angen i ariannu'r buddion hynny yn y tymor hir, gan hwyluso gwaith craffu ac atebolrwydd hefyd trwy well tryloywder a datgeliad.

Mae'r Gronfa yn drefniant buddion diffiniedig â buddion sy'n gysylltiedig â chyflog terfynol yn bennaf gan aelodau a fu'n cyfrannu hyd at 1 Ebrill 2014 a buddion Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi'u Hailbrisio ("CARE") wedi hynny. Ceir "Opsiwn Cynllun 50:50" hefyd, lle gall aelodau ddewis cronni 50% o fuddion y cynllun llawn o ran yr aelod yn unig a thalu 50% o'r cyfraniad aelod arferol.

### Cyfraniadau Cyflogwyr

Nodir lefelau gofynnol y cyfraniadau gan gyflogeion yn y Rheoliadau. Pennir cyfraniadau cyflogwyr yn unol â'r Rheoliadau (sy'n ei gwneud yn ofynnol i Actiwari'r Gronfa gwblhau prisiad actiwaraidd bob tair blynedd, gan gynnwys tystysgrif cyfraddau ac addasiadau yn nodi cyfradd "sylfaenol" ac "eilaidd" cyfraniad y cyflogwr).

### Cyfradd Gynradd

Y “gyfradd Gynradd” i gyflogwr yw’r gyfradd gyfrannu sy’n ofynnol i fodloni cost y croniad o fuddion yn y dyfodol, gan anwybyddu unrhyw warged neu ddiffyg gwasanaeth yn y gorffennol, ond gan ystyried unrhyw amgylchiadau penodol y cyflogwr, fel ei broffil aelodaeth, y strategaeth ariannu a fabwysiadir ar gyfer y cyflogwr hwnnw, y dull actiwaraidd a ddefnyddiwyd a/neu gyfamod y cyflogwr.

Y gyfradd Gynradd ar gyfer y gronfa gyfan yw cyfartaledd wedi’i bwysoli (yn ôl y gyflogres) gyfraddau Cynradd y cyflogwyr unigol.

### Cyfradd Eilaidd

Addasiad i’r gyfradd Gynradd yw’r “gyfradd Eilaidd” i adlewyrchu unrhyw ddiffyg neu warged gwasanaeth yn y gorffennol, i ddarganfod y gyfradd y mae’n ofynnol i bob cyflogwr ei thalu. Gellir mynegi’r gyfradd Eilaidd fel addasiad canrannol o’r gyfradd Gynradd, a/neu addasiad arian parod ym mhob un o’r tair blynedd yn cychwyn ar 1 Ebrill yn y flwyddyn sy’n dilyn yr un sy’n cynnwys y dyddiad prisio.

Nodir y gyfradd Eilaidd yn y dystysgrif cyfraddau ac addasiadau.

I unrhyw gyflogwr, y gyfradd y mae’n ofynnol iddo ei thalu mewn gwirionedd yw cyfanswm y cyfraddau Cynradd ac Eilaidd.

Dylid datgelu cyfraddau Eilaidd ar gyfer y gronfa gyfan ym mhob un o’r tair blynedd hefyd. Y cyfartaledd wedi’i bwysoli a gyfrifwyd yn seiliedig ar gyflogres y gronfa gyfan fydd y rhain, o ran cyfraddau canrannol a’r cyfanswm o ran addasiadau arian parod.

## Diben y FSS o Safbwynt Polisi

Y weithred o wneud darpariaeth ymlaen llaw i fodloni’r gost o addewidion buddion sy’n cronni yw ariannu. Bydd penderfyniadau a wneir ynghylch y dull ariannu felly yn pennu’r gyfradd neu’r cyflymder y caiff y ddarpariaeth ymlaen llaw hon ei gwneud. Er bod y Rheoliadau yn nodi’r egwyddorion sylfaenol y dylid asesu cyfraniadau cyllid ar eu sail, cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu, yn gweithredu ar sail y cyngor proffesiynol a ddarperir gan Actiwari’r Gronfa yw gweithredu’r strategaeth ariannu.

Amcan hirdymor yr Awdurdod Gweinyddu yw i’r Gronfa gyrraedd lefel solfedd o 100% dros gyfnod amser rhesymol a chynnal asedau digonol fel y gall dalu’r holl fuddion sy’n codi wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Diben y Datganiad Strategaeth Ariannu hwn felly yw:

- sefydlu strategaeth benodol i gronfa eglur a thryloyw a fydd yn nodi’r ffordd orau o fodloni rhwymedigaethau pensiwn cyflogwr yn y dyfodol trwy edrych mewn modd hirdymor darbodus ar ariannu’r rhwymedigaethau hynny;
- sefydlu cyfraniadau ar lefel i “ddiogelu solfedd” y gronfa bensiwn a’r “effeithlonrwydd hirdymor o ran cost”,
- ystyried pa mor ddymunol yw cynnal cyfradd gynradd o gyfraniadau mor gyson â phosibl.

Bwriedir i'r strategaeth hon fod yn gydlynol a chynhwysfawr i'r Gronfa yn ei chyfanrwydd, gan gydnabod y bydd amcanion sy'n gwrthdaro y bydd angen eu cydbwyso a'u cysoni. Er bod yn rhaid adlewyrchu sefyllfa cyflogwyr unigol yn y datganiad, mae'n rhaid iddi barhau i fod yn un strategaeth i'r Awdurdod Gweinyddu ei gweithredu a'i chynnal.

## Nodau a Diben y Gronfa

Nodau'r Gronfa yw:

- rheoli rhwymedigaethau cyflogwyr yn effeithiol a sicrhau bod adnoddau digonol (h.y. asedau hylifol) ar gael i fodloni pob rhwymedigaeth wrth iddi ddod yn ddyledus
- galluogi cyfraddau cyfrannu cyflogwyr i gael eu cadw ar gost resymol a fforddiadwy i'r trethdalwyr, cyrff rhestredig, dynodi ac a dderbyniwyd, gan sicrhau a chynnal solfedd y gronfa ac effeithlonrwydd hirdymor o ran cost, a dylid asesu hyn yn rhinwedd proffil y Gronfa yn awr ac yn y dyfodol oherwydd newidiadau i'r sector
- sicrhau cymaint â phosibl o adenillion o fuddsoddiadau o fewn paramedrau risg rhesymol gan ystyried y nodau uchod.

Diben y Gronfa yw:

- derbyn arian o ran cyfraniadau, gwerthoedd trosglwyddo ac incwm buddsoddi, a
- thalu arian o ran buddion cynllun, gwerthoedd trosglwyddo, costau, ffioedd a threuliau fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau.

## Cyfrifoldebau'r Partïon Allweddol

Dim ond os bydd pob parti yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau statudol yn gydwybodol ac yn ddiwyd y gellir rheoli'r gronfa bensiwn yn effeithlon ac yn effeithiol. Y partïon allweddol at ddibenion y FSS yw'r Awdurdod Gweinyddu (a'r Pwyllgor Pensiynau yn benodol), y cyflogwyr unigol ac Actiwari'r Gronfa a nodir manylion eu swyddogaethau isod. Y partïon eraill y mae'n ofynnol iddynt chwarae eu rhan yn y broses o reoli'r gronfa yw bancwyr, ceidwaid, rheolwyr buddsoddiadau, archwilwyr ac ymghynghorwyr cyfreithiol, buddsoddi a llywodraethu, ynghyd â'r Bwrdd Pensiynau Lleol a grëwyd o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

### Partïon Allweddol i'r FSS

Dylai'r Awdurdod Gweinyddu:

- weithredu'r gronfa bensiwn
- casglu cyfraniadau cyflogwyr a chyflogeion, incwm buddsoddi a symiau eraill sy'n ddyledus i'r gronfa bensiwn fel y nodir yn y Rheoliadau
- talu o'r gronfa bensiwn yr hawliadau perthnasol fel y nodir yn y Rheoliadau
- buddsoddi arian gwarged yn unol â'r Rheoliadau
- sicrhau bod arian parod ar gael i fodloni rhwymedigaethau pan fyddant yn dod yn ddyledus
- cymryd camau fel y nodir yn y Rheoliadau i ddiogelu'r gronfa rhag canlyniadau diffygdaliad cyflogwr
- rheoli'r broses brisio mewn ymgynghoriad ag Actiwari'r Gronfa
- paratoi a chynnal FSS a ISS, ar ôl ymgynghori yn briodol a phartïon â buddiant, a
- monitro pob agwedd ar berfformiad ac ariannu y Gronfa, gan ddiwygio'r FSS/ISS yn ôl yr angen
- rheoli yn effeithiol unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n deillio o'i swyddogaeth ddeuol fel gweinyddwr y gronfa a chyflogwr y cynllun, a

- sefydlu, cefnogi a monitro Bwrdd Pensiynau Lleol (BPLl) fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, y Rheoliadau a Chod Ymarfer perthnasol y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Dylai'r Cyflogwr Unigol:

- ddidynnu cyfraniadau o gyflog cyflogeion yn gywir ar ôl penderfynu ar gyfradd gyfrannu briodol y cyflogai (yn unol â'r Rheoliadau), oni bai eu bod yn Gyflogwr Gohiriedig.
- talu'r holl gyfraniadau, gan gynnwys eu rhai eu hunain fel y pennir gan Actiwari'r Gronfa, yn brydlon erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus
- datblygu polisi ar ddisgresiynau penodol ac arfer y disgresiynau hynny fel y caniateir o fewn y fframwaith rheoleiddio
- gwneud cyfraniadau ychwanegol yn unol â threfniadau a gytunwyd o ran, er enghraifft, cynyddu buddion cynllun, straen ymddeoliad cynnar, ac
- ystyried pwyslais y Rheoleiddiwr Pensiynau ar ansawdd data a chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a bennir gan yr Awdurdod Gweinyddu yn y cyd-destun hwn, a
- hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu yn brydlon am unrhyw newidiadau i'r aelodaeth a allai effeithio ar gyllid yn y dyfodol.
- Deall effeithiau ar bensiynau unrhyw newidiadau i'r strwythur sefydliadol a'u model darparu gwasanaethau
- Deall y bydd ansawdd y data a ddarperir i'r Gronfa yn effeithio yn uniongyrchol ar yr asesiad o'r rhwymedigaethau a'r cyfraniadau. Yn benodol, byddai unrhyw ddiffygion yn y data fel rheol yn arwain at gyfraniadau uwch gan y cyflogwr nag y byddai'n wir fel arall pe bai'r data o ansawdd uchel.

Dylai Actiwari'r Gronfa:

- baratoi prisiadau gan gynnwys pennu cyfraddau cyfrannu cyflogwyr ar lefel sy'n sicrhau solfedd y gronfa ar ôl cytuno ar dybiaethau gyda'r Awdurdod Gweinyddu ac ystyried ei FSS a'r Rheoliadau
- paratoi cyngor a chyfrifiadau sy'n gysylltiedig â throsglwyddiadau swmp a materion cysylltiedig â buddion unigol fel costau straen pensiwn, costau ymddeol oherwydd salwch ac ati
- darparu cyngor a phrisiadau ar ôl terfynu cytundebau derbyn
- darparu cyngor i'r Awdurdod Gweinyddu ar fondiau a mathau eraill o sicrwydd yn erbyn effaith ariannol diffygdaliad cyflogwr ar y Gronfa
- cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i asesu a oes angen diwygio cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau
- cynghori ar strategaeth ariannu, paratoi'r FSS a'r rhyngberthynas rhwng y FSS a'r ISS, a
- sicrhau bod yr Awdurdod Gweinyddu yn ymwybodol o unrhyw ganllawiau proffesiynol neu ofynion proffesiynol eraill a allai fod yn berthnasol i swyddogaeth Actiwari'r Gronfa o gynghori'r Gronfa.

Dylai Rheolwr/Rheolwyr Buddsoddiadau'r Gronfa:

- fuddsoddi arian a roddir yn unol â'r ISS a'r Cytundeb Rheoli Buddsoddiadau
- bodloni targedau perfformiad buddsoddi a chyfyngiadau risg, a
- chydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol, masnachol a mandad.

## Targed Ariannu Solfedd

Mae sicrhau'r "solfedd" ac "effeithlonrwydd hirdymor o ran cost" yn ofynion rheoleiddio. I fodloni'r gofynion hyn, amcan ariannu hirdymor yr Awdurdod Gweinyddu yw i'r Gronfa sicrhau ac yna cynnal asedau digonol i dalu 100% o rwymedigaethau cronnus rhagamcanol (y "targed ariannu") a asesir ar sail gwasanaeth yn y gorffennol parhaus gan gynnwys lwfans ar gyfer cyflog terfynol rhagamcanol pan fo'n briodol. Yn y tymor hir, byddai cyfanswm cyfradd gyfrannu cyflogwr yn dychwelyd i'r gyfradd Gynradd o gyfraniadau yn y pen draw.

### Solfedd ac Effeithlonrwydd Hirdymor

Caiff cyfraniadau pob cyflogwr eu pennu ar lefel o'r fath sy'n sicrhau solfedd llawn mewn cyfnod amser rhesymol. Diffinnir solfedd fel lefel lle gellir bodloni rhwymedigaethau'r Gronfa h.y. taliadau buddion yn rhesymol wrth iddynt godi.

Caiff cyfraniadau cyflogwyr eu pennu hefyd i sicrhau effeithlonrwydd hirdymor o ran cost. Mae effeithlonrwydd hirdymor o ran cost yn awgrymu na ddylid pennu cyfraniadau ar lefel sy'n debygol o arwain at gostau ychwanegol yn y dyfodol. Er enghraifft, byddai gohirio costau i'r dyfodol yn debygol o olygu y byddai'r costau hynny yn gyffredinol uwch na phe darparwyd ar eu cyfer ar yr adeg briodol.

Wrth lunio'r strategaeth ariannu, mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi ystyried yr amcanion allweddol hyn a hefyd goblygiadau'r gofynion o dan Adran 13(4)(c) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Yn rhan o'r gofynion hyn, mae'n rhaid i Adran Actiwari'r Llywodraeth adrodd, yn dilyn prisiad actiwaraidd, ar ba un a yw'r gyfradd gyfrannu cyflogwr at y Gronfa wedi ei phennu ar lefel briodol i sicrhau "solfedd" y gronfa bensiwn ac "effeithlonrwydd hirdymor o ran cost" y Cynllun cyn belled ag y mae'n ymwneud â'r Gronfa.

### Penderfynu ar y Targed Ariannu Solfedd a'r Cynllun Adfer Diffyg

Nodir y prif ddull a thybiaethau i'w defnyddio wrth gyfrifo'r targed ariannu yn Atodiad A. Nodir y Cynlluniau Adfer Diffyg i Gyflogwr yn Atodiad B.

Mae'r ddau ddaliad canlynol yn sail i'r tybiaethau hyn:

- disgwylir i'r Gronfa barhau ar gyfer y dyfodol rhagweladwy; a
- gall perfformiad buddsoddi ffafriol chwarae rhan werthfawr o ran sicrhau cyllid digonol dros y tymor hwy.

Mae hyn yn caniatáu i'r Gronfa edrych i'r tymor hwy wrth asesu'r gofynion cyfrannu ar gyfer rhai cyflogwyr.

Wrth ystyried hyn, bydd yr Awdurdod Gweinyddu, ar sail cyngor Actiwari'r Gronfa, yn ystyried a yw hyn yn arwain at debygolrwydd rhesymol y bydd y cynllun ariannu yn llwyddiannus, gan ystyried o bosibl unrhyw newidiadau i gyllid ar ôl y dyddiad prisio hyd at gwblhau'r prisiad erbyn 31 Mawrth 2020 fan bellaf.

Yn rhan o bob prisiad, caiff cyfraddau cyfrannu cyflogwyr ar wahân eu hasesu gan Actiwari'r Gronfa ar gyfer pob cyflogwr neu grŵp o gyflogwyr sy'n cymryd rhan. Caiff y cyfraddau hyn eu hasesu gan ystyried profiad ac amgylchiadau pob cyflogwr, gan ddilyn egwyddor o ddim croes-fuddsoddi rhwng y cyflogwyr a'r grwpiau cyflogwyr ar wahân yn y Gronfa.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu, yn dilyn ymgynghoriad â'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan, wedi mabwysiadu'r amcanion canlynol ar gyfer pennu cyfraddau cyfrannu cyflogwyr unigol yn deillio o brisiad actiwaraidd 2019:

Bydd cyfraniadau cyflogwyr unigol yn cael eu mynegi a'u hardystio fel dwy elfen ar wahân:

- y gyfradd Gynradd: canran o gyflogres bensiynadwy o ran cost y croniad o fuddion yn y dyfodol
- y gyfradd Eilaidd: rhestr o symiau ariannol cyfandaliad dros 2020/23 yng nghyswllt gwarged neu ddiffyg cyflogwr

I unrhyw gyflogwr, cyfanswm y cyfraniadau y mae'n ofynnol iddo eu talu mewn unrhyw flwyddyn unigol mewn gwirionedd yw cyfanswm y cyfraddau Cynradd ac Eilaidd (yn destun isafswm cyffredinol o sero). Mae'r ddwy elfen yn destun adolygiad arall o fis Ebrill 2023 ar sail canlyniadau prisiad actiwaraidd 2022.

**Cynllun Adfer**

Amcan y Gronfa yw bod unrhyw ddiffyg cyllid yn cael ei ddileu cyn gynted ag y gall y cyflogwyr sy'n cymryd rhan ei fforddio yn rhesymol yn seiliedig ar safbwynt yr Awdurdod Gweinyddu o gyfamod y cyflogwr a risg i'r Gronfa.

Bydd cyfnodau adfer yn cael eu pennu gan y Gronfa ar sail gyson ar draws categorïau cyflogwyr pan fo'n bosibl ac yn cael eu cyfathrebu yn rhan o'r trafodaethau gyda chyflogwyr. Bydd hyn yn penderfynu'r cyfraniad gofynnol a bydd cyflogwyr yn rhydd i ddewis unrhyw gyfnod adfer diffyg byrrach a chyfraniadau uwch os byddant yn dymuno, gan gynnwys yr opsiwn o dalu'r cyfraniadau diffyg ymlaen llawn mewn un cyfandaliad naill ai'n flynyddol neu fel taliad untro. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y swm ariannol y gofynnir amdano trwy ostyngiad i gyfanswm y cyfraniadau diffyg sy'n daladwy. Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cadw'r disgresiwn terfynol o ran defnyddio'r egwyddorion hyn ar gyfer cyflogwyr unigol ar sail fforddiadwyedd a chryfder cyfamod.

Mae'r egwyddorion allweddol wrth ystyried adfer diffyg fel a ganlyn:

- Nid yw'r Gronfa o'r farn ei bod yn briodol i ostyngiadau i gyfraniadau ariannol fod yn gymwys o'u cymharu â'r cynllun ariannu presennol (gan ystyried mynegeio cyfraniadau diffyg pan fo'n berthnasol) lle ceir diffygion o hyd oni bai fod rheswm pendant dros wneud hynny.
- Gall rhai cyflogwyr ddilyn strategaeth fuddsoddi ac ariannu wedi'i theilwra yn gysylltiedig â'u hamgylchiadau eu hunain a benderfynir gan eu nodweddion risg ac aeddfedrwydd. Bydd hyn yn cael ei gofnodi ar wahân.
- Fel rheol gyffredinol, bydd cyfnod y diffyg yn lleihau o 3 blynedd neu fwy i gyflogwyr ar y prisiad hwn o'i gymharu â'r prisiad blaenorol. Mae hyn i gyrraedd targed solfedd llawn dros gyfnod amser tebyg (neu fyrrach). Bydd gan gyflogwyr y rhyddid i fabwysiadu cynllun adfer ar sail cyfnod byrrach os byddant yn dymuno. Yn amodol ar ystyriaethau fforddiadwyedd a ffactorau eraill, efallai y bydd cyfnod wedi'i deilwra yn cael ei roi ar waith o ran cyflogwyr penodol pan fydd yr Awdurdod Gweinyddu o'r farn y gellir cyfiawnhau hyn (gweler Cynllun Adfer yn Atodiad B). Mae gweithredu'r egwyddorion hyn wedi arwain at fabwysiadu'r cyfnod adfer targed o 11 mlynedd ar draws cyflogwyr y Gronfa.

- Yn amodol ar fforddiadwyedd ac ystyriaethau eraill, disgwylir i bwynt terfyn cynlluniau adfer cyflogwyr unigol gael ei gynnal ar y prisiad hwn, sy'n golygu y bydd cyfnodau adfer fel rheol dair blynedd yn fyrrach nag ar brisiad actiwaraidd 2016. 11 mlynedd yw'r cyfnod adfer targed i gyflogwyr ar y prisiad hwn felly (3 blynedd yn llai na'r targed cyfatebol o 14 mlynedd yn y prisiad blaenorol). Yn ymarferol, gallai amgylchiadau cyflogwyr unigol olygu bod eu cyfnod adfer yn wahanol i hyn.
- Yn ogystal â hyn, mae'r Gronfa yn rhoi mwy o gydnabyddiaeth erbyn hyn i'r rhwymedigaethau posibl yn yr achos y bydd cyflogwr yn gadael y Gronfa ar ryw adeg. O gofio hyn, bydd cyfraniadau cyflogwyr sy'n cau fel rheol yn cael eu rhoi ar sylfaen y lefelau presennol. Hefyd, ni chaniateir fel rheol i unrhyw gyflogwr mewn gwarged ar y tybiaethau prisio actiwaraidd parhaus ddefnyddio'r gwarged hwnnw i wrthbwyso'i ofynion cyfrannu at y Gronfa yn y dyfodol. Ni fydd y cyfyngiadau hyn yn berthnasol os oes gan y corff warged ar ei sail derfynu: yn yr achos hwn, gellir defnyddio gwarged ar y sail derfynu i wrthbwyso gofynion cyfrannu yn y dyfodol.
- Er mwyn rhoi amser i gyflogwyr addasu eu cyllidebau, bydd cyfraniadau ar gyfer 2020/21 yn cael eu cynnal ar eu lefelau presennol fel rheol, ac eithrio ar gyfer y cyrff rhestredig mawr, cyn symud i'r cyfraddau newydd yn 2021/22. Pan fydd cynnydd perthnasol i'r cyfraniadau sy'n ofynnol ar y prisiad hwn, gallai'r Gronfa gytuno o dan rai amgylchiadau i gyflwyno'r cynnydd yn raddol dros y cyfnod hyd at 2022/23. Dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol y gallai unrhyw gamu neu ohirio cynnydd effeithio ar y gofynion cyfrannu sy'n codi mewn prisiadau yn y dyfodol.

**Rhoi'r Gorau i gymryd rhan yn y Gronfa**

Pan fydd cyflogwr yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y Gronfa, yn unol â'r Rheoliadau, gofynnir i Actiwari'r Gronfa wneud asesiad terfynol.

Mae'r polisi ar gyfer cyflogwyr sydd â gwarantwr yn cymryd rhan yn y Gronfa fel a ganlyn:

Bydd yr asedau a rhwymedigaethau gweddilliol ac felly unrhyw warged neu ddiffyg yn trosglwyddo yn ôl i'r gwarantwr. Mae hyn yn destun cytundeb gan bob parti â buddiant y bydd angen iddo ystyried unrhyw gytundebau contract ar wahân a roddwyd ar waith rhwng y cyflogwr sy'n ymadael a'r gwarantwr.

Fel arall, mewn achos o ddiffyg, bydd y Gronfa yn ceisio adfer hwn gan y cyflogwr sy'n ymadael yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, bydd y Gronfa yn ceisio adfer y diffyg gan y gwarantwr er mwyn cynnal dull cyson rhwng triniaeth o warged a diffyg, trwy daliad arian parod ychwanegol oni bai y cytunwyd yn wahanol gyda'r Awdurdod Gweinyddu. Mewn achos o warged, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried y ddarpariaeth yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) 2020 wrth benderfynu ar swm unrhyw gredyd ymadael sy'n daladwy, a bydd unrhyw swm o'r fath a benderfynir yn cael ei dalu i'r cyflogwr sy'n ymadael o fewn 6 mis o adael neu gyfnod hwy o'r fath y gellid ei gytuno yn yr achos unigol.

Os gofynnir amdani, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn darparu manylion y wybodaeth a ystyriwyd fel rhan o'r penderfyniad. Darperir hysbysiad penderfynu ochr yn ochr â'r asesiad terfynu gan yr Actiwari. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys y wybodaeth a'r camau canlynol o ran y broses:

1. Manylion y cyflogwyr sy'n ymwneud â'r broses (e.e. y cyflogwr sy'n ymadael a'r gwarantwr).
2. Manylion y cytundeb derbyn, contractau masnachol ac unrhyw ddiwygiadau i'r telerau sydd ar gael i'r Awdurdod Gweinyddu ac a ystyriwyd fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad. Yr egwyddor sylfaenol fydd, os yw cyflogwr yn gyfrifol am ddiffyg, y bydd yn gymwys ar gyfer unrhyw warged. Mae hyn yn amodol ar y wybodaeth a ddarperir ac unrhyw drefniadau rhannu risg sydd ar waith.
3. Ardystiad terfynu terfynol y credyd ymadael gan yr Actiwari.
4. Penderfyniad yr Awdurdod Gweinyddu yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd.
5. Manylion y broses apelio os bydd parti'n anghytuno â'r penderfyniad ac yn dymuno cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod Gweinyddu.

<u>Y polisi ar gyfer cyflogwyr nad oes ganddynt warantwr yn cymryd rhan yn y Gronfa yw:</u>

- Mewn achos o warged, mae'r Gronfa yn talu'r credyd ymadael i'r cyflogwr sy'n ymadael ar ôl cwblhau'r broses derfynu (o fewn 6 mis i'r terfyniad neu gyfnod hwy o'r fath y gellid ei gytuno yn yr achos unigol).
- Mewn achos o ddiffyg, byddai'r Gronfa yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr sy'n ymadael dalu'r diffyg terfynu i'r Gronfa mewn cyfandaliad arian parod (oni bai y cytunwyd fel arall gan yr Awdurdod Gweinyddu yn ôl ei ddisgresiwn llwyr) ar ôl cwblhau'r broses derfynu.
- Gall yr Awdurdod Gweinyddu amrywio'r driniaeth ar sail achosion unigol yn ôl ei ddisgresiwn llwyr os bydd amgylchiadau yn cyfiawnhau hynny yn seiliedig ar dystiolaeth yr Actiwari. Nodir y polisi terfynu yn Atodiad C.

Ym mhob achos, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cadw'r hawl i ddefnyddio dull gwahanol yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, gan ystyried y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwr o'i gymharu â'r Gronfa yn ei chyfanrwydd. Bydd unrhyw gyflogwr yr effeithir arno yn cael gwybod ar wahân.

Yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddu, gellir ymrwymo i gynlluniau ad-dalu dros gyfnod y cytunwyd arno neu Gytundeb Dyledion Gohiriedig, yn amodol ar bolisi'r Gronfa mewn perthynas â hyblygrwydd wrth adennill taliadau ymadael.

Nodir rhagor o fanylion yn y Polisi Terfynu yn Atodiad C.

### Cyllid ar Gyfer Costau Ymddeoliad Cynnar Nad Yw Oherwydd Salwch

Mae'n ofynnol i gyflogwyr fodloni holl gostau straen ymddeoliad cynnar trwy daliadau cyfalaf ar unwaith i'r Gronfa, neu o dan amgylchiadau penodol trwy gytundeb gyda'r Gronfa, trwy randaliadau dros gyfnod nad yw'n hwy na 3 blynedd neu'r cyfnod sy'n weddill o aelodaeth y corff o'r Gronfa os yw'n llai.

### Cyllid ar Gyfer Costau Ymddeoliad Oherwydd Salwch

Os bydd aelod yn ymddeol oherwydd salwch, bydd hyn fel rheol yn arwain at straen cyllid i'r cyflogwr hwnnw (h.y. rhwymedigaeth uwch). Bydd maint unrhyw straen cyllid yn dibynnu ar sut y mae cost yr ymddeoliad oherwydd salwch hwnnw yn cymharu â'r gost ddisgwyliedig sydd wedi'i hymgorffori yn y tybiaethau actiwaraidd ar gyfer y cyflogwr hwnnw. Bydd y gost wirioneddol hefyd yn dibynnu ar lefel unrhyw fuddion chwyddo a ddyfarnwyd (sy'n dibynnu ar amgylchiadau'r ymddeoliad oherwydd salwch) a hefyd pa mor gynnar y caiff y buddion eu trosglwyddo i daliad. Gan y gall cost ymddeoliad unigol oherwydd salwch fod yn sylweddol o ran gofynion cyfrannu cyflogwr, mae'r Gronfa wedi cyflwyno cronfa "gaeth" lle bydd costau ymddeoliadau oherwydd salwch (ac eithrio ar gyfer y pum prif gyflogwr rhestredig) yn cael eu

gwasgaru ar draws cyflogwyr ehangach. Bydd triniaeth unrhyw gost straen ymddeoliad oherwydd salwch sy'n deillio yn amrywio felly yn dibynnu ar y math o gyflogwr:

- I'r cyflogwyr hynny sy'n cymryd rhan yn y gronfa salwch gaeth, bydd unrhyw gost straen ymddeoliad oherwydd salwch sy'n codi yn cael ei bodloni gan gyfraniad o'r gronfa gaeth yn rhan o'r prisiad actiwaraidd dilynol (neu asesiad terfynu os yw'n gynharach). Ni fydd unrhyw gyfraniadau ychwanegol yn ddyledus ar unwaith gan y cyflogwr er y gallai addasiad i'r "premiwm" sy'n daladwy ddod i'r amlwg yn dilyn y prisiad actiwaraidd dilynol, yn dibynnu ar brofiad cyffredinol y gronfa gaeth.
- I'r cyflogwyr hynny nad ydynt yn cymryd rhan yn y gronfa salwch gaeth, bydd y "gyfradd gynradd" sy'n daladwy dros 2020/23 yn cynnwys lwfans ar gyfer costau ymddeoliad oherwydd salwch (ochr yn ochr ag unrhyw lwfans a wneir ar gyfer ymddeoliadau cynnar gwirfoddol). Pan fydd costau straen ymddeoliad oherwydd salwch yn fwy na lwfans cyflogwr dros y cyfnod rhwng prisiadau (neu os na fydd gan gyflogwr lwfans yn ei "gyfradd gynradd"), bydd y costau straen dros ben yn cael eu cynnwys yn niffyg y cyflogwr (a chyfraniadau diffyg dilynol) ym mhrisiad 2022.

## Cysylltiad â'r Polisi Buddsoddi a'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (ISS)

Mae canlyniadau prisiad 2019 yn dangos bod y rhwymedigaethau wedi eu bodloni 105% gan yr asedau presennol (104% o ystyried yr effeithiau a amcangyfrifir o ddyfarniad McCloud), felly ceir gwarged bach o asedau presennol dros y rhwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol.

Wrth asesu gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa yn y prisiad, ystyriwyd perfformiad gwell asedau twf fel y disgrifir uchod, gan ystyried y strategaeth fuddsoddi a fabwysiadwyd gan y Gronfa, fel y nodir yn y ISS.

Nid yw'n bosibl llunio portffolio o fuddsoddiadau sy'n cynhyrchu ffrwd o incwm sy'n cyfateb yn union i'r alldaliadau rhwymedigaethau disgwyliedig. Fodd bynnag, fel rheol mae'n bosibl llunio portffolio sy'n cynrychioli'r sefyllfa fuddsoddi "isafswm risg" a fyddai'n cynnig sicrwydd uchel iawn o adenillion gwirioneddol yn uwch na chwyddiant CPI tybiedig. Yn nodweddiadol byddai portffolio o'r fath, o dan amgylchiadau arferol, yn cynnwys cymysgedd giltiau llog sefydlog, yn gysylltiedig â mynegai, hirdymor a chyfnewidiadau posibl.

Byddai buddsoddi asedau'r Gronfa yn unol â'r portffolio hwn yn sicrhau cyn lleied â phosibl o anwadalrwydd yn sefyllfa ariannu'r Gronfa rhwng prisiadau actiwaraidd olynol.

Pe bai'r Gronfa wedi ei buddsoddi yn y portffolio ar y dyddiad prisio, ni fyddai'n briodol wrth gyflawni'r prisiad hwn ystyried perfformiad gwell asedau twf nac unrhyw addasiad i dybiaeth chwyddiant a awgrymir gan y farchnad oherwydd ystumiadau cyflenwad/galw yn y marchnadoedd bondiau. Byddai hyn yn arwain at adenillion gwirioneddol yn erbyn chwyddiant CPI o 0.9% negyddol y flwyddyn ar y dyddiad prisio. Ar sail asesu, byddai gwerth a aseswyd rhwymedigaethau'r Gronfa yn y prisiad wedi bod yn sylweddol uwch, gan arwain at lefel ariannu o 65%.

Bydd cefnu ar strategaeth fuddsoddi isafswm risg, yn enwedig i gynnwys asedau twf fel ecwiti, yn cynnig gwell rhagolygon y bydd yr asedau yn darparu adenillion sy'n uwch na chwyddiant CPI yn y pen draw ac yn lleihau'r gofynion cyfrannu. Mae'n bosibl felly y gallai'r sefyllfa solfedd darged o fod ag asedau digonol i fodloni rhwymedigaethau pensiwn y Gronfa gael ei sicrhau yn ymarferol trwy amrywiaeth o gyfuniadau o gynllun ariannu, strategaeth fuddsoddi a pherfformiad buddsoddi.

Dangosir y strategaeth bresennol gyferbyn.

| | Meincnod (%) | Ystod (%) |
|---|---|---|
| Unol Daleithiau | 8.0 | 3.0 - 13.0 |
| Japan | 4.0 | 0.0 - 9.0 |
| Rhanbarthol arall | 33.0 | 28.0 - 38.0 |
| Ecwiti Byd-eang | 20.0 | 15.0 - 25.0 |
| Incwm Sefydlog | 10.0 | 5.0 - 15.0 |
| Eiddo Ewrop Gyfan | 15.0 | 10.0 - 20.0 |
| Seilwaith | 5.0 | 3.5 - 6.5 |
| Asedau Amgen | 5.0 | 3.5 - 6.5 |
| **Cyfanswm** | **100.0** | |

Yn seiliedig ar y strategaeth fuddsoddi yn y ISS ac asesiad i'r Actiwari o'r disgwyliadau adenillion ar gyfer pob dosbarth ased, 2.7% y flwyddyn yn uwch na chwyddiant CPI ar y dyddiad prisio yw'r amcangyfrif gorau cyffredinol o adenillion disgwyliedig. Fodd bynnag, at ddibenion pennu strategaeth ariannu, mae'r Awdurdod Gweinyddu o'r farn ei bod yn briodol gwneud darpariaeth ar gyfer darbodaeth ar yr adenillion disgwyliedig hyn, a disgwylir hyn o dan y Rheoliadau a'r canllawiau.

## Nodi Risgiau a Gwrthfesurau

Mae ariannu buddion diffiniedig yn ansicr yn ei hanfod. Mae ariannu'r Cynllun yn seiliedig ar dybiaethau ariannol a demograffig. Nodir manylion y tybiaethau hyn yn adroddiad y prisiad actiwaraidd. Pan nad yw profiad gwirioneddol yn cyd-fynd â'r tybiaethau a fabwysiadwyd, bydd gwarged neu ddiffyg yn dod i'r amlwg yn yr asesiad actiwaraidd nesaf a bydd yn gofyn am addasiad dilynol i gyfraniadau i sicrhau bod y cyllid yn cyd-fynd â'r targed unwaith eto.

Hysbyswyd yr Awdurdod Gweinyddu gan Actiwari'r Gronfa mai'r risg fwyaf i'r lefel ariannu yw'r risg fuddsoddi sy'n gynhenid yn y strategaeth sy'n seiliedig ar ecwiti yn bennaf, fel y gallai gwell perfformiad asedau gwirioneddol rhwng prisiadau olynol amrywio'n sylweddol o'r hyn a dybiwyd yn y tymor hir. Mae adroddiad prisiad ffurfiol yr Actiwari yn cynnwys mesuriad o rai o'r prif ffactorau risg.

### Ariannol

Mae'r risgiau ariannol fel a ganlyn:-

- Marchnadoedd buddsoddi yn methu â pherfformio yn unol â disgwyliadau
- Rhagolygon y farchnad yn symud yn wahanol i'r tybiaethau
- Rheolwyr Cronfeydd Buddsoddi yn methu â chyrraedd targedau perfformiad dros y tymor hwy
- Gallai ail-ddyrannu asedau mewn marchnadoedd anwadal gadarnhau colledion y gorffennol
- Chwyddiant cyflogau a phris yn sylweddol fwy neu lai na'r hyn a ragwelwyd
- Tanberfformiad yn y dyfodol yn deillio o gymryd rhan yng nghronfa Cymru Gyfan.
- Cyflogwyr ddim yn bodoli mwyach heb hysbysiad ymlaen llaw, gan arwain at ofyniad credyd ymadael mawr o'r Gronfa gan effeithio ar ofynion llif arian parod.

Gallai unrhyw gynnydd i gyfraddau cyfrannu cyflogwyr (o ganlyniad i'r risgiau hyn), effeithio wedyn ar ddarpariaeth gwasanaeth y cyflogwr hwnnw a'i sefyllfa ariannol.

Yn ymarferol, mae i ba raddau y gellir lleihau'r risgiau hyn yn gyfyngedig. Fodd bynnag, adolygir dyraniad asedau'r Gronfa yn barhaus a chaiff perfformiad rheolwyr buddsoddiadau ei fonitro yn rheolaidd.

**Demograffig**

Mae'r risgiau demograffig fel a ganlyn:-

- Ni ellir rhagweld newidiadau i ddisgwyliad oes (hirhoedledd) gydag unrhyw sicrwydd
- Straeniau posibl o ymddeoliadau oherwydd salwch, yn uwch na'r hyn a ystyriwyd yn nhybiaethau'r prisiad
- Cyflymiad na ragwelwyd o aeddfediad y Gronfa yn arwain at lifau arian parod negyddol perthnasol a lleihau cyfnodau rhwymedigaethau

Mae hirhoedledd cynyddol yn rhywbeth y mae polisïau llywodraeth, yn genedlaethol a lleol, wedi eu cynllunio i'w hybu. Fodd bynnag, mae'n arwain at fwy o rwymedigaeth i gronfeydd pensiwn.

Gall ymddeoliadau oherwydd salwch fod yn gostus i gyflogwyr, yn enwedig cyflogwyr bach lle gall un neu ddau o ymddeoliadau oherwydd salwch costus fynd â nhw ymhell y tu hwnt i'r "cyfartaledd" a awgrymir gan dybiaethau'r prisiad. Fwyfwy, rydym yn gweld cyflogwyr yn lliniaru nifer yr ymddeoliadau oherwydd salwch trwy ddefnyddio mesurau ataliol adnoddau dynol / iechyd galwedigaethol. Gall y rhain, ynghyd â sicrhau bod y gweithdrefnau rheoleiddio sydd ar waith i sicrhau bod ymddeoliadau oherwydd salwch yn cael eu rheoli yn briodol, helpu i reoli amlygiad i'r risg ddemograffig hon. Fel y disgrifiwyd uchod, i gyflogwyr llai mae'r Gronfa hefyd wedi gweithredu dull "cronfa gaeth" mewnol o rannu cost ymddeoliadau oherwydd salwch ar draws cyflogwyr ehangach. Ac eithrio'r gweithdrefnau rheoleiddio sydd ar waith i sicrhau bod ymddeoliadau oherwydd salwch yn cael eu rheoli yn briodol, dylai cyrff cyflogi fod yn gwneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod nifer yr ymddeoliadau oherwydd salwch cyn lleied â phosibl. Nid yw ymddeoliadau cynnar am resymau dileu swydd ac effeithlonrwydd yn effeithio ar solfedd y Gronfa gan eu bod yn destun taliad uniongyrchol.

O ran cynyddu aeddfedrwydd (e.e. oherwydd toriadau pellach i'r gweithlu a/neu gyfyngiadau ar gyflogeion newydd yn manteisio ar y Gronfa), mae'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd o ran gofynion llif arian parod ac yn ystyried yr effaith ar y strategaeth fuddsoddi.

**Yswirio Buddion Penodol**

Gellir amrywio'r cyfraniadau ar gyfer unrhyw gyflogwr fel y cytunir gydag Actiwari'r Gronfa a'r Awdurdod Gweinyddu i adlewyrchu unrhyw newidiadau i ofynion cyfrannu o ganlyniad yswirio unrhyw gostau buddion gyda thrydydd parti neu yn fewnol yn y Gronfa.

**Rheoleiddio**

Mae'r risgiau rheoleiddio allweddol fel a ganlyn:-

- Newidiadau i Reoliadau, e.e. newidiadau i'r pecyn buddion, oedran ymddeol, newydd ddyfodiaid posibl i'r cynllun,
- Newidiadau i ofynion pensiwn cenedlaethol a/neu Reolau CThEM

Mae aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn agored i holl staff llywodraeth leol a dylid ei hannog yn rhan o'r contract cyflogaeth. Fodd bynnag, mae aelodaeth gynyddol yn arwain at gostau ariannol uwch i'r cyflogwr.

**Llywodraethu**

Mae'r Gronfa wedi gwneud cymaint ag y mae'n credu y gall ei wneud yn rhesymol i alluogi cyrff cyflogi ac aelodau'r cynllun (trwy eu hundebau llafur) i fynegi eu safbwyntiau i'r Gronfa ac i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r risgiau llywodraethu fel a ganlyn:-

- Mae ansawdd data aelodaeth yn gwaethygu yn sylweddol oherwydd methiant prosesau i ddiweddaru'r wybodaeth gan arwain at dan-ddatgan neu or-ddatgan rhwymedigaethau
- Yr Awdurdod Gweinyddu yn anymwybodol o newidiadau strwythurol i aelodaeth y cyflogwr (e.e. gostyngiad mawr i nifer y cyflogeion, nifer mawr o ymddeoliadau) gyda'r canlyniad bod y cyfraddau cyfrannu yn cael eu pennu ar lefel rhy isel
- Yr Awdurdod Gweinyddu heb gael gwybod am gyflogwr yn cau i newydd ddyfodiaid, rhywbeth y byddai fel rheol yn gofyn am gynnydd i gyfraddau cyfrannu
- Cyflogwyr nad ydynt yn bodoli mwyach a chyllid neu addasrwydd bond annigonol
- Newidiadau i uwch Swyddogion Cronfa ac aelodaeth y Panel.

I sicrhau bod y risgiau hyn cyn lleied â phosibl, mae llawer yn dibynnu ar y cyrff cyflogi yn cyflenwi gwybodaeth i'r Awdurdod Gweinyddu. Caiff trefniadau eu rheoli a'u monitro yn llym, ond yn y rhan fwyaf o achosion, y cyflogwr yn hytrach na'r Gronfa yn ei chyfanrwydd sy'n gyfrifol am y risg.

## Monitro ac Adolygu

Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi derbyn cyngor gan Actiwari'r Gronfa wrth baratoi'r Datganiad hwn, ac wedi ymgynghori â'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa.

Bydd adolygiad llawn o'r Datganiad hwn yn cael ei gynnal o leiaf bob tair blynedd, i gyd-daro â chwblhau prisiad actiwaraidd llawn. Bydd unrhyw adolygiad yn ystyried yr amodau economaidd presennol ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn monitro cynnydd y strategaeth ariannu rhwng prisiadau actiwaraidd llawn. Os ystyrir ei fod yn briodol, caiff y strategaeth ariannu ei adolygu (ac eithrio yn rhan o'r broses brisio bob tair blynedd), er enghraifft, os:

- bu newid sylweddol i amodau'r farchnad, a/neu wyriad yng nghynnydd y strategaeth ariannu
- bu newidiadau sylweddol i aelodaeth y Cynllun, neu fuddion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol e.e. gweithredu datrysiad McCloud

- bu newidiadau i amgylchiadau unrhyw un o’r awdurdodau cyflogi i’r fath raddau eu bod yn effeithio ar y strategaeth ariannu neu’n cyfiawnhau newid iddi
- talwyd unrhyw gyfraniadau arbennig sylweddol i mewn i’r Gronfa
- bu newid i Reoliadau neu Ganllawiau sy’n cael effaith berthnasol ar y polisïau yn y strategaeth ariannu.

Wrth fonitro’r strategaeth ariannu, os bydd yr Awdurdod Gweinyddu o’r farn bod angen cymryd unrhyw gamau, bydd yr awdurdodau cyflogi perthnasol yn cael eu hysbysu. Yn achos cyflogwr a allai adael y Gronfa, mae darpariaeth statudol ar gyfer diwygio cyfraddau rhwng prisiadau a chaiff hyn ei ystyried ar y cyd â'r cyflogwr yr effeithir arno ac unrhyw warantwr cysylltiedig o ran rhwymedigaethau'r cyflogwr (os yw'n berthnasol).

**Adolygiad o Gyfraniadau**

Yn unol â'r Rheoliadau, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn gallu adolygu cyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau. Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr yr hyblygrwydd canlynol erbyn hyn:

1. Caiff yr Awdurdod Gweinyddu adolygu cyfraniadau cyflogwr lle bu newid sylweddol i rwymedigaethau cyflogwr.
2. Caiff yr Awdurdod Gweinyddu adolygu cyfraniadau cyflogwr lle bu newid sylweddol yng nghyfamod y cyflogwr.
3. Caiff cyflogwr ofyn am adolygiad o gyfraniadau gan yr Awdurdod Gweinyddu os yw o'r farn bod naill ai pwynt 1 neu bwynt 2 yn berthnasol iddo.

Rhoddir ystyriaeth i unrhyw drefniadau rhannu risg (e.e. trefniadau cap a choler) wrth adolygu cyfraddau cyfrannu. Nodir rhagor o wybodaeth yn y polisi yn Atodiad E.

**Dyfarniad McCloud**

Sefydlwyd y broses rheoli costau gan HMT, a sefydlwyd ffrwd ychwanegol gan Fwrdd Cynghori’r Cynllun (ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol). Nod hyn oedd rheoli costau i gyflogwyr a threthdalwyr trwy addasiadau i fuddion a/neu gyfraniadau cyflogeion.

Yn rhan o hyn, cytunwyd y dylai cyflogwyr ysgwyddo costau/risgiau ffactorau allanol fel y gyfradd ddisgownt, adenillion buddsoddi a newidiadau i chwyddiant, ac y dylai cyflogeion ysgwyddo costau/risgiau ffactorau eraill fel twf cyflogau, newidiadau i ddisgwyliad oes, profiad ymddeoliad oherwydd salwch a gohirio pensiwn.

Disgwyliwyd i ganlyniadau’r broses rheoli costau gael eu gweithredu o 1 Ebrill 2019, ar sail data o brisiadau 2016 ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gohiriwyd hyn bellach oherwydd achosion gwahaniaethu ar sail oedran a gafodd eu dwyn yng nghyswllt y cynlluniau diffoddwyr tân a barnwyr, yn ymwneud ag amddiffyniadau a ddarparwyd pan newidiwyd y cynlluniau sector cyhoeddus (ar 1 Ebrill 2014 ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac 1 Ebrill 2015 ar gyfer Cynlluniau eraill).

Mae’r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd y dyfarniad hwn yn arwain at yr angen am ddatrysiad ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cyhoeddodd Bwrdd Cynghori’r Cynllun ganllawiau sy’n nodi sut y dylid ystyried achos McCloud ym mhrisiad 2019.

Felly, mae’r Gronfa wedi ystyried ei pholisi o ran costau a allai ddeillio o ddyfarniad McCloud yn unol â’r canllawiau gan Fwrdd Cynghori’r Llywodraeth mewn cydweithrediad â’r Actiwari. Er nad yw’r datrysiad yn hysbys ac efallai na fydd yn hysbys am gryn amser, at ddibenion y prisiad hwn, wrth ystyried y ddarpariaeth briodol o ran cyfraniadau, rydym wedi tybio y byddai’r dyfarniad yn arwain at ddileu’r meini prawf oedran presennol a gymhwyswyd i’r sylfaen a weithredwyd yn 2014 ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Byddai’r sylfaen hon yn berthnasol felly i’r holl aelodau gweithredol ar 1 Ebrill 2012.

Cyfrifwyd y costau perthnasol a amcangyfrifwyd a’u cynnwys yn y gofynion cyfrannu a ddyfynnwyd yn rhan o brisiad actiwaraidd 2019 ar gyfer cyflogwyr unigol. At ddibenion adrodd cronfa gyfan, yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd Cynghori’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, nid yw costau McCloud wedi eu cynnwys yn y lefel ariannu a ddatgelwyd na’r gyfradd gyfrannu gynradd. Fodd bynnag, mesurwyd yr effeithiau ar wahân ac fe’u nodir yn adroddiad y prisiad actiwaraidd.

# Adran 8 – Datganiad Strategaeth Buddsoddi (ISS)

Hwn yw Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (y "Datganiad") Cronfa Bensiwn Dyfed (y "Gronfa") sy'n ofynnol gan Reoliad 7 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 (y "Rheoliadau").

Mae'r rheoliadau yn mynnu fod awdurdodau gweinyddu yn llunio ac yn cyhoeddi datganiad o'i strategaeth fuddsoddi, yn unol â chanllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (DSF) yn offeryn llywodraethu pwysig i'r Gronfa. Mae'r ddogfen yn amlinellu strategaeth fuddsoddi bresennol y Gronfa, mae'n darparu tryloywder o ran sut mae buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu rheoli, mae'n gweithredu'n gofrestr risgiau lefel uchel a'r bwriad yw ei fod yn cynnig gwybodaeth i bob rhanddeiliad. Mae'r ddogfen hon yn disodli Datganiad y Gronfa o Egwyddorion Buddsoddi.

Wrth baratoi'r Datganiad hwn, ymgynghorodd y Gronfa â pha bersonau bynnag y mae'n ystyried yn briodol a chaiff y ddogfen ei diweddaru ar sail unrhyw ffactorau y mae'r Gronfa yn eu hystyried yn berthnasol i'w rhwymedigaethau, cyllid neu agwedd at risg.

Caiff y datganiad hwn ei adolygu o leiaf bob tair blynedd neu'n amlach os yw'n briodol.

**Amcanion a Chredoau Buddsoddi**

Prif amcan y Gronfa yw darparu buddion pensiwn a chyfandaliadau i aelodau wrth iddynt ymddeol a/neu fuddion wedi iddynt farw cyn neu wedi eu hymddeoliad ar gyfer eu dibynyddion, yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae cysylltiad cynhenid rhwng y Strategaeth Gyllido a'r Strategaeth Fuddsoddi, a chyda'i gilydd ceisiant ddarparu cyfraddau cyfrannu sefydlog ar gyfer cyflogwyr a llai o ddibyniaeth ar gyfraniadau cyflogwyr gydag amser.

Felly, yr amcan buddsoddi yw **sicrhau'r enillion mwyaf posibl yn amodol ar lefel dderbyniol o risg (gan gynnwys risgiau o ran yr hinsawdd a risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eraill) wrth gynyddu sicrwydd cost i gyflogwyr, a lleihau cost hirdymor** y cynllun. Mae cael dealltwriaeth drylwyr o'r risgiau sy'n wynebu'r Gronfa yn hollbwysig a rhoddir sylw i'r rheiny yn ddiweddarach yn y datganiad hwn.

Mae credoau buddsoddi'r Gronfa a ddefnyddir wrth baratoi'r strategaeth fuddsoddi fel a ganlyn:

- Mae cyllido, strategaeth fuddsoddi a chyfraddau cyfrannu ynghlwm wrth ei gilydd.
- Y dyraniad asedau strategol yw'r ffactor allweddol wrth bennu proffil risg ac enillion buddsoddiadau'r Gronfa.
- Gall strwythurau llywodraethu effeithiol, sy'n hyrwyddo pendantrwydd, effeithlonrwydd ac atebolrwydd, ychwanegu gwerth at y Gronfa.
- Mae buddsoddi dros yr hirdymor yn cynnig cyfleoedd i wella enillion ac yn caniatáu i'r Gronfa gymryd rhai risgiau (e.e. anwadalrwydd, anhylifedd) na fyddai'n dderbyniol o bosib fel arall.
- Gall cael amrywiaeth ar draws ac o fewn dosbarthiadau asedau helpu i liniaru rhag amgylchiadau andwyol yn y farchnad a chynorthwyo'r Gronfa i gynhyrchu proffil enillion mwy didrafferth gan fod enillion yn dod o nifer o ffynonellau gwahanol.
- Mae rheoli risg yn dasg gymhleth a sawl-dimensiwn ond y brif egwyddor yw cymryd y lefel briodol o risg i gyflawni amcanion y Gronfa.

- Mae ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn bwysig er mwyn sicrhau enillion a risgiau buddsoddi cynaliadwy yn yr hirdymor. Mae gan newid yn yr hinsawdd (UN SDG 13), yn benodol, y potensial i effeithio'n faterol ar broffil enillion a risg gwahanol asedau. Mae'r pwyllgor o'r farn y gall addasu ei ddyraniadau buddsoddi ac ymgysylltu â chwmnïau sy'n buddsoddi helpu i gyflawni ei nodau buddsoddi cyfrifol.
- Mae stiwardiaeth yn gyfrifoldeb pwysig ac yn un y gellir ei ddirprwyo. Mae ymgysylltu â chwmnïau sy'n buddsoddi yn rhan bwysig o hyn, ac mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol na dadfuddsoddi o ran gwella'r canlyniadau a ddymunir.
- Mae cael gwerth am arian o fuddsoddiadau yn bwysig, yn hytrach na chostau absoliwt yn unig. Bydd cyfuno asedau yn helpu i leihau costau ac yn cynnig mwy o ddewis o fuddsoddiadau a bydd felly'n ychwanegu at enillion y Gronfa.
- Gall rheolaeth weithredol ychwanegu gwerth at enillion yn yr hirdymor.

**Y Strategaeth Fuddsoddi**

**Dosbarthiadau Asedau**

Mae trosi amcanion buddsoddi a chyllido'r Gronfa yn un strategaeth fuddsoddi addas yn heriol. Yn aml gall y prif amcanion fod yn groes i'w gilydd. Er enghraifft, y ffordd orau o leihau cost hirdymor y cynllun yw buddsoddi mewn asedau sy'n cynnig yr enillion mwyaf e.e. ecwitïau. Fodd bynnag, mae ecwitïau hefyd yn anwadal iawn (h.y. maent yn mynd i fyny ac i lawr yn gyson mewn symudiadau gweddol fawr), sy'n groes i'r amcan o gael cyfraddau cyfrannu sefydlog.

Hefyd, mae gan y cyflogwyr yn y Gronfa nodweddion sylfaenol ac amcanion cyllido hirdymor gwahanol.

Polisi'r Pwyllgor Pensiwn (y "Pwyllgor") yw monitro'n rheolaidd, mewn ymgynghoriad â'r actiwari, y sefyllfa debygol o ran y gymhareb ddiddyledrwydd er mwyn lleihau cymaint â phosib ar y risg y bydd y gymhareb diddyledrwydd yn dirywio'n is na 100%. Gallai'r Pwyllgor ystyried newid y Strategaeth Fuddsoddi os caiff ei gynghori ar unrhyw adeg yn y dyfodol mai dyna'r unig ffordd dderbyniol i osgoi tanariannu.

Yn sgil astudiaeth rhwymedigaethau asedau, mae'r Pwyllgor wedi gosod meincnod sy'n cynnwys cymysgedd o fathau ac ystodau o asedau y gall y rheolwyr buddsoddiadau weithredu oddi mewn iddynt yn ôl fel y gwêl yn dda. Dangosir hyn yn Atodiad A. Cred y Pwyllgor y bydd y cymysgedd hwn o asedau, yn ogystal ag ystyried proffil rhwymedigaethau'r Gronfa, yn cyflawni'r tybiaethau yn y prisiant a gynhaliwyd fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019. Bydd y cymysgedd hefyd yn gymorth i reoli'r risgiau a amlinellir isod.

Cynhelir adolygiad o'r dyraniad asedau strategol bob tair blynedd yn dilyn y prisiad actwaraidd sy'n cynnig sicrwydd bod y strategaeth fuddsoddi yn gydnaws â'r cynllun cyllido hirdymor. Mae'r adolygiad hwn yn defnyddio dadansoddiadau ansoddol a meintiol, ac mae'n ymdrin â'r canlynol:

- Lefel enillion angenrheidiol fydd yn golygu y gall y Gronfa gyflawni ei chyfrifoldebau talu buddion i'r dyfodol wrth iddynt ddod yn daladwy.
- Lefel y risg y gall y Gronfa ei goddef mewn termau absoliwt, ac o ran ei lefel gyllido.
- Llunio dadansoddiad o faint y gwahanol risgiau sy'n wynebu'r Gronfa er mwyn gallu pennu trefn blaenoriaeth ar gyfer eu lliniaru.
- Yr awydd am amrywiaeth ar draws dosbarthiadau asedau, rhanbarth, sector, a math o warant.

**Rheolwyr**

Penododd y Pwyllgor nifer o reolwyr buddsoddi sydd oll wedi'u hawdurdodi o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i wneud gwaith buddsoddi.

Mae'r Pwyllgor, ar ôl cael cyngor buddsoddi priodol, wedi cytuno meincnodau penodol gyda phob rheolwr fel eu bod, gyda'i gilydd, yn gydnaws â'r dyraniad asedau cyffredinol ar gyfer y Gronfa. Bydd gan y rheolwyr gymysgedd o fuddsoddiadau sy'n adlewyrchu eu safbwyntiau o ran eu priod feincnodau. O fewn pob prif ddosbarth o farchnadoedd ac asedau, bydd y rheolwyr yn cynnal portffolios amrywiol trwy ddulliau ar y cyd neu fuddsoddi uniongyrchol. Mae gan reolwr y cronfeydd goddefol y mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt gymysgedd o fuddsoddiadau o fewn pob cronfa gyfun sy'n adlewyrchu eu mynegeion meincnod perthnasol.

**Mesur a rheoli risg**

Mae'r Gronfa yn asesu risgiau yn ansoddol ac yn feintiol, a'r man cychwyn yw'r adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi a gynhelir bob tair blynedd. Mae'r Pwyllgor, ei ymgynghorwyr proffesiynol a swyddogion y Gronfa yn cyfrannu at lunio agwedd y Gronfa at risg.

Gellir grwpio'r prif risgiau y gallai'r Gronfa eu hwynebu o dan y penawdau canlynol: asedau, cyllido, gweithredol a llywodraethu. Caiff y risgiau hyn eu nodi, eu mesur, eu monitro a'u rheoli'n weithredol, ac mae Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn yn gyfrifol am gymryd trosolwg o'r sefyllfa.

Caiff y risgiau hyn eu crynhoi fel a ganlyn:

**Risgiau Asedau**

- Crynodiad – y risg y byddai dyrannu adnoddau sylweddol i un dosbarth o asedau sydd wedyn yn tanberfformio o'i gymharu â'r disgwyliadau yn arwain at anawsterau o ran cyflawni'r amcanion cyllido. Gellir lliniaru crynhoad drwy feddu ar strategaethau gwahanol o fewn dosbarth o asedau.
- Anhylifedd – y risg na fydd y Gronfa'n gallu cyflawni'i rhwymedigaethau oherwydd nad oes digon o asedau hylifol ganddi.
- Tanberfformiad gan reolwyr – Bod rheolwyr y gronfa'n methu â chyflawni'r enillion ar fuddsoddiadau a dybiwyd pan bennwyd eu mandadau.

I reoli'r risgiau o ran asedau mae'r Pwyllgor yn darparu cyfyngiadau ymarferol ar fuddsoddiadau'r gronfa sy'n gwyro'n sylweddol o'r dull bwriedig drwy bennu canllawiau ynghylch arallgyfeirio a thrwy fuddsoddi mewn amrywiaeth o fandadau buddsoddi. Mae gan bob un o'r rhain ei amcan penodedig, meincnod perfformiad a phroses reoli sydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau bod y risg o fewn y ffiniau sy'n dderbyniol gan y Pwyllgor. Trwy fuddsoddi mewn amrywiaeth o asedau gan gynnwys ecwitïau a bondiau wedi'u dyfynnu, mae'r Pwyllgor wedi cydnabod bod angen cael rhywfaint o hylifedd yn y tymor byr. Wrth benodi nifer o reolwyr buddsoddi mae'r Pwyllgor wedi ystyried y risg sy'n gysylltiedig â thanberfformiad rheolwr unigol.

**Y Risgiau o ran Cyllido**

- Diffyg cyfatebiaeth ariannol - Y risg y bydd asedau'r Gronfa'n methu tyfu yn unol â chostau cynyddol talu rhwymedigaethau'r Gronfa a'r risg y bydd taliadau pensiwn a buddion yn cynyddu yn sgil chwyddiant annisgwyl ac na fydd asedau'r Gronfa'n cynyddu'n ddigon cyflym i dalu'r costau uwch.
- Newidiadau o ran demograffeg - Y risg bod pobl yn byw yn hirach a bod ffactorau demograffig eraill yn newid ac yn cynyddu cost buddion y Gronfa.
- Risg systemig - Y posibilrwydd y bydd nifer o wahanol asedau a/neu reolwyr buddsoddiadau yn dioddef methiant cysylltiedig a chydamserol, sy'n fwy difrifol o bosibl oherwydd 'ymddygiad heintus', ac yn achosi i gostau talu rhwymedigaethau'r Gronfa gynyddu.
- Deddfwriaeth/rheoliadol - gall newidiadau mewn deddfwriaeth neu reoliadau sy'n llywodraethu'r modd y mae rhwymedigaethau cronfa bensiwn yn cael eu trin gael effaith sylweddol ar y gymhareb gyllido.

Mae'r Pwyllgor yn mesur ac yn rheoli'r diffyg cyfatebiaeth ariannol mewn dwy ffordd. Pennwyd meincnod dyrannu asedau strategol ar gyfer y Gronfa ac asesir risg o'i chymharu â'r meincnod drwy fonitro dyraniad asedau'r Gronfa a'r enillion ar fuddsoddiadau o'u cymharu â'r meincnod. Hefyd, asesir risg o'i chymharu â'r rhwymedigaethau trwy fonitro'r enillion ar fuddsoddiad o'u cymharu â'r rhwymedigaethau.

Caiff y dyraniad asedau ei ailgydbwyso'n rheolaidd i sicrhau nad yw'n crwydro'r tu hwnt i'r ystodau am unrhyw gyfnod parhaus.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i adolygu'r tybiaethau ynghylch marwolaeth a thybiaethau demograffig eraill a allai ddylanwadu ar gost y buddion. Caiff y tybiaethau hyn eu hystyried yn ffurfiol yn y prisiad sy'n digwydd bob tair blynedd.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio lliniaru'r risg systemig drwy gynnal portffolio amrywiol ond ni ellir darparu'n benodol ar gyfer pob posibilrwydd.

**Risg Weithredol**

- Risg yn sgil trosglwyddo - Y risg y bydd costau annisgwyl mewn perthynas â throsglwyddo asedau o reolwr i reolwr. Mae'r Pwyllgor yn cymryd cyngor proffesiynol mewn perthynas â monitro a chymryd trosolwg o unrhyw drosglwyddiadau.
- Risg o ran cadw asedau - Y risg y bydd hawliau economaidd ar asedau'r Gronfa yn cael eu colli pan gânt eu dal gan geidwad neu pan fyddant yn cael eu prynu a'u gwerthu.
- Diffygdalu – Y posibilrwydd y bydd cyfatebwr yn diffygdalu ac na fydd ymrwymiadau'n cael eu talu.
- Risg ffisegol newid yn yr hinsawdd – y risg y gallai llifogydd, tân neu ddigwyddiadau tymheredd effeithio ar weithrediadau'r Gronfa neu ei hendidau noddi.

Mae'r Pwyllgor yn monitro ac yn rheoli risgiau yn y meysydd hyn drwy graffu'n rheolaidd ar y darparwyr ac archwilio'r gwaith a wnânt ar ran y Gronfa.

**Risg Llywodraethu**

Mae llywodraethu da yn rhan hanfodol o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa ac o'r herwydd mae'r Gronfa yn nodi fod llywodraethu gwael yn risg bosibl allai gael effaith andwyol ar y lefel gyllido a'r diffyg/gwarged. Mae'r Gronfa yn sicrhau bod ei phroses gwneud penderfyniadau yn gadarn a thryloyw ac fe gofnodir hyn yn y Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu a gyhoeddir ar wefan y Gronfa.

**Risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu**

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn cynnwys ei hagwedd ei hun at Fuddsoddi Cyfrifol. Byddai methu cydymffurfio yn creu risg ariannol i'r Gronfa ac i'w henw da. Cred y Gronfa y dylai rheolaeth effeithiol ar risgiau Buddsoddi Cyfrifol o bwys ariannol gefnogi'r angen i'r Gronfa ddiogelu enillion dros yr hirdymor. Bydd y Gronfa yn ceisio integreiddio ffactorau Buddsoddi Cyfrifol ymhellach yn y broses fuddsoddi ar draws yr holl ddosbarthiadau asedau perthnasol.

**Agwedd at gyfuno asedau**

Ymunodd y Gronfa â Phartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn 2016 gyda'r ddealltwriaeth y bydd y buddsoddiadau cyfun yn elwa o gostau buddsoddi is, mwy o allu buddsoddi a mynediad at ystod fwy amrywiol o ddosbarthiadau asedau. Bydd trefnu fod darparwr a reoleiddir gan yr FCA yn gyfrifol am weithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn arwain at well llywodraethu, tryloywder ac adrodd, gan gynnig sicrwydd i'r Gronfa fod ei strategaeth fuddsoddi yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Bydd y prif feini prawf ar gyfer asesu atebion PPC fel a ganlyn:

- Bod PPC yn galluogi mynediad at ateb priodol sy'n cyflawni'r amcanion a'r meini prawf meincnod a bennwyd gan y Gronfa.
- Bod budd ariannol amlwg i'r Gronfa o fuddsoddi yn yr ateb a gynigir gan PPC, pe bai angen newid darparwr.

Hyd yn hyn, mae PPC wedi lansio'r is-gronfeydd canlynol y mae'r Gronfa wedi buddsoddi ynddynt:

**Ecwitïau Byd-eang** – Cronfa Tyfu Byd-eang.
**Incwm Sefydlog** – Cronfa Credyd Byd-eang.

Adeg paratoi'r datganiad hwn roedd y Gronfa hefyd wedi caffael ar y cyd un rheolwr ecwiti goddefol ar gyfer cronfeydd Cymru fel y nodir isod. Ar hyn o bryd mae'r cronfeydd hyn y tu allan i PPC, ond bydd y trefniadau monitro yn dal i gael eu cyflawni ar y cyd gan PPC.

| Dosbarth o Asedau | Rheolwr | % o asedau'r Gronfa | Meincnod ac amcan perfformiad |
|---|---|---|---|
| Ecwiti Goddefol Gan gynnwys y Gronfa Carbon Isel | BlackRock | 35-40 | FTSE All-Share a FTSE All-World Indices Benchmark Return<br>MSCI World Low Carbon Target Reduced Fossil Fuel Select Index |

Mae’r Gronfa yn bwriadu buddsoddi’r rhan fwyaf o’i hasedau eraill yn PPC pan fydd cyfleoedd yn codi ond bydd yn cadw rhai balansau arian parod yn y Gronfa. Cedwir y cyfrifoldeb am y strategaeth fuddsoddi gan y Gronfa gyda chyngor gan yr holl ymgynghorwyr proffesiynol perthnasol.

**Strwythur a threfniadau llywodraethu PPC**

Mae PPC wedi penodi gweithredwr trydydd parti a awdurdodwyd gan yr FCA (Link Fund Solutions) i ddarparu cyfres o is-gronfeydd buddsoddi y bydd asedau’r cronfeydd cyfranogol yn cael eu buddsoddi ynddynt.

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn ffurfiol i oruchwylio’r gweithredwr. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cynnwys wyth Cadeirydd pwyllgorau'r cronfeydd cyfranogol. Mae'r trefniant hwn yn cynnig atebolrwydd i’r gweithredwr yn ôl i awdurdodau gweinyddu unigol.

Mae’n gweithredu trwy drefniant ‘Un Gronfa, Un Bleidlais’, er mai’r bwriad yw y gwneir unrhyw benderfyniadau trwy gonsensws lle bynnag y bo hynny’n bosib.

Mae’r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda’r gweithredwr o ran yr is-gronfeydd penodol y dylid eu sefydlu o fewn PPC, ar y cychwyn ac yn barhaus wedi hynny.

Mae swyddogion o bob awdurdod cyfansoddol yn mynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (heb hawl pleidleisio). Mae’r swyddogion yn cynghori’r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar sefydlu a monitro’r gwahanol is-gronfeydd yn ogystal â chysylltu’n uniongyrchol â’r gweithredwr i drafod unrhyw faterion buddsoddi o ddydd i ddydd. Mae aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn adrodd yn ôl i bwyllgorau pensiwn eu priod gronfeydd unigol, sy’n gyfrifol am fodloni eu hunain fod y trefniadau cyfuno cyffredinol a gweithrediad y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn gweithio’n effeithiol.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn chwilio am sicrwydd ar agweddau ar reolaeth buddsoddiadau’r Gronfa a gwaith craffu allanol. Caiff diwydrwydd dyladwy ffurfiol y gweithredwr a’r ymddiriedolwr hefyd eu cyflawni gan yr FCA yn eu rôl yn rheoleiddiwr.

Mae’r gweithredwr yn gyfrifol am ddewis a chontractio gyda rheolwyr buddsoddi ar gyfer pob un o’r is-gronfeydd yn ogystal â phenodi darparwyr gwasanaethau eraill megis gwasanaethwr asedau ymddiriedol yn ôl y galw. Caiff bondiau rhestredig ac ecwitïau eu buddsoddi trwy'r Cynllun Contractiol Awdurdodedig yn y DU er mwyn elwa o natur dreth dryloyw y dull. Efallai y bydd dulliau eraill yn fwy priodol ar gyfer rhai mathau eraill o ddosbarthiadau asedau. Yn ogystal ag ystyried y dewisiadau gyda’r gweithredwr, rydym hefyd yn cymryd cyngor allanol ar y dull gweithredu terfynol a gynigir o safbwynt effeithlonrwydd treth a chydymffurfiaeth gyfreithiol.

O dan y strwythur, mae'r ymddiriedolwr yn dal teitl cyfreithiol asedau PPC. Mae'r gweithredwr yn gyfrifol am reoli a gweithredu buddsoddiadau PPC, gan gynnwys gwneud y contractau cyfreithiol gyda’r rheolwyr buddsoddi.

Mae'r gweithredwr yn darparu ac yn gweithredu amrywiaeth o ddulliau buddsoddi er mwyn galluogi’r cronfeydd cyfranogol i fuddsoddi ar y cyd. Mae'r gweithredwr yn gyfrifol am ddewis a chontractio gyda’r rheolwyr buddsoddi ar gyfer rheoli’r asedau sylfaenol. Mae’n gyfrifol hefyd am weinyddu’r dulliau o ran prisio unedau, prisio, trin llif arian i mewn ac allan o’r gwahanol is-gronfeydd, prosesu masnach ac adrodd ar berfformiad. Mae’n gyfrifol hefyd am

ddiwydrwydd dyladwy o safbwynt archwilio, cyfreithiol a threthiannol ar gyfer y gwahanol is-gronfeydd a hefyd am ethol ymddiriedolwr i PPC.

Mae PPC wedi penodi Hymans Robertson yn ymgynghorydd goruchwylio, Burges Salmon yn ymgynghorydd cyfreithiol a Robeco UK yn ddarparwr pleidleisio ac ymgysylltu.

**Buddsoddi cyfrifol ac i ba raddau y rhoddir ystyriaeth i ffactorau anariannol wrth ddewis, cadw a gwireddu buddsoddiadau**

Mae'r Gronfa yn fuddsoddwr hirdymor sy'n ceisio darparu cronfa bensiwn gynaliadwy ar gyfer yr holl randdeiliaid.

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin, sef awdurdod gweinyddu y Gronfa, ddyletswydd ymddiriedol i weithredu er lles gorau, hirdymor cyflogwyr ac aelodau cynllun y Gronfa.

Mae Buddsoddi Cyfrifol yn rhan sylfaenol o strategaeth fuddsoddi gyffredinol y Gronfa fel y'i cyflwynwyd yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi hwn. Hynny yw, sicrhau'r enillion mwyaf posib yn amodol ar lefel dderbyniol o risg yn ogystal â chynnig mwy o sicrwydd cost i gyflogwyr, a lleihau cost hirdymor y cynllun. Cred y Gronfa fod ystyried ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu Corfforaethol ("ESG") yn sylfaenol yn hyn o beth, yn enwedig felly pan maent yn debygol o effeithio ar yr amcan buddsoddi cyffredinol.

Mae dull y Gronfa o weithio yn ceisio sicrhau bod ystyried ffactorau ESG yn rhan annatod o'r broses fuddsoddi, gan ddefnyddio'r dulliau gwahanol sydd ar gael i reoli risgiau ESG a manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan ffactorau ESG. Egwyddorion buddsoddi cyfrifol craidd y Gronfa yw:

1. Byddwn yn meddwl dros yr hirdymor er mwyn sicrhau enillion hirdymor cynaliadwy o asedau a reolwyd yn dda.
2. Byddwn yn defnyddio arfarniad buddsoddi hirdymor seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau i weithredu egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol.
3. Byddwn yn ystyried costau penderfyniadau Buddsoddi Cyfrifol yn unol â'n dyletswyddau ymddiriedol.

Hyd yn hyn, agwedd gyffredinol y Gronfa at fuddsoddiadau cymdeithasol oedd dirprwyo hyn i'w rheolwyr buddsoddi sylfaenol, a PPC yn benodol, fel rhan o'i dyletswyddau ESG cyffredinol. Mae rheolwyr y Gronfa yn adrodd ar y mater hwn fel rhan o adolygiad ESG blynyddol y Gronfa.

Mae'r Pwyllgor yn deall na all y Gronfa eithrio buddsoddiadau er mwyn gweithredu boicotiaid, dadfuddsoddi a chosbau yn erbyn cenhedloedd eraill a diwydiannau amddiffyn y DU, ac eithrio pan roddodd y Llywodraeth gosbau, embargoau a chyfyngiadau cyfreithiol ffurfiol ar waith.

**Newid yn yr Hinsawdd**

Mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd drwy ei strategaeth fuddsoddi, ac mae'n credu'r canlynol:

- Mae newid yn yr hinsawdd yn peri risg systemig i sefydlogrwydd cyffredinol pob economi a gwlad, gyda'r potensial i effeithio ar yr aelodau, y cyflogwyr a'r holl ddaliannau ym mhortffolio buddsoddi'r Gronfa.
- Mae ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd nid yn unig yn ddyletswydd gyfreithiol neu ymddiriedol y Gronfa ond mae hefyd yn gyson â natur hirdymor y Gronfa. Mae angen i fuddsoddiadau'r Gronfa fod yn gynaliadwy er budd yr holl randdeiliaid allweddol. I'r perwyl hwn, mae'r Gronfa wedi ymrwymo i drosglwyddo ei buddsoddiadau tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net dros y tymor canolig. Bydd y Gronfa Bensiwn yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd, gan gynnwys sefydlu targedau canolradd.
- Ymgysylltu yw'r dull gorau o alluogi'r newid sydd ei angen i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd. Fodd bynnag, mae dadfuddsoddi dethol sy'n seiliedig ar risg yn briodol er mwyn hwyluso'r broses o symud i economi carbon isel.
- Yn ogystal â chreu risg, mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i wneud buddsoddiadau dethol sy'n sicrhau'r enillion gofynnol, ac ar yr un pryd cael effaith gymdeithasol ac amgylcheddol gadarnhaol, megis seilwaith amgylcheddol a chynhyrchion a gwasanaethau ynni glân sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Mae'r Gronfa hefyd yn ystyried polisïau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC.

**Ymarfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sydd ynghlwm wrth fuddsoddiadau**

**Hawliau Pleidleisio**

Mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo'r hawliau pleidleisio i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddiadau ar y sail y byddant yn arfer eu pwerau pleidleisio gyda'r nod o ddiogelu a gwella'r gwerth a gaiff cyfranddalwyr yn y tymor hir. Gan hynny mae rheolwyr y Gronfa wedi ysgrifennu canllawiau sy'n disgrifio'u prosesau a'u harferion yn hyn o beth. Anogir y rheolwyr yn gryf i bleidleisio yn unol â'u canllawiau mewn perthynas â'r holl benderfyniadau yng nghyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac arbennig y cwmnïau o dan Reoliad 7(2)(f).

**Stiwardiaeth**

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno â'r egwyddor y bydd y Gronfa yn llofnodi'r Cod Stiwardiaeth a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Maent yn disgwyl hefyd i PPC ac unrhyw reolwyr cronfeydd a benodir yn uniongyrchol gydymffurfio â'r Cod Stiwardiaeth.

Cred y Gronfa mewn ymgysylltu ar y cyd ac mae'n aelod o Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF), sy'n gyfle iddi leisio barn ar y cyd ar draws nifer o faterion llywodraethu corfforaethol.

## Egwyddorion Myners

Er na chyfeirir atynt yn benodol yn y Rheoliadau, mae’r Gronfa yn parhau i asesu ei chydymffurfiaeth ag Egwyddorion Llywodraethu Buddsoddi Da Myners. Ceir datganiad sy’n cyflwyno asesiad o gydymffurfiaeth yn **Atodiad B.**

## Cyngor a gymerwyd

Wrth greu’r datganiad hwn, cymerodd y Gronfa gyngor gan ei Swyddogion, ei Hymghynghorydd Buddsoddi Annibynnol a’i Hactwari.

| | Meincnod (%) | Ystod (%) |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 65.0 | 55.0 – 75.0 |
| Incwm Sefydlog | 10.0 | 5.0 – 15.0 |
| Eiddo | 15.0 | 10.0 – 20.0 |
| Seilwaith | 5.0 | 3.50 – 6.50 |
| Asedau amgen | 5.0 | 3.50 – 6.50 |
| **Cyfanswm** | **100.0** | |

## 6 Egwyddor Myners a Rhestr Gyfeirio Cydymffurfiaeth

| **1 Proses Benderfynu Effeithiol** | |
|---|---|
| Diffinio’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau Buddsoddi. | Wedi’i gynnwys yn y ISS |
| Ystyried a oes gan yr aelodau sgiliau digono. | Hyfforddiant – seminar aelodau LGC, cynadleddau LAPFF a PLSA, diwrnodau hyfforddiant rheolwyr buddsoddiadau a PPC, diwrnodau hyfforddiant Sefydliadau Cyflogwyr. Mae cynllun hyfforddiant ar waith. |
| Pennu a yw’r hyfforddiant a ddarperir yn briodol. | Hyfforddiant – seminar aelodau LGC, cynadleddau LAPFF a PLSA, diwrnodau hyfforddiant rheolwyr buddsoddiadau a PPC, diwrnodau hyfforddiant Sefydliadau Cyflogwyr. Mae cynllun hyfforddiant ar waith. |
| Asesu a yw'r cymorth staffio mewnol yn ddigonol. | Staff wedi’u hyfforddi’n gymwys ac yn meddu ar y cymwysterau cymwys. Mae cynllun hyfforddiant ar waith. |
| Sefydlu pwyllgor buddsoddiadau ac iddo gylch gorchwyl addas. | Sefydlwyd Pwyllgor Pensiwn â chylch gwaith y cytunwyd arno |
| Llunio cynllun busnes. | Cyhoeddir cynllun busnes yn flynyddol. Caiff Adroddiad Prisiant Actiwaraidd, Adolygiad o’r Strategaeth Fuddsoddi, Datganiad Strategaeth Cyllido a Datganiad Strategaeth Fuddsoddi eu diweddaru a’u llunio bob tair blynedd |
| Rhoi blaenoriaeth i benderfyniadau strategol ar ddyrannu asedau. | Cynhaliwyd astudiaeth asedau/rhwymedigaethau i bennu dyraniad yr asedau ar ôl cael trafodaethau llawn |
| Pob dosbarth o ased a ganiateir gan y rheoliadau wedi cael eu hystyried. | Rhoddwyd ystyriaeth i'r holl brif ddosbarthiadau asedau a phenodwyd rheolwyr yn unol â hynny. Mae dosbarthiadau asedau eraill yn parhau i gael eu hystyried. |

| | |
|---|---|
| Dyraniad yr asedau yn cydweddu a'r rhwymedigaethau a'r gofyniad i amrywio. | Cynhaliwyd astudiaeth asedau/rhwymedigaethau i bennu dyraniad yr asedau ar ôl cael trafodaethau llawn |
| Contractau ar wahân ar gyfer gwasanaethau actiwaraidd a chyngor ar fuddsoddi. | Mae contractau ar wahân ar gael ar hyn o bryd |
| Pennu cylch gorchwyl. | Manylion clir wedi'u cyhoeddi |
| Pennu rôl swyddog Adran 151 mewn perthynas ag ymgynghorwyr. | Rôl Swyddog Adran 151 wedi'i hegluro yn y cyfansoddiad |
| Y gweithdrefnau tendro wedi'u dilyn heb y cyfyngiad ar gostau. | Bydd tendro ar gyfer darparwyr gwasanaethau trydydd parti yn dilyn rheolau caffael lleol |
| **Egwyddor Gyffredinol 1** | **Cydymffurfio'n llawn** |
| **2 Amcanion Clir** | |
| Gosod amcan buddsoddi cyffredinol sy'n benodol yn unig i rwymedigaethau'r gronfa. | Meincnod teilwredig yn dilyn astudiaeth ased/rhwymedigaeth |
| Pennu'r paramedrau ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwr. | Amcanion clir wedi'u hamlinellu yn y ISS |
| Nodi'r ymagwedd at risgiau a therfynau. | Wedi'i hamlinellu'n glir yn y ISS |
| Clustnodi'r disgwyliadau o ran perfformiad ac amseriad y gwerthusiad. | Wedi'i hamlinellu'n glir yn y ISS |
| Defnyddio meincnod grŵp cymheiriaid at ddibenion cymharu yn unig. | Yn digwydd |
| Mae mandad ysgrifenedig wedi'i gynnwys mewn contract rheoli sy'n cynnwys elfennau a nodir | Diweddarwyd y contract, mae'r ISS yn glir ynghylch y materion hyn |
| Y cyfyngiadau ar y math o fuddsoddiadau yn unol â'r rheoliadau. | Yn digwydd |
| Rhoi rhesymau os caniateid comisiynau meddal. | Nid oes dim yn cael eu defnyddio |
| **Egwyddor Gyffredinol 2** | **Cydymffurfio'n llawn** |
| **3 Risg a Dyledion** | |
| Wrth osod ac adolygu'r strategaeth buddsoddi, dylid ystyried y fath a strwythur o'r dyledion. | Cynhelir astudiaeth rwymedigaethau lawn yn dilyn y prisio teirblwydd a chyn pennu ac adolygu'r strategaeth fuddsoddi |
| Dylid ystyried y goblygiadau i'r trethdalwyr lleol, cryfder y cyfamod i'r cyflogwyr, y risg o ddiffygdalu a'r risg hirhoedledd. | Wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth asedau/rhwymedigaethau a'r strategaeth fuddsoddi. |
| **Egwyddor Gyffredinol 3** | **Cydymffurfio'n llawn** |
| **4 Asesau Perfformiad** | |
| Ystyried a yw'r meincnodau mynegai a ddewiswyd yn briodol. | Wedi cael ei ystyried a chaiff y perfformiad ei fesur yn erbyn y meincnod a mynegeion y farchnad |
| Y cyfyngiadau o ran gwyro oddi wrth y mynegeion yn berthnasol. | Wedi rhoi ystyriaeth lawn ac yn y ISS |
| Ystyried rheolaeth weithredol neu reolaeth oddefol. | Wedi rhoi ystyriaeth lawn ac yn y ISS |
| Y targedau a rheolyddion risgiau yn adlewyrchu'r perfformiad a ddisgwylir. | Wedi rhoi ystyriaeth lawn ac yn y ISS |

| | |
|---|---|
| Strwythur ffurfiol ar gyfer monitro rheolaidd ar waith. | Mae sefydliad annibynnol yn darparu adroddiad rheolaidd ar enillion y gronfa |
| Trefniadau ar gael i asesu'r gweithdrefnau a phenderfyniadau'r aelodau. | Adroddiadau archwilio a phrisiant. Gweithdrefn Gwerth Gorau. |
| Trefniadau cyffelyb wedi'u sefydlu ar gyfer ymgynghorwyr a rheolwyr. | Y Pwyllgor a'r swyddogion yn monitro/adolygu'r rheolwyr a'r ymgynghorwyr yn rheolaidd. |
| **Egwyddor Gyffredinol 4** | **Cydymffurfio'n llawn** |
| **5 Perchnogaeth Atebol** | |
| Ymgorffori Egwyddorion yr UD ar weithredu yn y mandadau. | Adroddiadau'r ceidwaid ar y camau gweithredu corfforaethol a gymerwyd |
| Cyflogi asiantaethau pleidleisio allanol os bydd yn briodol. | Polisi Llywodraethu Corfforaethol cryf ar gael drwy'r rheolwr buddsoddiadau |
| Adolygu strategaethau'r rheolwr | Ein polisi ein hunain ar waith |
| Adolygu strategaethau'r rheolwr | Paratoir adroddiadau'n rheolaidd |
| **Egwyddor Gyffredinol 5** | **Cydymffurfio'n llawn** |
| **6 Tryloywder ac Adroddi** | |
| ISS yn cael ei ddiweddaru fel y pennwyd. | Yn digwydd ac wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol |
| Ymgynghori ynghylch newidiadau. | Yn digwydd. Ymgynghori bob blwyddyn. |
| Hysbysu rhanddeiliaid am newidiadau. | Yn digwydd ac wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol |
| Cyhoeddi newidiadau i'r ISS a'r manylion ynghylch cael copi. | Yn digwydd ac wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol |
| Clustnodi'r wybodaeth am fonitro sydd i'w hadrodd. | Yn digwydd, wedi'i chynnwys yn y ISS a chyflwynir adroddiadau yn unol â chyfnodau penodedig |
| Hysbysu aelodau'r Cynllun am ddata monitro allweddol a chydymffurfiaeth a'r egwyddorion. | Yn digwydd ac wedi'u cynnwys yn y ISS |
| **Egwyddor Gyffredinol 6** | **Cydymffurfio'n llawn** |

# Adran 9 – Polisi Buddsoddi Cyfrifol

## Cyflwyniad

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed (y Gronfa). Mae'r Gronfa'n gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran tua 51,500 o aelodau a 69 o gyflogwyr.

Y Pwyllgor Pensiynau yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer y Gronfa, a bydd Swyddogion y Gronfa yn unol â'u rôl fel gweinyddwyr y cynllun a'r Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol yn darparu cymorth.

Mae'r gwaith o reoli buddsoddiadau'r Gronfa o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i Reolwyr Buddsoddiadau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Rheolwyr hyn, lle trafodir materion perfformiad a llywodraethu gan gynnwys pynciau buddsoddi cyfrifol.

## Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Gronfa yn fuddsoddwr hirdymor sy'n anelu at ddarparu cronfa bensiwn gynaliadwy ar gyfer yr holl randdeiliaid ac mae ganddi ddyletswydd ymddiriedol i weithredu er budd pennaf, hirdymor cyflogwyr y Gronfa ac aelodau'r cynllun.

Mae Buddsoddi Cyfrifol yn rhan sylfaenol o strategaeth fuddsoddi gyffredinol y Gronfa fel y'i cyflwynwyd yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi hwn. Hynny yw, sicrhau'r enillion mwyaf posib yn amodol ar lefel dderbyniol o risg yn ogystal â chynnig mwy o sicrwydd cost i gyflogwyr, a lleihau cost hirdymor y cynllun. Cred y Gronfa fod ystyried ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu Corfforaethol ("ESG") yn sylfaenol yn hyn o beth, yn enwedig felly pan maent yn debygol o effeithio ar yr amcan buddsoddi cyffredinol.

Mae dull y Gronfa o weithio yn ceisio sicrhau bod ystyried ffactorau ESG yn rhan annatod o'r broses fuddsoddi, gan ddefnyddio'r dulliau gwahanol sydd ar gael i reoli risgiau ESG a manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan ffactorau ESG.

Egwyddorion buddsoddi cyfrifol craidd y Gronfa yw:

1. Meddwl yn yr hirdymor er mwyn sicrhau enillion hirdymor cynaliadwy o asedau a reolwyd yn dda.
2. Defnyddio arfarniad buddsoddi hirdymor seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau i weithredu egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol.
3. Ystyried costau penderfyniadau Buddsoddi Cyfrifol yn unol â'n dyletswyddau ymddiriedol.

Hyd yn hyn, agwedd gyffredinol y Gronfa at fuddsoddiad cyfrifol oedd dirprwyo hyn i'w rheolwyr buddsoddi sylfaenol, a PPC yn benodol, fel rhan o'i ddyletswyddau ESG cyffredinol.

## Credoau buddsoddi

Prif amcan y Gronfa yw darparu buddion pensiwn a chyfandaliadau i aelodau wrth iddynt ymddeol a/neu fuddion wedi iddynt farw cyn neu wedi eu hymddeoliad ar gyfer eu dibynyddion, yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Felly, yr amcan buddsoddi yw sicrhau'r enillion mwyaf posib yn amodol ar lefel dderbyniol o risg (gan gynnwys risgiau o ran yr hinsawdd a risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a

Llywodraethu eraill) wrth gynyddu sicrwydd cost i gyflogwyr, a lleihau cost hirdymor y cynllun. Mae cael dealltwriaeth drylwyr o'r risgiau sy'n wynebu'r Gronfa yn hollbwysig a rhoddir sylw i'r rheiny yn ddiweddarach yn y Polisi hwn.

Mae credoau buddsoddi'r Gronfa a ddefnyddir wrth baratoi'r strategaeth fuddsoddi fel a ganlyn:

- Mae cyllido, strategaeth fuddsoddi a chyfraddau cyfrannu ynghlwm wrth ei gilydd
- Y dyraniad asedau strategol yw'r ffactor allweddol wrth bennu proffil risg ac enillion buddsoddiadau'r Gronfa.
- Gall strwythurau llywodraethu effeithiol, sy'n hyrwyddo pendantrwydd, effeithlonrwydd ac atebolrwydd, ychwanegu gwerth at y Gronfa.
- Mae buddsoddi yn yr hirdymor yn cynnig cyfleoedd i wella enillion ac yn caniatáu i'r Gronfa gymryd rhai risgiau (ee. anwadalrwydd, anhylifedd) na fyddai'n dderbyniol o bosib fel arall.
- Gall cael amrywiaeth ar draws ac o fewn dosbarthiadau asedau helpu i liniaru rhag amgylchiadau andwyol yn y farchnad a chynorthwyo'r Gronfa i gynhyrchu proffil enillion mwy didrafferth gan fod enillion yn dod o nifer o ffynonellau gwahanol.
- Mae rheoli risg yn dasg gymhleth a sawl-dimensiwn ond y brif egwyddor yw cymryd y lefel briodol o risg i gyflawni amcanion y Gronfa.
- Mae ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn sbardunau pwysig i enillion a risgiau buddsoddi yn y tymor hir. Mae gan newid yn yr hinsawdd (UN SDG 13), yn benodol, y potensial i effeithio'n faterol ar broffil enillion a risg gwahanol asedau. Mae'r pwyllgor o'r farn y gall addasu ei ddyraniadau buddsoddi ac ymgysylltu â chwmnïau sy'n buddsoddi helpu i gyflawni ei nodau buddsoddi cyfrifol.
- Mae stiwardiaeth yn gyfrifoldeb pwysig ac yn un y gellir ei ddirprwyo. Mae ymgysylltu â chwmnïau sy'n buddsoddi yn rhan bwysig o hyn, ac mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol na dadfuddsoddi o ran gwella'r canlyniadau a ddymunir.
- Mae cael gwerth am arian o fuddsoddiadau yn bwysig, yn hytrach na chostau absoliwt yn unig. Gall cyfuno asedau helpu i leihau costau a chynnig mwy o ddewis o fuddsoddiadau a bydd felly'n ychwanegu at enillion y Gronfa.
- Gall rheolaeth weithredol ychwanegu gwerth at enillion yn yr hirdymor.

### Risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn cynnwys ei hagwedd ei hun at Fuddsoddi Cyfrifol. Byddai methu cydymffurfio yn creu risg ariannol i'r Gronfa ac i'w henw da. Cred y Gronfa y dylai rheolaeth effeithiol ar risgiau Buddsoddi Cyfrifol o bwys ariannol gefnogi'r angen i'r Gronfa ddiogelu enillion dros yr hirdymor. Bydd y Gronfa yn ceisio integreiddio ffactorau Buddsoddi Cyfrifol ymhellach yn y broses fuddsoddi ar draws yr holl ddosbarthiadau asedau perthnasol.

## Rôl y Bwrdd Pensiwn

Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol ('y Bwrdd') wedi'i sefydlu yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

Rôl a phwrpas y Bwrdd yw:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau, a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun fel y rhagnodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (DLUHC)
- Sicrhau bod y cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon.

Mae’r Bwrdd yn goruchwylio materion cydymffurfio a llywodraethu, gan gynnwys Buddsoddiad Cyfrifol, a gall wneud argymhellion i’r Pwyllgor Pensiwn yn unol â hynny. Nid oes gan aelodau'r Bwrdd yr hawl i bleidleisio ar benderfyniadau'r Gronfa ond gallant gyfrannu'n gadarnhaol a chefnogi gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau yn gyffredinol.

## Rhoi Benthyg Stoc

Mae’r Pwyllgor o’r farn y gall rhoi benthyg stoc fod yn ffordd effeithiol o gynhyrchu refeniw ychwanegol yn unol â’i strategaeth fuddsoddi. Fodd bynnag, mae’r Pwyllgor hefyd yn cydnabod na ddylai rhoi benthyg stoc gael ei ddefnyddio ar draul bod yn fuddsoddwr cyfrifol. Cydnabyddir y gall rhoi benthyg stoc rwystro gweithrediad llawn y polisi pleidleisio oherwydd efallai na fydd pleidleisiau'n cael eu bwrw ar stoc ar fenthyg ac felly mae cydbwysedd i’w gael o ganlyniad.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno bod gweithgarwch rhoi benthyg stoc yn cael ei wneud ar fuddsoddiadau cronfeydd ar y cyd a reolir yn weithredol Partneriaeth Pensiwn Cymru. Fodd bynnag, o fewn polisi rhoi benthyg stoc Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae gofyniad penodol i beidio â rhoi benthyg 100% o’r daliadau mewn unrhyw stoc unigol fel y gall Partneriaeth Pensiwn Cymru, mewn cydweithrediad â’i Hawdurdodau Cyfansoddol a’i chynghorwyr, fynegi barn a chymryd safiad polisi ar unrhyw bwnc y mae’n ei ystyried yn deilwng trwy ei hawl i bleidleisio.

Bydd y Pwyllgor, drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru, yn parhau i fonitro effaith y safiad polisi hwn ac yn adolygu ei safiad os oes angen. Mae'r Gronfa, drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru, hefyd yn cadw'r hawl i adalw stoc, os oes angen, fel rhan o'i threfniadau benthyca stoc.

## Ymgysylltu

Mae’r Pwyllgor o’r farn y gall ymgysylltu â chwmnïau sy'n buddsoddi helpu i gyflawni ei nodau buddsoddi cyfrifol. Yn ogystal, mae’r Pwyllgor yn annog rheolwyr asedau’r Gronfa i ymgysylltu â’r cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt, lle maent o'r farn y gellir ychwanegu gwerth, neu leihau risg.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn un o lofnodwyr Côd Stiwardiaeth y DU 2020 ac yn aelod cyswllt o Pensions for Purpose. Mae wedi penodi Robeco fel ei reolwr pleidleisio ac ymgysylltu, i sicrhau dull rhagweithiol o ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn ogystal â defnydd effeithiol o’i bŵer pleidleisio fel cyfranddaliwr.

Yn ogystal, cred y Gronfa mewn ymgysylltu ar y cyd ac mae’n aelod o Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF), sy’n gyfle iddi leisio barn ar draws ystod o bynciau ESG.

Mae'r Gronfa hefyd yn ymgysylltu â grwpiau fel Divest Dyfed a Chyfeillion y Ddaear Cymru yn rheolaidd lle cynhelir trafodaethau gwybodus a chyfnewid barn.

Yn ogystal, mae'r Gronfa'n ymgysylltu â'i haelodau drwy'r Llythyr newyddion blynyddol, Cyfarfod Ymgynghorol Blynyddol a gwefan benodol.

## Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd drwy ei datganiad strategaeth buddsoddi, ac mae'n credu'r canlynol:

- Mae newid yn yr hinsawdd yn peri risg systemig i sefydlogrwydd cyffredinol pob economi a gwlad, gyda'r potensial i effeithio ar yr aelodau, y cyflogwyr a'r holl ddaliannau ym mhortffolio buddsoddi'r Gronfa.
- Mae ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd nid yn unig yn ddyletswydd gyfreithiol neu ymddiriedol ar y Gronfa ond mae hefyd yn gyson â natur hirdymor y Gronfa. Mae angen i fuddsoddiadau'r Gronfa fod yn gynaliadwy er budd yr holl randdeiliaid allweddol. I'r perwyl hwn, mae'r Gronfa wedi ymrwymo i drosglwyddo ei buddsoddiadau tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net dros y tymor canolig. Bydd y Gronfa yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd, gan gynnwys sefydlu targedau canolraddol, un ohonynt yw lleihau dwyster carbon ecwitïau'r Gronfa o leiaf 7% y flwyddyn, sef y targed a nodwyd yng Nghytundeb Paris.
- Ymgysylltu yw'r dull gorau o alluogi'r newid sydd ei angen i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd. Fodd bynnag, mae dadfuddsoddi dethol sy'n seiliedig ar risg yn briodol er mwyn hwyluso'r broses o symud i economi carbon isel.
- Yn ogystal â chreu risg, mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i wneud buddsoddiadau dethol sy'n sicrhau'r enillion gofynnol, ac ar yr un pryd cael effaith gymdeithasol ac amgylcheddol gadarnhaol, megis seilwaith amgylcheddol a chynhyrchion a gwasanaethau ynni glân sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Mae'r Gronfa hefyd yn ystyried Polisïau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC.

## Hawliau Dynol

Mae disgwyliadau cymdeithasol cwmnïau o ran hawliau dynol yn cynyddu, yn ogystal â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol. Mae mwy o ddisgwyliadau ar gwmnïau i sicrhau eu bod yn amddiffyn hawliau dynol yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol, cyfreithiol a rheoleiddiol ar raddfa fyd-eang. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod ei rôl o ran cefnogi’r egwyddor hon ac annog gwelliant yn arferion cwmnïau drwy ei weithgarwch Pleidleisio ac Ymgysylltu lle bo cyfiawnhad dros hynny.

Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod ganddo rwymedigaeth i barchu hawliau dynol fel y’u hamlinellir yn Egwyddorion Arweiniol y CU ar Hawliau Busnes a Dynol (UNGP’s) ac i annog arfer da sy’n amddiffyn rhag tramgwyddo a chamfanteisio. Mae hefyd disgwyl cydymffurfiaeth â safonau normadol a deddfwriaeth berthnasol.

Ymdrinnir â gweithgarwch stiwardiaeth ynghylch hawliau dynol drwy aelodaeth y Gronfa o LAPFF a thrwy’r gweithgarwch ymgysylltu a wneir gan ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru, lle mae’r olaf yn canolbwyntio’n benodol ar themâu ymgysylltu sy’n gysylltiedig â materion hawliau dynol dros gyfnod o dair blynedd.

Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r ymdrechion hyn arwain at fwy o dryloywder er mwyn ysgogi gwelliannau yn y byd go iawn.

# Adran 10 – Datganiad Polisi Cyfathrebu

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn gwneud ei gorau i ddarparu gwasanaeth cyson o'r radd flaenaf i'n cwsmeriaid yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posibl, yn enwedig mewn byd pensiynau sy'n newid o hyd.

Nod Cronfa Bensiwn Dyfed yw defnyddio'r dull mwyaf priodol o gyfathrebu ar gyfer y rhai sy'n derbyn yr wybodaeth. Gallai hyn olygu defnyddio mwy nag un math ar gyfathrebu, yn ôl y galw.

Mae'r Gronfa yn sicrhau fod yr holl ofynion rheoleiddiol sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am y Cynllun yn cael eu bodloni a'u hasesu'n rheolaidd.

Mae'r Gronfa yn cyfathrebu â **5 grŵp penodol.**

## Aelodau'r Cynllun

### Gwefan y Gronfa

Mae'r Gronfa wedi creu gwefan helaeth sy'n disgrifio darpariaethau'r Cynllun yn syml ac yn gryno. Caiff yr wybodaeth ddiweddaraf ac eitemau newyddion eu hychwanegu'n gyflym i hysbysu'r aelodau am unrhyw ddatblygiadau newydd. Hefyd mae modd lawrlwytho copïau electronig o ddogfennau'r Gronfa, ynghyd â'i pholisïau a'i hadroddiadau.

### Fy Mhensiwn Ar-lein (FMA)

Gweborth integredig drwy wefan Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n galluogi'r aelodau i weld ac i ddiweddaru manylion eu pensiwn yn ddiogel ar-lein. Mae modd i'r Aelodau gyfrifo eu buddion yn fanwl gywir, diweddaru eu dymuniadau o ran y grant marwolaeth a'u manylion cyswllt, a gweld y datganiad blynyddol o'u buddion.

### Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae copi electronig o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa ar gael i holl aelodau'r Cynllun ar y wefan. Darperir copïau papur hefyd os gofynnir amdanynt.

### Cylchlythyr(on) Blynyddol

Bydd y Gronfa yn anfon cylchlythyr blynyddol at holl aelodau'r Gronfa, sy'n trafod materion pensiwn cyfredol o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r diwydiant pensiynau yn gyffredinol. Hefyd, anfonir y cylchlythyr at yr holl bensiynwyr, i roi gwybod iddynt am faterion pensiwn a materion eraill o ddiddordeb. Hefyd, cyhoeddir cylchlythyrau am bynciau penodol a chânt eu hanfon at yr aelodau yn ôl y galw.

### Datganiad Buddion Blynyddol (DBB)

Caiff y datganiadau eu llwytho'n awtomatig i lecyn yr aelod ar wefan Fy Mhensiwn ar-lein, neu fe'u hanfonir yn uniongyrchol i gyfeiriad cartref yr aelod os yw wedi dewis peidio â chofrestru cyn 31ain Awst. Mae'r datganiad gweithredol yn amlinellu gwerth presennol y buddion (fel y maent ar 31ain Mawrth), yn rhoi amcan o'r hyn fydd eu gwerth pan fydd yr aelod yn cyrraedd ei Oedran Pensiwn Arferol, gwerth presennol y buddion marwolaeth. Mae'r datganiad buddion gohiriedig ar y llaw arall yn dangos yr hyn fydd gwerth y buddion ar sail y codiadau. Ynghyd â phob datganiad, rhoddir nodiadau cyfarwyddyd ategol.

**Taflenni Dwyieithog y Cynllun**

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn cyhoeddi amrywiaeth eang o daflenni gwybodaeth i'w hanfon at gyrff cyflogi ac aelodau'r Cynllun yn uniongyrchol. Mae'r taflenni hyn yn rhan o'r wybodaeth a gedwir ar wefan y Gronfa.

**Hysbysiad Statudol**

Yn unol â Rheoliadau'r Cynllun, caiff yr aelodau eu hysbysu pan fydd unrhyw newid i'w cofnod pensiwn a fydd yn effeithio ar eu buddiannau pensiwn.

**Seminarau Ar-lein**

Cynhelir y rhain yn aml i godi ymwybyddiaeth yr aelodau ac i'w helpu i ddeall darpariaethau cyffredinol y Cynllun. Ar hyn o bryd, mae'r sesiynau hyn yn cael eu cyflwyno ar-lein (trwy Teams neu Zoom) oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

**Cyflwyniadau Cyffredinol a Chyrsiau**

Gall y Gronfa roi cyflwyniadau safonol neu deilwredig ar amrywiaeth eang o faterion sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ar hyn o bryd, mae'r sesiynau hyn yn cael eu cyflwyno ar-lein (trwy Teams neu Zoom) oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

**Cymorthfeydd Pensiynau**

Gellir trefnu cyfarfodydd i grwpiau o aelodau'r Cynllun os gofynnir am hynny, neu i aelodau unigol ar ffurf cymhorthfa. Gellir trefnu cyfarfodydd gyda'r Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddiant pwrpasol a'u cynnal ar-lein (trwy Teams neu Zoom) oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

**Cyrsiau Cyn Ymddeol**

Mae Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddiant penodol y Gronfa ar gael i gyflwyno cyrsiau cyn-ymddeol ar-lein yn ystod y cyfnod COVID-19 i gynorthwyo aelodau sydd ar fin ymddeol ac i roi gwybod iddynt am eu hawliau ac am weithdrefnau Llywodraeth Leol.

**Gohebiaeth**

Mae'r Gronfa'n defnyddio e-bost yn ogystal â'r post arferol i anfon a derbyn gohebiaeth. Atebir pob gohebiaeth yn yr iaith a ffafrir gan yr unigolyn. Mae cyfleuster Fy Mhensiwn ar-lein yn gweithredu hefyd fel cyfrwng electronig arall.

**Slipiau Tal / P60**

Bydd pensiynwyr yn cael slipiau tâl bob mis Ebrill ac yna unrhyw bryd y bydd amrywiant o £5 neu ragor, oni bai fod yr aelodau wedi dewis defnyddio gwasanaeth Fy Mhensiwn Ar-lein. Yn ogystal, mae hysbysiadau P60 yn cael eu rhoi bob blwyddyn ym mis Mai, gan roi dadansoddiad o'r symiau blynyddol a delir.

**Datganiadau Cynnydd yn y Pensiwn**

Anfonir datganiad blynyddol at yr holl bensiynwyr pan fydd unrhyw gynnydd yn eu pensiwn, yn unol â mynegai costau byw priodol. Caiff y rhain eu rhoi yn electronig i'r rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer gwasanaeth Fy Mhensiwn ar-lein.

**Dilysu Bodolaeth (Ymarfer Tystysgrif Bywyd)**

Bob blwyddyn bydd y Gronfa yn cynnal ymarfer i gadarnhau bodolaeth pensiynwyr sy'n cael eu taliadau pensiwn misol ar ffurf siec a'r pensiynwyr hynny sy'n byw dramor.

## Darpar Aelodau'r Cynllun

### Canllaw y Cynllun

Caiff yr holl Ddarpar Aelodau gopi o Ganllaw y Cynllun wedi iddynt gael eu penodi.

### Cyrsiau Cynefino Corfforaethol

Bydd y Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddi yn galli cyflwyno rhan yn unrhyw digwyddiadau cynefino corfforaethol ar-lein, er mwyn cyflwyno manteision y Cynllun i ddarpar Aelodau. Hefyd cynigir cyfarfodydd ar-lein i ddatrys unrhyw ymholiadau sydd gan unigolion.

### Ymgyrchoedd ar gyfer Pobl sydd Heb Ymuno

Bydd y Gronfa yn gofyn i gyflogwyr y Cynllun ei hysbysu'n swyddogol am bobl sydd heb ymuno. Defnyddir yr wybodaeth i farchnata'r Cynllun ymhlith grwpiau penodol, ac o dro i dro bydd taflenni ac ymgyrchoedd penodol yn cael eu llunio ar y cyd â chyflogwyr y Cynllun.

### Seminarau Ar-lein

Yn ogystal â bod yn gymorth gwerthfawr i bensiynwyr ac aelodau presennol y cynllun, defnyddir seminarau ar-lein i dargedu pobl nad ydynt yn aelodau. Drwy hyn gellir sicrhau fod pobl yn cael yr wybodaeth angenrheidiol i wneud dewis deallus am eu pensiwn.

### Gwefan

Ar wefan y Gronfa mae adran benodol ar gyfer pobl sydd heb ymuno. Mae'n tynnu sylw at y manteision o gynllunio ar gyfer ymddeoliad a'r hyn a gynigir gan y Cynllun fel y gellir gwneud dewis deallus.

### Undebau Llafur

Bydd y Gronfa yn gwneud ei gorau i weithio gyda'r Undebau Llafur perthnasol i sicrhau fod pob un yn deall darpariaethau'r Cynllun. Os gofynnir am hynny darperir diwrnodau hyfforddiant ar gyfer swyddogion cangen, a gwneir pob ymdrech i sicrhau fod pob mater sy'n ymwneud â phensiwn yn cael ei gyfleu'n effeithiol wrth yr Undebau Llafur.

## Cyflogwyr y Cynllun

### Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol (CYB)

Bob blwyddyn cynhelir cyfarfod ar gyfer cyflogwyr y Cynllun, ac yn y cyfarfod hwn bydd Swyddogion a Rheolwyr y Gronfa yn cyflwyno adroddiadau manwl am fuddsoddiadau'r Gronfa ac am yr agweddau ariannol a gweinyddol. Weithiau gwahoddir siaradwyr eraill i drafod materion penodol sy'n gysylltiedig â'r Diwydiant Pensiynau.

### Cyfarfodydd Achlysurol

Cynhelir cyfarfodydd achlysurol i gyflogwyr hefyd. Defnyddiwyd y cyfarfodydd hyn yn benodol i gyflwyno materion strategol pwysig, newidiadau pwysig mewn deddfwriaeth a materion prisiant diwedd blwyddyn / tair blynedd. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu gynnal ar-lein ar hyn o bryd.

### Gwybodaeth Ddiweddar dros yr E-bost

Anfonir gwybodaeth ddiweddar am reoliadau a gweinyddiaeth y Gronfa at yr holl gyflogwyr dros yr e-bost.

**Hyfforddiant**

Gellir gofyn i'r Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddiant drefnu sesiynau penodol i ddatrys unrhyw faterion hyfforddiant gweinyddol a glustnodwyd gan y cyflogwr, neu'r Gronfa. Yn swyddfa'r cyflogwr neu fel cyfarfod rhithwir y cynhelir y sesiynau hyn, a bydd datblygiadau yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd wedi hynny. Ar hyn o bryd, mae'r sesiynau hyn yn cael eu cyflwyno ar-lein (trwy Teams neu Zoom) oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

**Gwefan**

Ar wefan y Gronfa mae adran benodol ar gyfer Cyflogwyr sy'n cynnwys y canllawiau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau gweinyddol yn effeithiol. Hefyd, mae nifer o gyhoeddiadau ar gael i'w lawrlwytho.

**Cyflwyno Data Ar-lein**

Anogir pob cyflogwr i gyflwyno ddata fisol trwy'r porth gweinyddu i-Connect, gyda'r hyfforddiant a'r gefnogaeth berthnasol yn cael eu darparu gan dîm gweinyddu'r Gronfa.

**Mynediad i'r System Bensiynau**

Caiff bob cyflogwr gyfle i gael mynediad at gofnodion pensiwn eu haelodau cyfredol, i groesgyfeirio a gwirio data.

**Y Strategaeth Weinyddu**

Cyhoeddwyd y Strategaeth i gydymffurfio â Rheoliadau'r Cynllun, ac mae'n diffinio cyfrifoldebau'r Gronfa a'r holl gyflogwyr wrth weinyddu'r Cynllun. Mae'r strategaeth yn dangos yn glir lefel y perfformiad a ddisgwylir gan yr holl gyflogwyr a'r canlyniad o fethu â bodloni'r dyddiadau cau statudol.

**Staff y Gronfa**

**Cynefino**

Caiff pob aelod newydd o staff gyfle i gynefino ac maent yn cael rhaglen gynefino. Hefyd, cynhelir rhaglen arfarnu flynyddol i adolygu a monitro perfformiad a datblygiad gweithwyr.

**Cyfarfodydd**

Cynhelir cyfarfodydd Adrannol ac Is-adrannol yn rheolaidd. Bydd eitemau sy'n codi yn y cyfarfodydd hyn yn cael eu rhoi ger bron yr Uwch-reolwyr a'r Prif Swyddogion. Hefyd, mae unrhyw faterion o ddiddordeb yn cael eu rhaeadru i'r holl staff.

**Hyfforddiant a Chymorth**

Mae'r Gronfa yn anelu'n gyson at wella gallu'r staff i gyfathrebu'n effeithiol ac i ddeall mor bwysig yw gohebiaeth o'r radd flaenaf. Darperir hyfforddiant cyffredinol a hyfforddiant sy'n ymwneud â phensiynau gan y Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddiant â'r Bwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol (LGPC), fel rhan o ymrwymiad y Gronfa i wella'n barhaus. Anogir staff hefyd i ymgymryd â chymwysterau proffesiynol perthnasol (fel y darperir gan y Chartered Institute of Payroll Professionals (CIPP)).

**Seminarau**

Mae Swyddogion y Gronfa yn mynd yn rheolaidd i seminarau a chynadleddau a gynhelir gan gyrff cysylltiol er mwyn cael gwybodaeth ynghylch rheoleiddio ac i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Yna, mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhaeadru i'r holl staff er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir.

**Cyrff Eraill**

**Chronfeydd Pensiwn eraill**

Mae'r Gronfa'n gweithio'n gyson i ymgysylltu â Chronfeydd Pensiwn eraill Cymru i werthuso trefniadau partneriaeth penodol. Ar hyn o bryd, y Gronfa hon yw'r awdurdod arweiniol yng Ngweithgor Cyfathrebu Cronfeydd Pensiwn Cymru Gyfan, ac maent yn rhan o Grŵp Swyddogion Pensiynau Cronfeydd Pensiwn Cymru a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

**Undebau Llafur**

Bydd cynrychiolwyr lleol yn tynnu sylw'r aelodau at fanylion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Maent hefyd yn helpu yn y trafodaethau o dan drosglwyddiadau TUPE er mwyn sicrhau y gellir parhau i fanteisio ar y Cynllun lle bynnag y bo modd.

**Fforwm Gwybodaeth Cenedlaethol**

Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i drafod materion cyffredin ac i rannu arferion gorau. Mae cynrychiolaeth o Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (DLUHC) a'r Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol (LGPC) yn bresennol ym mhob cyfarfod.

**Seminarau**

Mae Swyddogion y Gronfa yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn seminarau a chynadleddau a gynhelir gan gyrff sy'n gysylltiedig â CPLlL.

## Adran 11 - Geirfa

**Rheolaeth Weithredol** – Dull o Reoli Buddsoddiadau sy’n ceisio perfformio’n well na’r Meincnod perthnasol drwy Ddyrannu Asedau, Amseru’r Farchnad neu Ddewis y Stoc (neu gyfuniad o’r rhain). Mae’n gwbl groes i Reolaeth Oddefol.

**Actiwari** – Ymgynghorydd annibynnol sy’n rhoi cyngor o ran gallu’r gronfa i dalu ei ffordd. Mae’r actiwari’n adolygu asedau a rhwymedigaethau’r gronfa bob tair blynedd ac yn cyflwyno adroddiad i’r Cyngor Sir, sef yr awdurdod gweinyddu, ar y sefyllfa ariannol, ac yn argymell cyfraddau cyfrannu’r cyflogwyr. Gelwir hyn yn brisiant actiwaraidd.

**Dosbarth o Asedau** – Buddsoddi mewn maes penodol neu fath penodol ar fuddsoddi e.e. Ecwitis y DU, Ecwitis tramor, Incwm Sefydlog, Arian.

**Elw Meincnod** – Yr elw meincnod yw’r elw y byddai Rheolwr y Gronfa wedi’i gyflawni heblaw iddo wrth y pwysau a roddwyd i bob dosbarth o asedau gan y Pwyllgor Pensiwn ac wedi llwyddo i wneud elw ym mhob un o’r dosbarthiadau hyn o asedau yn unol a chyfartaledd yr elw a wnaed gan bob Cronfa Awdurdod Lleol yn y dosbarthiadau hynny. Mae pwysau Meincnod y dosbarthiadau o asedau wedi’u hamlinellu yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

**Llywodraethu Corfforaethol** – Materion sy’n ymwneud a’r ffordd y mae cwmni yn sicrhau ei fod yn rhoi’r pwysigrwydd mwyaf i les ei randdalwyr a sut y gall rhanddalwyr ddylanwadu ar reolaeth.

**Ecwitis** – Cyfranddaliadau cyffredin mewn cwmnïau Prydeinig a chwmnïau tramor a fasnachwyd ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Mae gan gyfranddalwyr fudd yn elw’r cwmni ac fel rheol bydd ganddynt hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyfranddalwyr.

**Gwarannau Llog Sefydlog** – Buddsoddir yn bennaf mewn stociau’r llywodraeth, sy’n gwarantu cyfradd llog sefydlog. Mae’r gwarannau’n fenthyciadau sydd i’w had-dalu ar ddyddiad penodol yn y dyfodol ond gellir eu gwerthu ar y Farchnad Stoc yn y cyfamser.

**Rheolwr y Gronfa** – Unigolyn neu gwmni y mae’r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo iddo/iddi y gwaith o fuddsoddi holl asedau cronfa neu ran o’r asedau hynny.

**Buddsoddi** – Caffael ased at y diben o gynhyrchu incwm ac Enillion Cyfalaf I’w berchennog.

**Ymgynghorydd Buddsoddi Unigolyn** – neu gwmni a chymwysterau proffesiynol y mae ei brif fywoliaeth yn seiliedig ar ddarparu cyngor buddsoddi gwrthrychol a diduedd i gwmnïau, cronfeydd pensiwn neu unigolion a hynny am ffi benodol.

**Dangosyddion y Farchnad** – (i) Mae’r symudiadau yn y Farchnad Stoc yn cael eu monitro yn barhaus drwy gyfrwng Mynegai o brisiau cyfredol detholiad cynrychioliadol o stoc. (ii) Newid yn y cyfraddau o ran cyfnewid arian.

**Gwerth ar y Farchnad** – Y pris a geir o werthu buddsoddiad ar ddyddiad arbennig.

**Perfformio’n Well / Tanberfformio** – Y gwahaniaeth rhwng elw y mae cronfa neilltuol wedi ei ennill ac elw Cronfa ‘Gyfartalog’ neu Fynegai dros gyfnod penodol o amser, h.y. efallai mai targed cronfa yw perfformio’n well na Meincnod dros gyfnod o 3 blynedd.

**Rheolaeth Oddefol** – (fe’i gelwir hefyd yn Mynegeio/Olrhain Mynegai) Math o Reolaeth Buddsoddi sy’n anelu at lunio Portffolio mewn ffordd sy’n darparu’r un elw ag a ddarperir gan Fynegai a ddewiswyd, h.y. mae stociau yn cael eu prynu i adlewyrchu cymaint a phosib gyfansoddiad y Mynegai. Mae’n gwbl groes i Reolaeth Weithredol.

**Perfformiad** – Mesur, sy'n cael ei gyfleu gan amlaf ar ffurf canran, sy'n dangos cystal yw llwyddiant cronfa dros gyfnod penodol o amser – nail ai mewn termau absoliwt neu wedi ei fesur yn ôl Cronfa 'Gyfartalog' neu Feincnod arbennig.

**Mesur Perfformiad** – Gwasanaeth a luniwyd i gynorthwyo buddsoddwyr i werthuso perfformiad eu buddsoddiadau. Fel arfer mae hyn yn cynnwys cymharu perfformiad cronfa gyda Meincnod a ddewiswyd a/neu gydag Universe o gronfeydd tebyg. Y prif Gwmnïau Mesur Perfformiad yw Northern Trust, y mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn ei ddefnyddio, a PIRC.

**Portffolio** – Term torfol am y buddsoddiadau a ddelir mewn cronfa, marchnad neu sector.

**Budd-daliadau Cadwedig** – Y budd-daliadau pensiwn sy'n daladwy i aelod o'r Gronfa ar gyrraedd oedran ymddeol arferol sydd wedi stopio cyfrannu o ganlyniad i adael ei waith neu ddewis gadael y Cynllun Pensiwn cyn oedran ymddeol arferol.

**Elw** – Cyfanswm yr enillion o ddal buddsoddiad am gyfnod penodol, yn cynnwys incwm a chynnydd (gostyngiad) yng ngwerth y farchnad.

**Risg** – Fel arfer mae'n cyfeirio at Amrywiant yr Elw. Rhaid i fuddsoddiadau a'r risg mwyaf addo elw uwch na'r buddsoddiadau mwy 'sefydlog' cyn y bydd buddsoddwyr yn eu prynu.

**Trosglwyddo Gwerth Cyfraniadau** – Dyma werth y taliadau rhwng cronfeydd pan fydd cyfranwyr yn ymadael a gwasanaeth un cyflogwr ac yn penderfynu mynd a gwerth eu cyfraniadau pensiwn i gronfa eu cyflogwr newydd.

**Cynnydd/(Gostyngiad) heb ei realeiddio yn y Gwerth ar y Farchnad** – Y cynnydd (gostyngiad) a fu ers dyddiad y pryniant, ar werth ar y farchnad y buddsoddiadau hynny a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.

# Cysylltu a'r Gronfa

**Chris Moore**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
CMoore@sirgar.gov.uk

## Buddsoddiadau y Gronfa

**Anthony Parnell**
Rheolwr Pensiwn a Buddsoddiad Gyllidol
AParnell@sirgar.gov.uk

**Martin Owens**
Swyddog Buddsoddiadau Pensiwn
MSOwens@sirgar.gov.uk

**Jason Williams**
Cyfrifydd Cynorthwyol
JasWilliams@sirgar.gov.uk

**Tina Leigh**
Technegydd Cyfrifon
TLeigh@sirgar.gov.uk

## Gweinyddiaeth y Gronfa

**Kevin Gerard**
Rheolwr Pensiynau
KGerard@sirgar.gov.uk

**Martin Morgan**
Dirprwy Rheolwr Pensiynau
MMorgan@sirgar.gov.uk

Fel arall, ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch **Budd-daliadau Aelodau**, e-bostiwch pensiynau@sirgar.gov.uk neu ffoniwch:

| | |
|---|---|
| Cyfenw A – G | 01267 224937 |
| Cyfenw H – O | 01267 224687 |
| Cyfenw P – Z | 01267 224048 |